

8 Ionawr 2015

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol
â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Roedd tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Nick Selwyn
a staff o PwC o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo'r pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol, ynghyd ag archwilydd penodedig, hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Am ragor o wybodaeth ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2015

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion canlynol: Ffôn 029 2032 0500, e-bost info@wao.gov.uk

Cynnwys

	Crynodeb	7
	Argymhellion	13
1	Bydd y newidiadau a wneir i'r system Budd-dal Tai fel rhan o'r diwygiadau lles yn effeithio ar gyfran uwch o denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru nag yn Lloegr neu'r Alban ac mae rhai tenantiaid tai cymdeithasol yn wynebu mwy o dlodi, dyledion ac allgáu sy'n cyd-daro â'r newidiadau hyn	15
	Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn amcangyfrif y caiff £490 miliwn ei arbed ar Fudd-dal Tai ym Mhrydain Fawr yn 2013-14 drwy ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr ac y caiff £26 miliwn o'r arbedion hynny eu gwneud yng Nghymru, ond ni ellir darogan y gwir arbedion yn gywir	18
	Er nad yw'r broses o weinyddu budd-daliadau lles wedi'i datganoli, mae canlyniad y newidiadau yn effeithio ar lawer o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid er mwyn helpu i ymdrin â'r effaith	20
	Ers 1 Ebrill 2013, mae cyfran uwch o denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru wedi profi gostyngiad yn eu Budd-dal Tai ar ôl i'r cymhorthdal ystafell sbâr gael ei ddiddymu o gymharu â'r Alban neu Loegr	21
	Mae mwy o dlodi ymhlith rhai tenantiaid tai cymdeithasol, sy'n cyd-daro â newidiadau i'w Budd-daliadau Tai	23
	Mae llawer o denantiaid wedi'u hallgáu'n ddigidol ac ni allant ddefnyddio gwasanaethau ar-lein pwysig	26
	Mae Budd-dal Tai a dyledion personol yn cyfrif am gyfran sylweddol o geisiadau am gyngor ond bu gostyngiad sylweddol yn nifer y gwasanaethau cynghori ar dai annibynnol sydd ar gael yng Nghymru	27

2	Mae cynlluniau a threfniadau cynghorau i helpu tenantiaid tai cymdeithasol i ymdopi ag effaith y diwygiadau lles yn anghyson	30
	Mae gan bob cyngor gynlluniau i fynd i'r afael ag effaith y diwygiadau lles ond nid oes pob cyngor yn cymryd camau cynhwysfawr i liniaru'r effaith	31
	Mae cynghorau yn cydweithio ag asiantaethau eraill i ddiwallu anghenion tenantiaid yn eu hardal, ond mae effeithiolrwydd gwaith partneriaeth ledled Cymru yn amrywio	32
	Mae trefniadau hyfforddi a threfniadau i rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau ar waith ond amrywiol yw llwyddiant y gwaith hwn	33
	Mae trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd er mwyn ymateb i ddiwygiadau lles o fewn cynghorau yn amrywio'n eang a cheir anghysondeb o ran y ffordd y mae cynghorau yn monitro ac yn gwerthuso eu llwyddiant wrth gyflawni eu cynlluniau	34
	Ni chesglir data allweddol i fesur effaith y diwygiadau lles ar hyn o bryd	36
	Mae pob cyngor wedi nodi bod diwygiadau lles yn risg sylweddol ond nid yw'r dulliau a ddefnyddir i liniaru'r risg hon bob amser yn gynhwysfawr	37
3	Prin yw'r effaith a gaiff ymdrechion cynghorau a chymdeithasau tai i helpu tenantiaid i liniaru effaith y penderfyniad i ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr	39
	Mae nifer yr aelwydydd sy'n atebol i dalu rhent uwch ar ôl i'r cymhorthdal ystafell sbâr gael ei ddiddymu wedi gostwng 14 y cant yn 2013-14 ond mae cynghorau a chymdeithasau tai yn disgwyl i'r niferoedd a gynorthwyir leihau yn y dyfodol	40
	Mae'r rhan fwyaf o landlordiaid wedi cyfathrebu'n effeithiol â'u tenantiaid ynglŷn â'r newidiadau i'w budd-daliadau ac wedi datblygu proffiliau manwl er mwyn cynllunio sut y byddant yn darparu eu gwasanaethau	41
	Mae'r rhan fwyaf o landlordiaid wedi diwygio eu cynlluniau dyrannu fel eu bod yn rhoi blaenoriaeth i drosglwyddo'r tenantiaid hynny sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr ac er bod 14 y cant o'r tenantiaid dan sylw wedi symud dros y flwyddyn ddiwethaf, nid yw'r rhan fwyaf ohonynt wedi cofrestru i drosglwyddo	44
	Prin y mae cynghorau a chymdeithasau tai wedi defnyddio'r sector rhentu preifat i wella symudedd deiliadaeth o ganlyniad i'r newidiadau i Fudd-daliadau Tai ac nid yw'r rhan fwyaf o denantiaid sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr am symud i'r sector rhentu preifat	47

Nid yw'r rhan fwyaf o gynghorau a chymdeithasau tai yn mynd ati i hyrwyddo cynlluniau lletya a phrin yw'r gefnogaeth ymhlith tenantiaid i dderbyn lletywyr	49
Mae mwy o alw am gartrefi llai o faint i ddiwallu anghenion tenantiaid sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr, ond prin fu'r cynnydd yn y cyflenwad o dai llai o faint sydd ar gael a chyfyngedig fu'r newidiadau i'r llety sydd eisoes ar gael	50
Darlun cymysg sydd gennym o'r ffordd y mae cynghorau a chymdeithasau tai yn helpu tenantiaid sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr i gael gwaith llawn amser	53
Cynyddodd Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a Llywodraeth Cymru £5.1 miliwn yn 2013-14 ond mae anghysondebau a gwendidau sylweddol i'w gweld yn y ffordd y caiff y taliadau hyn eu dyrannu, eu dosbarthu, eu gweinyddu a'u defnyddio	54
4 Dywed cynghorau a chymdeithasau tai fod yn rhaid iddynt wario mwy er mwyn delio â rhai o effeithiau'r diwygiadau lles ac y bydd y risgiau sy'n eu hwynebu yn cynyddu'n sylweddol yn sgil newidiadau yn y dyfodol	62
Yn ôl landlordiaid tai cymdeithasol, mae'n rhaid iddynt fuddsoddi mwy mewn adnoddau er mwyn rheoli cartrefi gwag a chasglu rhent	63
Cynyddodd ôl-ddyledion rhent tenantiaid tai cymdeithasol £5.3 miliwn a chynyddodd nifer y tenantiaid ag ôl-ddyledion 23.3 y cant rhwng mis Ebrill a mis Hydref 2013	65
Ni fu unrhyw gynnydd yn nifer y bobl y derbyniwyd eu bod yn ddigartref ond dywed 50 y cant o gynghorau fod y galw am lety dros dro yn cynyddu a dywed 41 y cant fod rhai pobl ddigartref yn byw am gyfnodau hwy mewn llety dros dro tra'u bod yn aros i gael eu hailgartrefu	66
Bydd y cynlluniau i gyflwyno Credyd Cynhwysol a thalu budd-daliadau'n uniongyrchol i denantiaid yn cynyddu'r risgiau y bydd yn rhaid i gynghorau a chymdeithasau tai eu trin	67
Atodiadau	
Atodiad 1 – Methodoleg	71

Adroddiad cryno



Mae'r newidiadau i Fudd-dal Tai a gyflwynwyd gan y rhaglen diwygio lles yn cael effaith sylweddol ar gynghorau a chymdeithasau tai yng Nghymru ac maent yn ei chael hi'n anodd cyflwyno atebion effeithiol a chynaliadwy i ymdrin â'r heriau sy'n eu hwynebu

- 1 Mae Deddf Diwygio Lles 2012 yn dynodi newid mawr i'r ffordd y caiff budd-daliadau eu gweinyddu a'u dosbarthu a chaiff effaith sylweddol ar lawer o ddinasyddion. Ym mis Ebrill 2011, dechreuodd Llywodraeth y DU ar raglen ddiwygio a fydd yn arwain at gyflwyno'r Credyd Cynhwysol fesul cam rhwng mis Hydref 2013 a 2017. Un o brif nodweddion cynlluniau Llywodraeth y DU yw'r newidiadau i Fudd-dal Tai, sy'n ceisio lleihau gwariant blynyddol tua £2.3 biliwn. Bydd y newidiadau hyn yn golygu y bydd miliynau o aelwydydd ym Mhrydain Fawr¹ yn cael llai o fudd-daliadau, gan olygu y bydd yn rhaid iddynt wneud dewisiadau anodd am y ffordd y maent yn defnyddio ac yn rheoli eu harian o ddydd i ddydd.
- 2 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r nifer sy'n hawlio Budd-dal Tai ym Mhrydain Fawr wedi cynyddu'n sylweddol, gan gynyddu o 4.1 miliwn o aelwydydd ym mis Tachwedd 2008 i ychydig dros 5 miliwn ym mis Chwefror 2014². Mae nifer y tenantiaid sy'n byw mewn llety rhent cymdeithasol³ ac yn hawlio Budd-dal Tai ym Mhrydain Fawr wedi cynyddu dros chwech y cant o 3.1 miliwn ym mis Chwefror 2009 i 3.3 miliwn ym mis Chwefror 2014. Yng Nghymru, cynyddodd y ffigur tua phump y cant o 156,388 ym mis Chwefror 2009 i 164,376 ym mis Chwefror 2014.
- 3 Yn hanesyddol, prin fu'r cyfyngiadau ar hawlwr Budd-dal Tai yn y sector rhentu cymdeithasol o ran maint eu llety, a swm y Budd-dal Tai y mae ganddynt hawl iddo. Mae hynny'n newid nawr o ganlyniad i Ddeddf Diwygio Lles 2012 a chyfarwydddebau polisi eraill. Y bwriad yw y bydd y polisïau hyn yn lleihau gwariant ar Fudd-dal Tai i denantiaid tai cymdeithasol drwy gyfyngu ar swm y Budd-dal Tai a delir ac, felly, gallant gael effaith fawr ar fywydau llawer o deuluoedd.
- 4 Yn gryno, y prif newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Diwygio Lles 2012 yw:
 - a Meini prawf maint yn y sector rhentu cymdeithasol - cyfyngu ar daliadau Budd-dal Tai (ac, yn ddiweddarach, elfen costau tai'r Credyd Cynhwysol) i aelwydydd sy'n cynnwys oedolion o oedran gweithio⁴ ac sy'n tanfeddiannu eu cartref. Fel arfer, cyfeirir at y newid hwn yn nhermau diddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr⁵.
 - b Y cap ar fudd-dal aelwydydd - cyfyngu ar swm y budd-daliadau y gall aelwydydd di-waith o oedran gweithio eu hawlio.

1 Mae'r Bil Diwygio Lles yn cwmpasu'r DU i gyd, ond mae gan Ogledd Iwerddon y gallu i wneud penderfyniadau ariannol ar nawdd cymdeithasol, ac mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi cytuno ar ffordd wahanol o weithredu'r Ddeddf o gymharu â Chymru, Lloegr a'r Alban.

2 Yr Adran Gwaith a Phensiynau, **Housing Benefit Claimant Data, Single Housing Benefit Extract (SHBE)**, drwy Stat-Xplore, Chwefror 2014.

3 Caiff tai rhent cymdeithasol eu gosod am renti isel ar sail ddiogel i'r rhai sydd â'r angen mwyaf neu sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi â'u costau tai. Fel arfer, cynghorau a sefydliadau dielw (fel cymdeithasau tai) sy'n darparu tai rhent cymdeithasol.

4 Oedolion o oedran gweithio yw'r term a ddefnyddir i gyfeirio at gyfanswm y boblogaeth mewn rhanbarth, o fewn ystodau oedran penodol, yr ystyrir ei fod yn gallu gweithio ac yn debygol o weithio. Defnyddir y boblogaeth o oedran gweithio i roi amcangyfrif o gyfanswm y gweithwyr posibl o fewn economi.

5 Defnyddir nifer o dermau i ddisgrifio meini prawf maint y Budd-dal Tai ac mae'r rhain yn cynnwys: 'diddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr'; 'treth ystafell wely'; 'tâl tanfeddiannu'; 'cyfyngiadau maint'; a 'cyfyngiadau ar ystafelloedd gwely'. Yn ein hadroddiad, defnyddiwn yr ymadrodd 'cymhorthdal ystafell sbâr'.

- c Credyd Cynhwysol - cyflwyno un budd-dal integredig misol ar gyfer aelwydydd o oedran gweithio, sydd mewn gwaith ac sy'n ddi-waith, a delir yn uniongyrchol i hawlwyd.
 - ch Newidiadau a thoriadau i gymorth y Dreth Gyngor, gan ddatganoli pŵer i awdurdodau lleol gynllunio a gweinyddu'r budd-dal hwn.
- 5 Hefyd, rhoddwyd dau ddiwygiad lles arall ar waith yn ddiweddar. Mae swm y Budd-dal Tai i denantiaid y mae eu haelwyd yn cynnwys oedolion eraill heblaw am eu partner (pobl nad ydynt yn ddibynyddion) wedi cael ei leihau ymhellach; ac mae budd-daliadau i bobl sâl ac anabl wedi'u diwygio drwy gyflwyno Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, sy'n disodli'r Budd-dal Analluogrwydd.
- 6 Mae'r opsiynau sydd ar gael i denantiaid rhent cymdeithasol mewn ymateb i'r newidiadau hyn yn cynnwys:
- a dod o hyd i waith sy'n talu mwy na swm y budd-daliadau a dderbynnir;
 - b lleihau gwariant ar eitemau heblaw rhent pan fo hynny'n bosibl;
 - c gwneud cais am Daliad Tai yn ôl Disgresiwn - ond mae'r swm sydd ar gael yn lleol wedi'i gapio; neu
- ch symud i lety rhatach os oes llety o'r fath ar gael.
- 7 Mae 11 o'r 22 o gynghorau yng Nghymru yn landlordiaid tai cymdeithasol uniongyrchol o hyd, a chaiff gweddill y tai cymdeithasol eu darparu gan y 34 o gymdeithasau tai mwyaf. O ystyried y daw'r rhan fwyaf o incwm tai cynghorau a chymdeithasau tai o rent a bod cyfran helaeth o'r rhent hwnnw, yn ei dro, yn dibynnu ar Fudd-dal Tai, mae'r newidiadau hyn yn cael effaith sylweddol ar landlordiaid cymdeithasol, eu preswylwyr a'r rhai sy'n gwneud cais am dai cymdeithasol. Mae'n hanfodol i gynghorau ddelio ag effaith y Ddeddf Diwygio Lles er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol ac ymateb i anghenion a gofynion dinasyddion.
- 8 Paratowyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Nodir ein dulliau yn **Atodiad 1**. Roedd y rhain yn cynnwys arolwg ar-lein i alluogi aelodau o'r cyhoedd i ddweud wrthym am eu profiadau o'r diwygiadau lles, a gwaith maes archwilio mewn sampl o gynghorau a chymdeithasau tai yng Nghymru, a ategwyd gan arolygon, er mwyn asesu i ba raddau y maent yn mynd i'r afael ag effaith y diwygiadau lles.
- 9 Ar sail canfyddiadau'r archwiliad hwn, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad bod **y newidiadau i Fudd-dal Tai a gyflwynwyd gan y rhaglen diwygio lles yn cael effaith sylweddol ar gynghorau a chymdeithasau tai yng Nghymru a'u bod yn ei chael hi'n anodd cyflwyno atebion effeithiol a chynaliadwy i ymdrin â'r heriau sy'n eu hwynebu.**

Bydd y newidiadau a wneir i'r system Budd-dal Tai fel rhan o'r diwygiadau lles yn effeithio ar gyfran uwch o denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru nag yn Lloegr neu'r Alban ac mae rhai tenantiaid tai cymdeithasol yn wynebu mwy o dlodi, dyledion ac allgáu sy'n cyd-daro â'r newidiadau hyn

- 10 Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn amcangyfrif y caiff £1 biliwn ei arbed drwy ostyngiadau mewn Budd-dal Tai yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn 2013-14 a 2014-15. Mae data yn awgrymu y caiff tua £26 miliwn ei arbed ar Fudd-dal Tai yng Nghymru bob blwyddyn. Fodd bynnag, gan ei bod yn anodd rhagweld sut y bydd tenantiaid yn ymateb i'r newidiadau hyn, nid yw'n bosibl darogan lefel yr arbedion gwirioneddol yn gywir. Yn wir, dan rai amgylchiadau, gallai'r gwariant ar Fudd-dal Tai gynyddu.
- 11 Bydd y penderfyniad i ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr a chyflwyno'r cap ar fudd-daliadau yn cael effaith sylweddol ar denantiaid cymdeithasol yng Nghymru. Mae cyfran uwch o denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru (20.4 y cant) wedi profi gostyngiad yn eu Budd-dal Tai ar ôl i'r cymhorthdal ystafell sbâr gael ei ddiddymu o gymharu â'r Alban (19 y cant) a Lloegr (15.3 y cant).
- 12 Er nad yw'r broses o weinyddu budd-daliadau lles wedi'i datganoli, mae'r newidiadau yn effeithio ar lawer o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid er mwyn helpu i ymdrin â'r effaith. Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu na fydd yn ysgwyddo baich ariannol y newidiadau hyn yn uniongyrchol ac y bydd yn ceisio ymgorffori'r costau, ac mae'n cydnabod y bydd llawer o'r diwygiadau lles yn effeithio ar wasanaethau datganoledig a bod y newidiadau lles hyn yn debygol o gael effaith bellgyrhaeddol.
- 13 Wrth i gostau bwyd, cyfleustodau, a thanwydd gynyddu ac wrth i fudd-daliadau ostwng, mae llawer o denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru bellach yn wynebu mwy o her i gael deupen llinyn ynghyd. Canfuwyd bod dyledion ychydig dros 50 y cant o'r tenantiaid tai cymdeithasol a ymatebodd i'n harolwg wedi cynyddu ar ôl i'r cymhorthdal ystafell sbâr gael ei ddiddymu ac ar ôl i'r cap ar fudd-daliadau gael ei gyflwyno, ac mae lefelau tlodi yn cynyddu ymhlith tenantiaid tai cymdeithasol.
- 14 Canfuwyd bod y defnydd o fanciau bwyd yn cynyddu yng Nghymru ac mae materion yn ymwneud ag incwm a budd-daliadau yn cyfrif am 48 y cant o'r atgyfeiriadau am gymorth a wneir gan asiantaethau sy'n gweithio gyda thenantiaid tai cymdeithasol i'r 35 o fanciau bwyd yng Nghymru. Mae mynediad i'r rhyngrwyd yn broblem i lawer o denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru, wrth i 39 y cant o'r tenantiaid a arolygwyd ddweud nad oes ganddynt fynediad i gyfrifiadur. Mae hyn yn awgrymu bod llawer o denantiaid tai cymdeithasol yn ei chael hi'n anodd defnyddio gwasanaethau ar-lein pwysig, fel gwasanaethau cyfleustodau, budd-daliadau a chyngor.

- 15 Mae materion yn ymwneud â thai, budd-daliadau a dyledion yn cyfrif am gyfran sylweddol o geisiadau am gyngor arbenigol annibynnol. Yn 2013-14, deliodd staff Cyngor ar Bopeth Cymru â 47,133 o gleientiaid oedd â mwy na 141,500 o broblemau'n ymwneud â budd-daliadau lles, gan gynnwys Budd-daliadau Tai. Bu lleihad sylweddol yn nifer y gwasanaethau annibynnol sy'n rhoi cyngor ar dai yng Nghymru yn sgil lleihad yn y gyllideb i wasanaethau cynghori annibynnol yn 2013-14.

Mae cynlluniau a threfniadau cynghorau i helpu tenantiaid tai cymdeithasol i ymdopi ag effaith y diwygiadau lles yn anghyson

- 16 Mae gan bob cyngor gynlluniau i fynd i'r afael ag effaith y diwygiadau lles ond nid oes pob cyngor yn cymryd camau cynhwysfawr i liniaru'r effaith. Mae'r trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd sydd ar waith o fewn cynghorau er mwyn ymateb i'r diwygiadau lles yn amrywio'n fawr ac nid yw bob amser yn glir pa mor effeithiol fu'r trefniadau hynny wrth liniaru'r risgiau sylweddol sy'n wynebu cynghorau. Mae dulliau cynghorau o fonitro a gwerthuso eu cynlluniau yn anghyson iawn. Mae pob cyngor wedi nodi bod y diwygiadau lles yn risg sylweddol ond nid yw'r dulliau a ddefnyddir i liniaru'r risg hon bob amser yn gynhwysfawr.
- 17 Mae cynghorau yn cydweithio ag asiantaethau eraill i ddiwallu anghenion tenantiaid yn eu hardal, ond mae effeithiolrwydd gwaith partneriaeth ledled Cymru yn amrywio. Mae tystiolaeth o gydweithio da ond nid yw nifer o gynghorau yn gweithio'n effeithiol gyda chymdeithasau tai. Mae trefniadau hyfforddi a threfniadau i rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau ar waith ond amrywiol yw llwyddiant y gwaith hwn.
- 18 Mae cyfyngiadau o ran ansawdd a chwmpas y data a gesglir ar hyn o bryd er mwyn deall effaith y diwygiadau lles ar dai cymdeithasol. Ni chesglir rhai data allweddol i fesur effaith y diwygiadau lles. Nid yw'n ofynnol i gynghorau a chymdeithasau tai gasglu, gwerthuso nac adrodd ar nifer y tenantiaethau sy'n methu, achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a dangosyddion eraill sy'n dynodi siawnsiau bywyd is i blant sy'n byw mewn llety gorlawn.

Prin yw'r effaith a gaiff ymdrechion cynghorau a chymdeithasau tai i helpu tenantiaid i liniaru effaith y penderfyniad i ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr

- 19 Mae'r rhan fwyaf o landlordiaid tai cymdeithasol wedi cyfathrebu'n effeithiol â'u tenantiaid ynglŷn â'r newidiadau i'w budd-daliadau ac wedi datblygu proffiliau manwl er mwyn cynllunio sut y byddant yn darparu eu gwasanaethau. Fodd bynnag, o'r tenantiaid y gwnaethom eu harolygu, dywedodd cyfran fawr - 68 y cant - nad oeddent wedi cael unrhyw gymorth gan eu landlordiaid i fynd i'r afael ag effaith y diwygiadau lles, a dywedodd 47 y cant nad oeddent wedi cael cyngor gan neb.

- 20 Mae'r rhan fwyaf o landlordiaid tai cymdeithasol hefyd wedi diwygio eu cynllun dyrannu fel eu bod yn rhoi blaenoriaeth i drosglwyddo'r tenantiaid hynny sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr, ond mae rhai amrywiadau o ran safonau sy'n golygu bod pobl â'r un anghenion yn cael lefelau gwahanol o wasanaeth. Fodd bynnag, nid yw pob tenant sy'n atebol i dalu rhent uwch ar ôl colli'r cymhorthdal ystafell sbâr wedi cofrestru i symud cartref a dim ond 14 y cant o'r rhai sydd wedi colli'r cymhorthdal sydd wedi symud hyd yma. Mae'r meini prawf a ddefnyddir i osod cartrefi gwag yn newid, wrth i'r gallu i fforddio cartref ddod yr un mor bwysig â diwallu'r angen o ran tai. Mae hyn yn golygu bod gosod cartrefi gwag yn fwy cymhleth.
- 21 Darlun cymysg sydd gennym o'r graddau y mae cynghorau a chymdeithasau tai yn defnyddio'r sector rhentu preifat i ailgartrefu'r rhai sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr. Ystyrir bod y sector rhentu preifat yn cynnig deiliadaeth lai diogel na thai cymdeithasol ac felly nid yw'r rhan fwyaf o'r tenantiaid tai cymdeithasol sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr am gael eu hailgartrefu mewn eiddo rhentu preifat, ac ychydig ohonynt sydd wedi gwneud hynny hyd yma. Mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, mae cymdeithasau tai yn cystadlu â landlordiaid yn y sector rhentu preifat am denantiaid newydd.
- 22 Mae'r rhan fwyaf o gynghorau a chymdeithasau tai wedi ystyried cynlluniau lletya⁶ ond nid yw tenantiaid yn eu cefnogi a phrin fu'r defnydd a wnaed ohonynt. Mae mwy o alw am gartrefi llai o faint i ddiwallu anghenion tenantiaid sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr, ond prin fu'r cynnydd yn y cyflenwad o dai llai o faint. Ychydig o arian a fuddsoddir yn y gwaith o ddatblygu tai newydd a bydd yn cymryd amser i ddatblygu eiddo newydd.
- 23 Nid yw'r stoc tai cymdeithasol bresennol wedi newid fawr ddim, ac nid yw landlordiaid yn trosi eu heiddo i greu cartrefi llai o faint er mwyn ateb y galw cynyddol amdanynt ar ôl i'r cymhorthdal ystafell sbâr gael ei ddiddymu. Ni chofnodwyd bod unrhyw gartrefi wedi'u gwerthu, eu rhoi o'r neilltu neu'u dymchwel o ganlyniad i newidiadau i Fudd-dal Tai.
- 24 Darlun cymysg sydd gennym o'r ffordd y mae cynghorau a chymdeithasau tai yn helpu tenantiaid sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr i gael gwaith. Dim ond 48 y cant o gynghorau a chymdeithasau tai sy'n rhoi cyfle i'w tenantiaid ddilyn cynlluniau hyfforddi er mwyn cynyddu eu siawns o gael swyddi. Dim ond 40 y cant o gynghorau a chymdeithasau tai sydd wedi targedu cynlluniau prentisiaeth at eu tenantiaid di-waith. Dim ond 24 y cant o gynghorau a chymdeithasau tai sydd wedi annog a helpu eu tenantiaid i gymryd rhan mewn cynlluniau cyflogaeth rhanbarthol a chenedlaethol.

⁶ Mae cynlluniau lletya yn galluogi tenantiaid ag ystafelloedd sbâr i rentu'r ystafelloedd hynny i bobl sydd angen lle i aros ac yn galluogi'r tenantiaid i wneud iawn am y lleihad mewn budd-dal tai.

- 25 Cynyddodd Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn gan Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru £5.1 miliwn yn 2013-14 ond mae anghysondebau a gwendidau sylweddol i'w gweld yn y ffordd y caiff y taliadau hyn eu dyrannu, eu dosbarthu, eu gweinyddu a'u defnyddio. Nid yw'r Adran Gwaith a Phensiynau yn dosbarthu'r arian ar sail angen a chaiff y penderfyniadau hynny eu gwneud yn lleol, sy'n golygu bod amrywiaeth mawr rhwng cynghorau yng Nghymru. Nid yw'r rhan fwyaf o denantiaid yn y sector rhentu cymdeithasol sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr yn cael y taliadau disgresiwn hyn.

Dywed cynghorau a chymdeithasau tai fod yn rhaid iddynt wario mwy er mwyn delio â rhai o effeithiau'r diwygiadau lles a bydd newidiadau yn y dyfodol yn cynyddu'r risgiau a wynebant yn sylweddol

- 26 Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg sy'n awgrymu bod y diwygiadau lles yn cynyddu costau Llywodraeth Cymru, landlordiaid a thenantiaid tai cymdeithasol. Yn ôl landlordiaid tai cymdeithasol, mae'r broses o reoli cartrefi gwag a chasglu rhent wedi dod yn fwy cymhleth ac maent yn gorfod defnyddio mwy o adnoddau i wneud hynny. Mae tua 36 y cant o landlordiaid tai cymdeithasol wedi gweld cynnydd sylweddol yn eu costau am reoli ôl-ddyledion rhent; mae 38 y cant wedi gweld cynnydd bach mewn costau rheoli; a dywedodd 26 y cant nad ydynt wedi gweld unrhyw newid o gwbl.
- 27 Nid yw nifer yr unedau eiddo gwag wedi cynyddu'n sylweddol ond mae'r rhan fwyaf o landlordiaid yn dweud bod llai o alw am gartrefi mwy o faint. Cynyddodd ôl-ddyledion rhent tenantiaid tai cymdeithasol £5.3 miliwn a chynyddodd nifer y tenantiaid ag ôl-ddyledion 23.3 y cant rhwng mis Ebrill a mis Hydref 2013. Ni fu cynnydd yn nifer yr aelwydydd y derbyniwyd eu bod yn ddigartref⁷ ond dywed 50 y cant o gynghorau fod y galw am lety dros dro yn cynyddu a dywed 41 y cant fod rhai pobl ddigartref yn byw am gyfnodau hwy mewn llety dros dro tra'u bod yn aros i gael eu hailgartrefu.
- 28 Bydd y cynlluniau i gyflwyno Credyd Cynhwysol a thalu budd-daliadau'n uniongyrchol i denantiaid yn cynyddu'r risgiau y bydd yn rhaid i gynghorau a chymdeithasau tai eu trin. Mae pryder mawr ymhlith cynghorau a chymdeithasau tai y bydd effaith taliadau uniongyrchol yn creu mwy o ddyled ac yn cynyddu lefelau digartrefedd ymhlith y bobl sydd fwyaf agored i niwed.

⁷ Cyfeirir at aelwydydd y canfuir eu bod yn gymwys i gael cymorth, sy'n ddigartref yn anfwriadol ac sy'n perthyn i gnŵp â blaenoriaeth (fel y diffinnir mewn deddfwriaeth ar ddigartrefedd) yn 'aelwydydd y derbyniwyd eu bod yn ddigartref'. O ganlyniad, mae'n rhaid i awdurdodau tai lleol gyflawni prif ddyletswydd digartrefedd mewn perthynas â'r aelwydydd hyn.

Argymhellion

29 Yr argymhellion allweddol sy'n deillio o'r gwaith a wnaed gennym yw:

Argymhelliad	Partneriaid Cyfrifol
<p>A1 Gwella prosesau cynllunio strategol a chydgysylltu gweithgarwch yn well er mwyn mynd i'r afael ag effaith y diwygiadau lles ar denantiaid tai cymdeithasol drwy sicrhau bod cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith sy'n ymdrin â gwaith holl adrannau perthnasol cynghorau, cymdeithasau tai a gwaith rhanddeiliaid allanol.</p>	Cynghorau, cymdeithasau tai
<p>A2 Gwella trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd am ddiwygiadau lles drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • penodi aelodau a swyddogion arweiniol i gymryd cyfrifoldeb am ddarparu arweiniad strategol mewn perthynas â'r diwygiadau lles a bod yn atebol am berfformiad; a • sicrhau bod aelodau yn cael hyfforddiant digonol a briffiau rheolaidd ar y diwygiadau lles er mwyn gallu herio perfformiad a phenderfyniadau a chraffu arnynt. 	Cynghorau
<p>A3 Sicrhau bod perfformiad o ran y diwygiadau lles yn cael ei reoli'n effeithiol drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • pennu mesurau priodol i alluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i lunio barn ar gynnydd wrth gyflawni camau gweithredu; • sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn ymdrin â gwaith yr holl asiantaethau perthnasol ac yn enwedig y cymdeithasau tai; a • phennu mesurau i lunio barn ar effaith ehangach y diwygiadau lles. 	Cynghorau
<p>A4 Atgyfnerthu'r ffordd y caiff risgiau o ran y diwygiadau lles eu rheoli drwy greu un dull corfforaethol o weithredu sy'n cydgysylltu gweithgarwch ar draws y cyngor a gwaith gan eraill er mwyn rhoi digon o sicrwydd bod yr holl gamau angenrheidiol a phriodol i liniaru risg yn cael eu cymryd.</p>	Cynghorau
<p>A5 Ymgysylltu'n well â thenantiaid sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • darparu cyngor a gwybodaeth reolaidd am yr opsiynau sydd ar gael iddynt ymdrin ag effaith ariannol y newid yn eu hamgylchiadau; • hyrwyddo llinell gymorth 'Mae budd-daliadau yn newid'; a • chynorthwyo'r tenantiaid hynny sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr yn benodol i gymryd rhan mewn cynlluniau cyflogaeth rhanbarthol/cenedlaethol. 	Cynghorau, cymdeithasau tai, Cartrefi Cymunedol Cymru

Argymhelliad	Partneriaid Cyfrifol
<p>A6 Sefydlu cyfres o safonau gwasanaeth gofynnol ar gyfer gosodiadau a throsglwyddiadau er mwyn sicrhau bod tenantiaid sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr yn cael gwasanaeth o safon ofynnol gan eu landlord.</p>	Llywodraeth Cymru
<p>A7 Gwella'r ffordd y caiff Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn eu rheoli a'u defnyddio a gwella mynediad iddynt drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sefydlu polisi neu ganllaw clir i'r cyhoedd, sydd ar gael ar ffurf copi caled ac ar-lein, sy'n nodi polisi a threfniadau'r cyngor ar gyfer gweinyddu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn; • diffinio'n glir y costau tai cymwys ac anghymwys a gaiff eu cwmpasu gan Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn ffurflenni cais, dogfennau polisi a thafenni canllaw i ymgeiswyr; • nodi'n glir y cyfnodau hwyaf/byrraf posibl y caiff y taliadau hyn eu talu; • pennu a chyhoeddi'r amserlen y bydd yn rhaid i'r cyngor ei dilyn wrth benderfynu ar geisiadau am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn; • cynnwys gwybodaeth mewn deunyddiau cyhoeddus ar bolisi'r cyngor ar yr hawl i adolygu neu apelio yn erbyn penderfyniad a'r amserlenni a'r broses y dylid eu dilyn wrth benderfynu ar y rhain; a • diffinio'n glir y grwpiau â blaenoriaeth ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn deunyddiau cyhoeddus er mwyn sicrhau y gall y rheini sy'n ceisio cymorth, a'r asiantaethau sy'n eu cynorthwyo, asesu p'un a yw'r taliadau hyn yn opsiwn ymarferol i ddiwallu eu hanghenion ariannol a'u hanghenion o ran tai. 	Cynghorau

- 30 Dylai'r partneriaid cyfrifol a enwir uchod gydweithredu wrth benderfynu sut y byddant yn ymdrin â'r argymhellion hyn ar y cyd a sut y gellir cynnwys eraill; er enghraifft, Tenantiaid Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chartrefi Cymunedol Cymru.

Rhan 1

Bydd y newidiadau a wneir i'r system Budd-dal Tai fel rhan o'r diwygiadau lles yn effeithio ar gyfran uwch o denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru nag yn Lloegr neu'r Alban ac mae rhai tenantiaid tai cymdeithasol yn wynebu mwy o dlodi, dyledion ac allgáu sy'n cyd-daro â'r newidiadau hyn



- 1.1 Mae diwygiadau lles wedi bod yn nodwedd amlwg o doriadau gwariant diweddar yn y sector cyhoeddus. Mae pryderon Llywodraeth y DU am gostau cynyddol, ynghyd ag ymdrech i symleiddio'r system les ac annog y rhai sy'n derbyn budd-daliadau i weithio, wedi arwain at newidiadau mawr i drethi a budd-daliadau. Yn ôl Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU, cynyddodd gwariant ar fudd-daliadau a chredydau treth i bobl o oedran gweithio bron 50 y cant mewn termau real yn ystod y 10 mlynedd hyd at 2011-12, ac yn 2009-10 talwyd tua £90 biliwn o daliadau budd-dal i bobl o oedran gweithio a'u teuluoedd, sy'n debyg i'r swm a wariwyd ar addysg⁸ ym Mhrydain Fawr.
- 1.2 Mae un o'r prif newidiadau yn ymwneud â Budd-dal Tai. Dros y blynyddoedd diwethaf, bu cynnydd sylweddol yn y nifer sy'n hawlio Budd-dal Tai ym Mhrydain Fawr, wrth i nifer yr hawlwr gynyddu o 4.3 miliwn o aelwydydd ym mis Chwefror 2009 i ychydig dros 5 miliwn ym mis Chwefror 2014. Yn ystod y cyfnod hwn, cynyddodd nifer yr hawlwr 17.1 y cant yn Lloegr, 15.5 y cant yng Nghymru a 9.7 y cant yn yr Alban⁹.
- 1.3 O'r pum miliwn o hawlwr, mae dwy ran o dair (66.8 y cant ym mis Chwefror 2014) yn denantiaid tai cymdeithasol, hy, yn byw mewn llety a ddarperir gan y cyngor lleol neu gymdeithas dai. Mae'r traean o hawlwr sy'n weddill yn byw mewn llety rhent a ddarperir gan landlordiaid preifat. Mae nifer y tenantiaid rhent cymdeithasol sy'n hawlio Budd-dal Tai ym Mhrydain Fawr wedi cynyddu 5.9 y cant dros y pum mlynedd diwethaf o 3,155,980 ym mis Chwefror 2009 i 3,342,448 ym mis Chwefror 2014. Yn ystod y cyfnod hwn, cynyddodd nifer yr hawlwr 7.5 y cant yn Lloegr, 5.1 y cant yng Nghymru a 2.4 y cant yn yr Alban - **Arddangosyn 1**.

Arddangosyn 1 – Derbynwyr Budd-dal Tai mewn Tai Cymdeithasol ym Mhrydain Fawr: mis Chwefror 2009 i fis Chwefror 2014

Cynyddodd nifer y tenantiaid mewn tai rhent cymdeithasol sy'n hawlio Budd-dal Tai 5.9 y cant dros y pum mlynedd rhwng mis Chwefror 2009 a mis Chwefror 2014.

Landlord Cymdeithasol fesul Gwlad	Chwefror 2009	Chwefror 2010	Chwefror 2011	Chwefror 2012	Chwefror 2013	Chwefror 2014
Lloegr - Awdurdod Lleol	1,223,131	1,233,579	1,205,192	1,196,889	1,183,873	1,153,552
Lloegr - Cymdeithas Dai	1407857	1507081	1568516	1624583	1665162	1647171
Yr Alban - Awdurdod Lleol	201222	206788	207537	206396	205527	199546
Yr Alban - Cymdeithas Dai	167383	174715	177,323	179,219	179,806	177,803
Cymru - Awdurdod Lleol	89,065	79,846	71,584	65,254	64,741	63,452
Cymru - Cymdeithas Dai	67,323	81,751	92,411	101,027	101,914	100,924
Prydain Fawr - Pob un	3,155,981	3,283,760	3,322,563	3,373,368	3,401,023	3,342,448

Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau, **Housing Benefit Claimant Data, Single Housing Benefit Extract (SHBE)**, drwy Stat-Xplore, Chwefror 2009 i Chwefror 2014.

8 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2011) **Benefit Cap (Housing Benefit) Regulations 2012: Impact assessment for the benefit cap**, Gorffennaf 2012, Llundain: Yr Adran Gwaith a Phensiynau.

9 Yr Adran Gwaith a Phensiynau, **Housing Benefit Claimant Data, Single Housing Benefit Extract (SHBE)**, drwy Stat-Xplore, Chwefror 2014

- 1.4 O gofio bod mwy o hawlwr Budd-dal Tai yn dod o'r sector tai cymdeithasol, mae Llywodraeth y DU, drwy Ddeddf Diwygio Lles 2012, yn cyflwyno newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd er mwyn lleihau gwariant o ran tenantiaid tai cymdeithasol. Y ddau brif newid yw diddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr a chyflwyno'r cap ar fudd-daliadau:
- a Diddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr - O fis Ebrill 2013, bu gostyngiad canrannol sefydlog o 14 y cant ym Mudd-dal Tai tenantiaid tai cymdeithasol o oedran gweithio sydd ag un ystafell wely sbâr, a gostyngiad o 25 y cant os oes ganddynt ddwy neu fwy o ystafelloedd gwely sbâr. Mae asesiad effaith Llywodraeth y DU yn cyfrifo y bydd tenantiaid ag un ystafell wely yn fwy na'r nifer safonol yn wynebu lleihad o £12 yr wythnos ar gyfartaledd ac y bydd tenantiaid â dwy neu fwy o ystafelloedd gwely yn wynebu lleihad o £22 yr wythnos.
 - b Cap ar Fudd-daliadau - O haf 2013, mae cyfanswm y budd-daliadau y gall aelwyd ddi-waith o oedran gweithio ei hawlio wedi'i gapio. Mae'r cap yn cyfateb i enillion net canolrifol teulu sy'n gweithio ac i ddechrau, mae hynny'n gyfwerth â £500 yr wythnos i deuluoedd a chyplau a £350 yr wythnos i bobl sengl. Ni all teulu dderbyn mwy na £26,000 mewn budd-daliadau. Os bydd incwm budd-daliadau aelwyd yn uwch na'r cap, caiff yr elfen dai ei lleihau'n gyntaf. Mae hyn yn golygu, cyn i'r Credyd Cynhwysol gael ei gyflwyno, y bydd Budd-dal Tai yr aelwydydd dan sylw yn lleihau¹⁰.
- 1.5 Hefyd, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno pedwar diwygiad lles arall, sy'n debygol o gael effaith barhaol a phellgyrhaeddol ar denantiaid tai cymdeithasol. Y diwygiadau hyn yw:
- a Credyd Cynhwysol - un budd-dal integredig misol ar gyfer aelwydydd o oedran gweithio, rhai sy'n gweithio a rhai sy'n ddi-waith, a delir yn uniongyrchol i hawlwr. Bydd Credyd Cynhwysol yn disodli Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm; Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm; Cymhorthdal Incwm; Credyd Treth Gwaith; Credyd Treth Plant; a Budd-dal Tai. Mae Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno ar hyn o bryd, ac mae Llywodraeth y DU yn gobeithio y bydd y rhan fwyaf o hawlwr yn newid i Gredyd Cynhwysol yn ystod 2016 a 2017.
 - b Ers mis Ebrill 2013, newidiwyd a lleihawyd cymorth y Dreth Gyngor, sy'n cynnwys datganoli pŵer i awdurdodau lleol gynllunio a gweinyddu'r budd-dal hwn. Mae awdurdodau lleol wedi cael 90 y cant o'r arian a ddyrannwyd iddynt yn flaenorol am y budd-dal ac mae disgwyl iddynt ymdopi â'r toriad o 10 y cant drwy naill ai dorri cyllidebau neu fuddsoddi eu harian eu hunain er mwyn gwneud iawn am y toriad. Yng Nghymru, fodd bynnag, darparodd Llywodraeth Cymru £22 miliwn ychwanegol i awdurdodau lleol yn 2013-14 a 2014-15 er mwyn sicrhau y byddai'r bobl sy'n gymwys i gael cymorth y dreth gyngor yn parhau i gael yr holl gymorth y mae ganddynt hawl iddo.

¹⁰ Mae'r cap ar fudd-daliadau yn berthnasol i'r rhan fwyaf o fudd-daliadau a delir i'r rhai sy'n ddi-waith, fel Budd-dal Plant, Credyd Treth Plant, Budd-dal Tai, Cymhorthdal Incwm a Lwfans Ceisio Gwaith ond mae eithriadau, gan gynnwys pobl sy'n cael Lwfans Byw i'r Anabl, lwfans cynhalwyr a lwfans i weddwon rhyfel. Gweler <https://www.gov.uk/benefit-cap> am y rhestr iawn.

- c Mae'r swm y gall tenantiaid sy'n hawlio Budd-dal Tai ei gael wedi lleihau os oes unrhyw oedolion eraill (dros 18 oed) yn eu haelwyd, nad ydynt yn dibynnu arnynt yn ariannol. Plant sy'n oedolion, rhieni neu berthnasau eraill fyddai'r rhain fel arfer. Ni chaiff cyd-denantiaid, lletywyr na chynhalwyr eu hystyried yn aelodau nad ydynt yn ddibynyddion, oherwydd cânt eu trin fel aelwydydd ar wahân. Mae asesiad effaith yr Adran Gwaith a Phensiynau yn amcangyfrif bod 300,000 o aelwydydd ym Mhrydain Fawr yn derbyn llai o Fudd-dal Tai ar hyn o bryd oherwydd pobl nad ydynt yn ddibynyddion, y mae hanner ohonynt yn denantiaid tai cymdeithasol.
- d Mae budd-daliadau i bobl sâl ac anabl wedi'u diwygio drwy gyflwyno Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, sy'n disodli'r Budd-dal Analluogrwydd. Cyflwynwyd meini prawf asesu newydd, llymach ac mae'n bosibl y bydd y rheini nad ydynt yn eu bodloni yn gymwys i gael Lwfans Ceisio Gwaith yn lle hynny. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt fodloni'r meini prawf eu bod ar gael i weithio ac yn gwneud ymdrech i chwilio am waith. Mae person sengl dros 25 oed yn cael £72.40 yr wythnos o Lwfans Ceisio Gwaith, tra byddai wedi cael rhwng £76.45 a £104.10 o Fudd-dal Analluogrwydd, yn dibynnu ar hyd ei gyfnod hawlio. Mae hyn yn golygu bod incwm tenantiaid sy'n newid o Fudd-dal Analluogrwydd i Lwfans Ceisio Gwaith yn debygol o leihau.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn amcangyfrif y caiff £490 miliwn ei arbed ar Fudd-dal Tai ym Mhrydain Fawr yn 2013-14 drwy ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr ac y caiff £26 miliwn o'r arbedion hynny eu gwneud yng Nghymru, ond ni ellir darogan y gwir arbedion yn gywir

- 1.6 Cyhoeddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau ddau asesiad effaith ar ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr i hawlwr Budd-dal Tai o oedran gweithio sy'n byw yn y sector rhentu cymdeithasol, ym mis Chwefror 2011 a mis Mehefin 2012¹¹. Daw'r asesiadau effaith hyn i'r casgliad y bydd Budd-dal Tai tua 660,000 o aelwydydd â thenantiaid tai cymdeithasol yn lleihau o ganlyniad i'r newidiadau, gan arbed tua £490 miliwn yn 2013-14 a £525 miliwn arall yn 2014-15, sy'n creu cyfanswm o ychydig dros £1 biliwn dros y ddwy flwyddyn weithredu gyntaf¹².
- 1.7 Cyfrifwyd yr arbediad amcangyfrifedig hwn drwy luosi'r lleihad cosb amcangyfrifedig cyfartalog mewn Budd-dal Tai - £14 - â nifer amcangyfrifedig yr aelwydydd dan sylw yn ystod 2013-14. Fodd bynnag, dim ond cyfrifo'r arbedion ledled Prydain Fawr a wnaiff asesiad effaith yr Adran Gwaith a Phensiynau ac nid oes cyfrifiad fesul gwlad ar gael. Rydym wedi cymhwysu'r un fethodoleg i Gymru gan ddefnyddio data a gyhoeddwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ac amcangyfrifwn y gallai diddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr arbed £25.9 miliwn yng Nghymru yn 2013-14¹³.

11 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2011) Under occupation of social housing: Impact assessment, Chwefror 2011, Llundain: Yr Adran Gwaith a Phensiynau; a'r Adran Gwaith a Phensiynau (2012) **Housing Benefit: Under occupation of social housing: Impact assessment**, Diweddardwyd Mehefin 2012, Llundain: Yr Adran Gwaith a Phensiynau.

12 Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2012) **Housing Benefit: Under occupation of social housing: Impact assessment**, Diweddardwyd Mehefin 2012, Llundain: Yr Adran Gwaith a Phensiynau.

13 Cyfrifwyd hyn drwy gymryd nifer yr aelwydydd yng Nghymru yr oedd y meini prawf o ran maint tai cymdeithasol wedi effeithio arnynt ym mis Mai 2013 (35,714 o aelwydydd) wedi'i lluosu â 52 o wythnosau gan luosi'r ffigur hwnnw â'r lleihad wythnosol cyfartalog mewn Budd-dal Tai a nodir yn Asesiad Effaith yr Adran Gwaith a Phensiynau (£14).

- 1.8 Fodd bynnag, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cydnabod yn ei hasesiad effaith bod 'uncertainty about likely claimant and landlord responses to the introduction of the social sector size criteria [which] creates uncertainty about the benefit saving likely to be realised'¹⁴. Gallai'r arbedion fod yn llawer llai o bosibl nag a ragwelir yn Asesiadau Effaith yr Adran Gwaith a Phensiynau, sy'n golygu ei bod yn anodd darogan yn bendant effaith ariannol lawn y penderfyniad i ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr. Er enghraifft:
- a Drwy symud i lety o faint mwy addas, ni fydd tenantiaid yn tanfeddiannu llety mwyach, ac felly byddant yn osgoi effaith y penderfyniad i ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr. Fodd bynnag, mae nifer fawr o denantiaid yn debygol o barhau i hawlio Budd-dal Tai a bydd hyn yn lleihau'r arbediad tybiannol uchaf y gellid ei sicrhau.
 - b Hefyd, gallai rhai o ymatebion tenantiaid ychwanegu at gostau Budd-dal Tai aelwyd, gan leihau'r arbedion net neu hyd yn oed gynyddu cost gyffredinol Budd-dal Tai. Er enghraifft, byddai cynnydd net mewn Budd-dal Tai pe bai tenant yn symud i gartref o faint cywir ond sydd â rhent uwch, naill ai yn y sector rhentu preifat neu yn y sector rhentu cymdeithasol.
 - c Efallai y bydd rhai tenantiaid hefyd yn ychwanegu aelodau o'u teulu neu letywr at eu haelwyd (os yw eu tenantiaethau yn caniatáu hynny), er mwyn sicrhau nad ydynt yn tanfeddiannu mwyach ac felly byddent yn parhau i hawlio'r Budd-dal Tai llawn.
- 1.9 Er mwyn cyflawni'r arbedion disgwylidig, mae'n rhaid i'r tenantiaid sy'n colli'r cymhorthdal ystafell sbâr naill ai ddechrau gweithio, cynyddu eu hincwm drwy weithio mwy o oriau, neu gynyddu eu hincwm mewn ffyrdd eraill. Yn wir, gallai'r arbediad tybiannol gynyddu hyd yn oed pe bai nifer y tenantiaid ar fudd-dal llawn a/ neu fudd-daliadau rhannol yn lleihau am fod mwy ohonynt yn gweithio. Hefyd, os bydd tenant yn symud i lety llai o faint yn y Sector Rhentu Cymdeithasol a hawlydd Budd-dal Tai yn symud o eiddo rhent uwch yn y Sector Rhentu Preifat i'r tŷ rhent cymdeithasol sydd newydd ei wacáu, byddai hynny'n creu mwy o arbedion.

¹⁴ Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2012) **Housing Benefit: Under occupation of social housing: Impact assessment: Diweddarwyd Mehefin 2012**, Llundain: Yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Er nad yw'r broses o weinyddu budd-daliadau lles wedi'i datganoli, mae canlyniad y newidiadau yn effeithio ar lawer o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid er mwyn helpu i ymdrin â'r effaith

- 1.10 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd llawer o'r newidiadau lles yn effeithio ar wasanaethau datganoledig a bod effaith y newidiadau lles hyn yn debygol o fod yn bellgyrhaeddol. Gall y newidiadau effeithio ar iechyd, gofal cymdeithasol, tai, addysg a hyfforddiant, datblygiad economaidd, cymunedau a chyfiawnder cymdeithasol, a llywodraeth leol, sydd oll yn feysydd y mae Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol gyfrifol amdanynt.
- 1.11 O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid, fel awdurdodau lleol, elusennau a Llywodraeth y DU, er mwyn helpu i ddeall effaith a goblygiadau Deddf Diwygio Lles 2012 ar gyfer pobl sy'n byw yng Nghymru. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar Ddiwygio Lles a chomisiynwyd rhaglen o waith ymchwil i asesu effaith y diwygiadau lles yng Nghymru. Cyhoeddodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen sawl adroddiad rhwng mis Chwefror 2012 a mis Tachwedd 2014, gan gynnwys y canlynol:
- a Cam 1 - dadansoddiad o'r dystiolaeth a oedd eisoes ar gael o effaith gronol y newidiadau i drethi a budd-daliadau ar unigolion ac aelwydydd yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2012.
 - b Cam 2 - asesiad o effeithiau'r prif ddiwygiadau lles ar incwm aelwydydd yng Nghymru, sy'n rhoi adolygiad manylach o effeithiau economaidd a chymdeithasol ehangach y diwygiadau lles a'u goblygiadau posibl i wasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Hefyd, comisiynwyd y Sefydliad Astudiaethau Ariannol i ddadansoddi effeithiau'r diwygiadau lles ar incwm a'r cyflenwad llafur yng Nghymru. Cyhoeddwyd y ddau adroddiad hyn ym mis Chwefror 2013.
 - c Cam 3 - asesiad o effeithiau'r diwygiadau lles ar y rhai â nodweddion gwarchoddedig (ee, rhyw, oedran, pobl anabl a hil) a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2014. Aseswyd effeithiau'r diwygiadau mewn ardaloedd awdurdodau lleol hefyd a chyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym mis Chwefror 2014.
 - ch Gwaith ymchwil pellach a gomisiynwyd - mae'r gwaith ymchwil cynharach a wnaed gan y Sefydliad Astudiaethau Ariannol i asesu effaith y diwygiadau lles ar incymau yng Nghymru wedi cael ei ddiweddarau a'i ymestyn i gynnwys newidiadau i drethi yn ogystal â budd-daliadau. Cyhoeddwyd y gwaith ymchwil hwn ym mis Gorffennaf 2014. Cyhoeddwyd ymchwil ar effaith sancsiynau budd-daliadau ym mis Tachwedd 2014 hefyd.

- 1.12 Yn ogystal, am fod y diwygiadau lles yn effeithio'n uniongyrchol ar wasanaethau datganoledig, yn enwedig y rhai a ddarperir gan awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a'r sector gwirfoddol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyllidebu ar gyfer rhywfaint o wariant ychwanegol i ymdrin â'r effaith ar wasanaethau tai. Mae hyn yn cynnwys:
- a £40 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf rhwng 2012-13 a 2015-16 er mwyn datblygu tai rhent cymdeithasol llai o faint;
 - b £1.3 miliwn o arian ychwanegol ar gyfer taliadau tai yn ôl disgresiwn yn 2013-14;
 - c £22 miliwn o arian ychwanegol rhwng 2013-14 a 2016-17 ar gyfer cymorth y dreth gyngor; a rhagor o arian i wasanaethau cynghori a chymorth;
 - ch £1.5 miliwn o dan Raglen y Grant Digartrefedd yn ystod 2011-12 a 2012-13 er mwyn helpu tenantiaid a landlordiaid i ymdopi â'r diwygiadau drwy hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r newidiadau; a
 - d £0.25 miliwn ar gyfer rhaglen ymchwil ac ymgyrch ymwybyddiaeth genedlaethol yn 2012-13 a 2013-14 er mwyn deall effaith y diwygiadau lles yn well a theilwra cymorth i bobl mewn angen.
- 1.13 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ar effaith y diwygiadau lles ac mae'n parhau i adolygu'r newidiadau yng Nghymru a diwygio polisiau er mwyn ystyried eu heffaith.

Ers 1 Ebrill 2013, mae cyfran uwch o denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru wedi profi gostyngiad yn eu Budd-dal Tai ar ôl i'r cymhorthdal ystafell sbâr gael ei ddiddymu o gymharu â'r Alban neu Lloegr

- 1.14 Mae cyfran uwch o denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru yn hawlio Budd-dal Tai nag yn Lloegr neu'r Alban - 73.7 y cant yng Nghymru o gymharu â 69.7 y cant yn Lloegr a 63 y cant yn yr Alban. O'r rhai sy'n hawlio Budd-dal Tai, mae'r penderfyniad i ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr yn effeithio ar gyfran uwch ohonynt yng Nghymru nag yn Lloegr neu'r Alban - 20.4 y cant o gymharu â 19 y cant yn yr Alban a 15.3 y cant yn Lloegr. O ganlyniad, mae effaith y penderfyniad i ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr yn llawer mwy yng Nghymru o gymharu â gweddill Prydain Fawr - [Arddangosyn 2](#).

Arddangosyn 2 – Cymharu effaith y penderfyniad i ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr yng Nghymru, Lloegr a'r Alban

Mae'r penderfyniad i ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr yn effeithio ar fwy o denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru ar gyfartaledd nag yn Lloegr neu'r Alban



Cymru



Yr Alban






Lloegr




Nifer o unedau tai cymdeithasol



Canran y tenantiaid tai cymdeithasol sy'n hawlio budd-dal tai



Canran y tenantiaid tai cymdeithasol sy'n hawlio budd-dal tai ac y mae'r cap ar fudd-daliadau a/neu'r penderfyniad i ddileu'r cymhorthdal ystafell sbâr yn effeithio arnynt



Gostyngiad mewn budd-dal tai yn sgil diddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr.

£26 miliwn

£42.1 miliwn

£323 miliwn

Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Housing Benefit Claimant Data, Single Housing Benefit Extract (SHBE), drwy Stat-Xplore, Mai 2013; Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, Dwelling Stock Estimates: 2013, England; Llywodraeth yr Alban, Housing Statistics for Scotland – Key Information and Summary Tables, Mai 2014; and StatsCymru, HOUS0601: Stoc a rhenti anheddau am renti cymdeithasol, Awst 2013.

Mae mwy o dlodi ymhlith rhai tenantiaid tai cymdeithasol, sy'n cyd-daro â newidiadau i'w Budd-daliadau Tai

- 1.15 Wrth i gostau bwyd, cyfleustodau, a thanwydd gynyddu ac wrth i fudd-daliadau ostwng, mae llawer o denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru bellach yn wynebu mwy o her i gael deupen llinyn ynghyd. Mae dyledion ychydig dros hanner o denantiaid tai cymdeithasol wedi cynyddu ar ôl i'r cymhorthdal ystafell sbâr gael ei ddiddymu ac ar ôl i'r cap ar fudd-daliadau gael ei gyflwyno. Mae mwy yn defnyddio banciau bwyd ac mae materion yn ymwneud â budd-daliadau yn cyfrif am bron hanner o'r holl geisiadau am gymorth a wneir gan asiantaethau sy'n gweithio gyda phobl ar incymau isel. Mae nifer fawr o denantiaid tai cymdeithasol wedi'u hallgáu'n ddigidol o hyd ac yn wynebu anawsterau defnyddio gwasanaethau ar-lein, sy'n peri pryder mawr o gofio bod Credyd Cynhwysol ar fin cael ei gyflwyno.
- 1.16 Mae llawer o ddarparwyr tai cymdeithasol hefyd yn pryderu am sut i roi cyngor ariannol i breswylwyr a fydd yn eu galluogi i reoli eu cyfrifoldebau newydd a diogelu eu taliadau rhent a chostau pwysig eraill. Fodd bynnag, yn sgil y gostyngiad sylweddol yn nifer y gwasanaethau cynghori arbenigol yng Nghymru, mae llawer o denantiaid tai cymdeithasol yn cael trafferth ymdopi.
- 1.17 Yn y rhan hon o'r adroddiad, ystyriwn effaith y newidiadau i fudd-daliadau lles ar denantiaid a'r canlyniadau i gynghorau a chymdeithasau tai. Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar ein harolwg o denantiaid, gwaith maes gyda chynghorau, cymdeithasau tai ac asiantaethau arbenigol a dadansoddiad o waith ymchwil cenedlaethol (y DU) diweddar.

Canfu ein hymchwil fod dyled bersonol tenantiaid tai cymdeithasol sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr wedi cynyddu 51 y cant


- 1.18 Yn achos aelwydydd incwm isel mewn tai cymdeithasol, mae llawer o heriau i'w goresgyn er mwyn cadw deupen llinyn ynghyd. Mae'n rhaid i denantiaid reoli incwm cyfyngedig, sy'n lleihau a chydbwysio galwadau croes am eu harian. Mae'n rhaid bod ganddynt sgiliau rheoli arian da er mwyn parhau i gynnal eu hunain a'u teuluoedd a pheidio â mynd i ddyled.
- 1.19 Mae ymchwil genedlaethol yn dangos bod cynnydd mewn costau yn effeithio llawer mwy ar aelwydydd incwm isel nag aelwydydd eraill. Er enghraifft, canfu ymchwil gan Kellogg's¹⁵ yn y DU i bris bwyd a diodydd dialcohol gynyddu 28.2 y cant rhwng mis Rhagfyr 2007 a mis Rhagfyr 2012 er mai dim ond cynnydd o 17.7 y cant a welwyd yn y mynegai prisiau defnyddwyr. Roedd y 10 y cant o'r aelwydydd tlotaf yn gwario bron chwarter eu hincwm (23.8 y cant) ar fwyd a diodydd dialcohol yn 2012 o gymharu â gwariant blynyddol o tua 4.2 y cant gan y 10 y cant o'r aelwydydd mwyaf cyfoethog.

15 Kellogg's, *Hard to Swallow: The Facts about Food Poverty*, Mawrth 2013.

- 1.20 Yn yr un modd, mae bron chwarter yr aelwydydd yng Nghymru yn wynebu tloidi tanwydd¹⁶, sy'n golygu bod yn rhaid i 320,000 o aelwydydd wario 10 y cant neu fwy o'u hincwm ar ynni i wresogi eu cartrefi'n ddigonol¹⁷. Yng Nghymru, mae deiliaid tai yn talu pump y cant yn fwy am eu trydan na gweddill y DU ac mae 50,457 o aelwydydd mewn dyled i gyflenwyr trydan a 46,588 mewn dyled i gyflenwyr nwy¹⁸. Gall y tloidi tanwydd hwn beri iddynt orfod dewis rhwng gwresogi a phweru eu cartrefi neu fwyta'n iawn. Mae'r perygl o dloidi tanwydd yn cynyddu'n sylweddol wrth i incwm aelwyd ostwng, a gwelwn mai ychydig iawn o aelwydydd ag incymau uwch na'r cyfartaledd sy'n byw mewn tloidi tanwydd.
- 1.21 Drwy ein hymchwil, gwnaethom ganfod fod gan lawer o denantiaid lefelau uwch o ddyled oherwydd y cynnydd hwn mewn costau a'r gostyngiadau mewn incwm. O'n harolwg o denantiaid, canfuwyd bod Budd-daliadau Tai tenantiaid yng Nghymru sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr wedi lleihau £15.02 yr wythnos ar gyfartaledd. Mae hyn yn cyfateb i leihad o £781.04 y flwyddyn, sy'n swm sylweddol o arian i deulu ar incwm isel. Mae'r lleihad hwn mewn budd-daliadau wedi arwain at gynnydd yn nifer y tenantiaid sydd mewn dyled. Canfu ein harolwg o denantiaid fod dros hanner y rhai a gafodd eu cyfweld - 51 y cant - yn dweud bod eu dyled bersonol wedi cynyddu o ganlyniad i'r diwygiadau lles - gweler [Arddangosyn 3](#).

Arddangosyn 3 – Cyfran y tenantiaid a arolygwyd sydd wedi gweld cynnydd yn eu dyledion ers i'r cymhorthdal ystafell sbâr gael ei ddiddymu ac ers i'r cap ar fudd-daliadau gael ei gyflwyno

Mae dyled bersonol ychydig dros hanner y tenantiaid wedi cynyddu ers mis Ebrill 2013 ar ôl i'r cymhorthdal ystafell sbâr gael ei ddiddymu ac ar ôl i'r cap ar fudd-daliadau gael ei gyflwyno



Ffynhonnell: Arolwg o Denantiaid gan Swyddfa Archwilio Cymru, mis Ionawr i fis Mawrth 2014.

¹⁶ Dywedir bod aelwyd yn byw mewn tloidi tanwydd os na all ei haelodau fforddio i gadw yn ddigon cynnes am gost resymol, o ystyried eu hincwm.

¹⁷ Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae aelwyd mewn tloidi tanwydd os yw'n gwario 10 y cant neu fwy o'i hincwm ar gostau ynni, gan gynnwys Budd-dal Tai, Cymhorthdal Incwm neu fudd-daliadau Llog Morgais neu'r Dreth Gyngor. Mae aelwyd mewn tloidi tanwydd difrifol os oes yn rhaid iddi wario 20 y cant neu fwy. **Gweler Tloidi tanwydd Llywodraeth Cymru.**

¹⁸ **Siarter Tloidi Tanwydd Cymru 2012**

- 1.22 O'n gwaith maes, gwnaethom ganfod hefyd fod tenantiaid yn defnyddio mwy o fenthyciadau 'diwrnod cyflog' neu fenthyciadau llenwi bwlch i gadw deupen llinyn ynghyd. Benthyciadau byrdymor bach, llai na £500 fel arfer, yw benthyciadau diwrnod cyflog a'r bwriad yw y byddant yn helpu pobl tan y tro nesaf y byddant yn cael eu talu neu'n cael budd-daliadau, pan ddylai'r benthyciad gael ei ad-dalu'n llawn. Er bod y benthyciadau hyn yn opsiwn cyfleus i deuluoedd sydd angen arian mewn argyfwng, gallent hefyd beri i bobl fynd i ragor o ddyled am fod y telerau ad-dalu a'r gyfradd ganrannol flynyddol yn aml yn uchel iawn. Yn wir, dywedodd un cyngor fod un unigolyn mewn dyled o fwy na £70,000 i gredydwyr oherwydd cyfraddau llog uchel ar fenthyciadau byrdymor.
- 1.23 Gwelsom nad oes gan lawer o bobl y wybodaeth na'r sgiliau i feddwl am eu sefyllfa ariannol a'i chynllunio yn y tymor hwy. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos cryn nifer o denantiaid tai cymdeithasol lle y gall canlyniadau tloidi, dyled a phroblemau sy'n gysylltiedig â thai fod yn sylweddol a hirsefydlog. Gall rhai ohonynt golli'r egni sydd ei angen i gydbwyso galwadau ar eu hincwm yn barhaus ac mae'n gyffredin i unrhyw gynnydd a wnânt i leihau eu dyledion ddod i ben neu gael ei ddadwneud. Er mwyn lleihau dyled yn llwyddiannus, yn aml mae angen cymorth gwasanaethau cynghori a chwmsela proffesiynol.

Caiff y cynnydd yn y nifer sy'n defnyddio banciau bwyd yng Nghymru ei achosi'n bennaf gan oedi cyn talu budd-daliadau, incwm isel a newidiadau i gymhwysedd pobl i gael budd-daliadau

- 1.24 Ar hyn o bryd, mae Ymddiriedolaeth Trussell yng Nghymru yn trefnu 35 o fanciau bwyd gan oruchwylio 80 o ganolfannau dosbarthu. Mae banciau bwyd yn rhoi parseli bwyd i geiswyr sy'n cynnwys gwerth tridiau o leiaf o fwydydd nad ydynt yn ddarfodus fel ffrwythau, llysiau, pysgod a chig tun, yn ogystal â phasta, grawnfwydydd, llaeth UHT, sawsiau, te a sudd oes hir. Gall cleientiaid banciau bwyd gael hyd at dair taleb banc bwyd yn olynol. Gall gweithwyr gofal rheng flaen proffesiynol, fel ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymdeithasol, swyddogion cymorth tai a meddygon teulu, roi talebau.
- 1.25 Mae nifer y bobl sy'n defnyddio banciau bwyd wedi cynyddu'n sylweddol yn y DU dros y degawd diwethaf gan gynyddu o 2,814 o achosion unigol yn 2005-06 i 913,318 yn 2013-14. Rhwng 2012-13 a 2013-14, bu cynnydd o 263 y cant yn nifer y bobl sy'n defnyddio banciau bwyd¹⁹. Gwelwyd cynnydd tebyg yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf, wrth i nifer yr unigolion sy'n gwneud cais am gymorth gan fanciau bwyd yng Nghymru gynyddu bron bum gwaith dros y ddwy flynedd diwethaf, o 16,413 yn 2011-12 i 79,958 yn 2013-14.
- 1.26 Dengys gwaith dadansoddi gan Ymddiriedolaeth Trussell mai'r prif resymau a roddwyd gan bobl dros ddefnyddio banciau bwyd yn 2013-14 yw budd-daliadau lles, incwm isel a dyledion. Er enghraifft, yn 2013-14, roedd oedi o ran budd-daliadau lles yn cyfrif am 29.7 y cant o'r ceisiadau am dalebau banciau bwyd; roedd y ffaith bod y teulu ar incwm isel yn cyfrif am 21.5 y cant; roedd newidiadau i fudd-daliadau yn cyfrif am 17.3 y cant; roedd dyled aelwydydd a dyled bersonol yn cyfrif am 9.5 y cant; roedd diweithdra ymhlith ceiswyr yn cyfrif am 3.3 y cant; roedd digartrefedd yn cyfrif am 3.3 y cant; ac roedd rhesymau eraill yn cyfrif am 9.2 y cant.

¹⁹ Ymddiriedolaeth Trussell, Datganiad i'r Wasg: Latest food bank figures top 900,000, mis Ebrill 2014.

1.27 O'n gwaith maes, gwelsom fod atgyfeiriadau i fanciau bwyd gan gynghorau a chymdeithasau tai yn dod yn fwyfwy pwysig fel ffynhonnell o gymorth i denantiaid tai cymdeithasol. Hefyd, gwelsom fod nifer y cynghorau sydd wedi'u hachredu i ddarparu talebau banciau bwyd yn cynyddu a bod pob cyngor naill ai'n gweithio i godi proffil banciau bwyd lleol ymhlith tenantiaid a thrigolion yn eu hardal neu'n bwriadu gwneud hynny. Yn yr un modd, mae'r rhan fwyaf o gymdeithasau tai yn mynd ati i hyrwyddo banciau bwyd a dim ond cyfran fach o'r cymdeithasau tai a arolygwyd (tri y cant) a ddywedodd nad ydynt yn bwriadu argymhell banciau bwyd i'w tenantiaid.

Mae llawer o denantiaid wedi'u hallgáu'n ddigidol ac ni allant ddefnyddio gwasanaethau ar-lein pwysig

- 1.28 Mae'r rhyngwrwyd yn trawsnewid y ffordd y mae pobl yn cysylltu â'i gilydd ac yn cael gafael ar wybodaeth a chymorth. Mae'n agor drysau, yn creu cyfleoedd, ac yn galluogi pobl i ymgeisio am swyddi a dysgu sgiliau newydd. Mae'r rheini na allant ddefnyddio technoleg dan anfantais ar sawl lefel. Ni allant fanteisio ar brisiau rhatach wrth siopa, defnyddio gwasanaethau bancio ar-lein sydd â chyfraddau gwell a llai o ffioedd, defnyddio gwasanaethau ar-lein i dalu'r dreth cyngor nac adnewyddu eu treth car. Mae Chwarae Teg²⁰ yn amcangyfrif bod aelwydydd all-lein yn colli allan ar £560 o arbedion y flwyddyn am nad ydynt yn siopa ac yn talu biliau ar-lein²¹. Heb fynediad i'r rhyngwrwyd, mae'n anos chwilio am waith neu ddiweddarau neu feithrin sgiliau gan fod yn rhaid llenwi ffurflenni ar-lein a gwneud ceisiadau drwy e-bost am lawer o swyddi a chyrtsiau hyfforddi.
- 1.29 Amcangyfrifir hefyd fod bron hanner yr 8.7 miliwn o oedolion nad ydynt byth wedi mynd ar-lein yn y Deyrnas Unedig yn byw mewn tai cymdeithasol, ac mae'r ffaith eu bod wedi'u hallgáu'n ddigidol yn gwneud bywyd yn llawer anos i'r tenantiaid hyn ac yn golygu bod eu sefyllfa ariannol hyd yn oed yn fwy bregus²². Wrth i lywodraeth y DU gynnig y dylid gwneud diwygiadau sylfaenol i'r ffordd y darperir gwasanaethau a gwneud mwy o ddefnydd o sianel ar-lein gan greu gwasanaeth digidol diofyn, mae perygl gwirioneddol y bydd llawer o denantiaid tai cymdeithasol sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol yng Nghymru dan anfantais.
- 1.30 Canfu ein gwaith maes fod mynediad i'r rhyngwrwyd ymhlith llawer o denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru yn wan, wrth i 39 y cant o'r tenantiaid a arolygwyd ddweud nad oes ganddynt fynediad i gyfrifiadur. Ategir hyn gan ein harolwg o landlordiaid, a ganfu nad oes gan dros 16,126 o denantiaid yng Nghymru fynediad i gyfrifiadur ac nad oes gan 17,474 ohonynt fynediad i'r rhyngwrwyd. Mae hyn yn peri risg fawr i landlordiaid a thenantiaid, yn enwedig o gofio'r newidiadau pellach a gynigir fel rhan o'r Credyd Cynhwysol. Yn wir, dangosodd ein gwaith gyda chynghorau fod llawer ohonynt yn credu y bydd y Credyd Cynhwysol a'r angen cynyddol i hawlwr ddefnyddio systemau ar-lein yn peri her fawr a bod y newidiadau cyson i'r polisi ei hun a'r cynlluniau i'w gyflwyno yn amharu ar hyn o bryd ar y ffordd y maent yn bwriadu delio ag effaith y newidiadau.

20 Elusen sy'n gweithio yng Nghymru Wales i gefnogi datblygiad economaidd ymhlith merched ac yn gweithio gyda busnesau a sefydliadau i ddatblygu a gwella arferion gwaith.

21 Chwarae Teg, Cynhwysiant Digidol: Fframwaith Strategol i Gymru: Ymateb Chwarae Teg i'r Ymgynghoriad, mis Medi 2010.

22 Digital by Default 2012, Housing Technology, Tachwedd 2011.

Mae Budd-dal Tai a dyledion personol yn cyfrif am gyfran sylweddol o geisiadau am gyngor ond bu gostyngiad sylweddol yn nifer y gwasanaethau cynghori ar dai annibynnol sydd ar gael yng Nghymru

- 1.31 Mae cyngor ar dai yn cyfeirio at gyngor a gwybodaeth am hawliau cyfreithiol mewn perthynas â thai ac mae'n ymdrin â dau brif faes yn fras: mynediad i lety, a defnydd unigolyn o'i gartref presennol a'i hawliau mewn perthynas â'r cartref hwnnw. Mae'r rhain yn cynnwys amrywiaeth eang o faterion, gan gynnwys ceisiadau ac apeliadau digartrefedd, ôl-ddyledion rhent, atgyweiriadau a gwelliannau, a Budd-dal Tai.
- 1.32 Gall cyngor da leddfu llawer o effeithiau personol a negyddol problemau sy'n gysylltiedig â thai. Gall cyngor amserol, penodol a phersonol helpu cleientiaid sydd â phroblemau tai i gadw eu cartrefi, datrys anghydfodau a gwella cyflwr eiddo. Felly, mae cyngor effeithiol, o ansawdd da ar dai yn hanfodol er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn gwneud y dewisiadau a'r penderfyniadau cywir ar yr amser cywir ynglŷn â'r problemau tai sy'n eu hwynebu.
- 1.33 Yng Nghymru, mae darparwyr gwirfoddol, preifat a statudol yn darparu cyngor ar dai drwy amrywiaeth o sianeli. Caiff y gwasanaethau hyn eu cefnogi gan glytwaith o ffrydiau ariannu ond daw llawer o'r arian o Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru neu lywodraeth leol. Er enghraifft, mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, sy'n ariannu llawer o gyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol drwy gymorth cyfreithiol, yn comisiynu darpariaeth wyneb yn wyneb leol a'r gwasanaeth ffôn cenedlaethol Cyngor Cyfreithiol Cymunedol. Yn yr un modd, mae llawer o gynghorau yn ariannu gwasanaethau cynghori sy'n eu helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau mewn perthynas â digartrefedd ac yn sicrhau y gall preswylwyr gael cymorth a gwybodaeth briodol.
- 1.34 Yn draddodiadol, mae'r gwasanaethau hyn wedi cael llawer o atgyfeiriadau am faterion sy'n ymwneud â budd-daliadau lles. Yn 2012-13, gwelodd y Canolfannau Cyngor ar Bopeth yng Nghymru gynnydd o 30 y cant yn nifer y problemau yn gysylltiedig â budd-daliadau/credydau treth a dyma fu'r rheswm pennaf dros atgyfeirio cleientiaid drwy gydol 2013-14 hefyd. Mae problemau sy'n gysylltiedig â budd-daliadau a chredydau treth bellach yn cyfrif am 42 y cant o'r ymholiadau a gaiff Canolfannau Cyngor ar Bopeth ledled Cymru ac yn 2013-14, defnyddiwyd y gwasanaethau hyn gan tua 47,133 o gleientiaid â thros 141,500 o broblemau'n ymwneud â budd-daliadau. Ar hyn o bryd, ymholiadau am Fudd-dal Tai yw'r trydydd mater mwyaf cyffredin am holl waith achos y Canolfannau Cyngor ar Bopeth²³.

²³ Cyngor ar Bopeth Cymru, **Un dydd ar y tro - Archwilio effaith gronrol diwygio lles ar hawlwyr budd-daliadau yng Nghymru**, Gorffennaf 2013-14.


- 1.35 Yn sgil y diwygiadau lles, mae tenantiaid bellach yn wynebu heriau newydd, gan gynnwys sicrhau eu bod yn cael y budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt; cael cymorth i gyllidebu a chynllunio eu gwariant yn effeithiol; a chanfod opsiynau tymor canolig i dymor hwy i ymdopi â'r diffyg mewn rhent er mwyn gwneud eu llety yn fwy fforddiadwy. Felly, mae'n hollbwysig y gall tenantiaid gael cyngor arbenigol annibynnol er mwyn sicrhau nad ydynt yn mynd yn ddigartref neu'n mynd i ddyled fawr. Mae cyngor annibynnol o ansawdd da hefyd yn bwysig iawn i gynghorau a chymdeithasau tai. Gwnaethom ganfod bod pob cyngor yn cydnabod pwysigrwydd cyngor annibynnol o ansawdd da, yn enwedig ar adeg pan fo'r galw am help a chymorth ymhlith tenantiaid tai cymdeithasol yn cynyddu ac yn fwy cymhleth ac anodd i'w ateb.
- 1.36 Canfu ein harolwg o gynghorau a chymdeithasau tai fod 79 y cant o ymatebwyr naill ai wedi atgyfnerthu neu'n bwriadu atgyfnerthu trefniadau atgyfeirio gydag asiantaethau cynghori annibynnol er mwyn helpu i gynyddu incwm pobl i'r eithaf. Hefyd, mae 92 y cant o gynghorau a chymdeithasau tai naill ai wedi atgyfnerthu neu'n bwriadu atgyfnerthu trefniadau atgyfeirio gydag asiantaethau cynghori annibynnol er mwyn rheoli cyngor ar ddyledion a budd-daliadau. Yr asiantaethau a gafodd eu crybwyll fwyaf ymhlith y rhai y mae cynghorau a chymdeithasau tai yn bwriadu gweithio gyda hwy yw Cyngor ar Bopeth Cymru; Shelter Cymru; gwasanaethau cyngor ariannol; a gwasanaethau cynghori ar dai annibynnol, lleol.
- 1.37 Fodd bynnag, tra bod y galw am gyngor arbenigol annibynnol yn cynyddu, canfuwyd bod gwasanaethau cynghori yng Nghymru wedi wynebu toriadau ariannol sylweddol ers mis Ebrill 2013 gyda chyllidebau'n gostwng £4.1 miliwn rhwng 2013-14 a 2014-15 - gweler [Arddangosyn 4](#).
- 1.38 Caiff y lleihad mewn arian grant i wasanaethau cynghori ei liniaru'n rhannol gan benderfyniad diweddar Llywodraeth Cymru i ddyrannu tua £2 filiwn yn 2014-15 o dan y Grant ar gyfer Gwasanaethau²⁴ Cynghori Rheng Flaen. Defnyddir yr arian i dalu am wasanaethau ar gyfer gweddill 2014-15 sy'n canolbwyntio ar ddarparu cyngor a chymorth i bobl sy'n ei chael hi'n anodd rheoli effaith y newidiadau i'w budd-daliadau. Mae parhad yr arian hwn yn dibynnu ar benderfyniadau cyllidebol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.
- 1.39 Er hynny, mae'r lleihad cyffredinol mewn arian grant yn cyfyngu ar y math o gyngor sydd ar gael i bobl ag anghenion o ran tai ac yn enwedig i denantiaid sy'n gorfod ymdopi â newidiadau mawr i'w Budd-dal Tai, ac mae hefyd yn cyfyngu ar gwmpas y cyngor hwnnw a mynediad pobl ato. O'n gwaith maes, gwelsom ymhlith cynghorau, cymdeithasau tai ac asiantaethau cynghori ar dai yn y sector gwirfoddol y bydd digartrefedd, cyni ac anghenion o ran tai yn cynyddu wrth i'r gwasanaethau hyn gael eu torri ac y bydd hyn yn creu mwy o gostau i'r economi ehangach, gan olygu bod unrhyw doriad o'r fath yn gam gwag.

24 Llywodraeth Cymru, 17 Medi 2014: [Y Gweinidog yn dyblu'r arian i wasanaethau cynghori sydd 'dan bwysau'](#)

1.40 Hefyd, os caiff gwasanaethau cynghori eu torri, bydd hi'n anos i denantiaid, cynghorau a chymdeithasau tai ymdrin ag effaith y penderfyniad i ddi-ddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr. Mae hwn yn bwynt arbennig o berthnasol gan mai'r gwasanaethau cynghori sy'n wynebu rhai o'r toriadau mwyaf yw'r rhai y dywedodd cynghorau a chymdeithasau tai eu bod yn allweddol er mwyn helpu tenantiaid i ymdrin ag effaith y diwygiadau lles.

Arddangosyn 4 – Toriadau i gyllidebau asiantaethau cynghori yng Nghymru rhwng 2013-14 a 2014-15

Yn ôl Shelter Cymru, bu gostyngiad o £4.1 miliwn yn lefel yr arian a ddarparwyd i gefnogi gwasanaethau cynghori annibynnol yng Nghymru yn 2013-14 ac mae llai o wasanaethau ar gael i gefnogi pobl y mae angen help arnynt i ddelio â'u problemau tai a dyled.



Ffynhonnell: Shelter Cymru, Adolygiad o doriadau i gyllid gwasanaethau cynghori yn y sector gwirfoddol yn 2013-14 (nid yw'r data hyn wedi'u harchwilio).

Rhan 2

Mae cynlluniau a threfniadau cynghorau i helpu tenantiaid tai cymdeithasol i ymdopi ag effaith y diwygiadau lles yn anghyson



- 2.1 Mae 11 o'r 22 o gynghorau yng Nghymru yn landlordiaid tai cymdeithasol uniongyrchol o hyd, a chaiff gweddill y tai cymdeithasol eu darparu gan y 34 o gymdeithasau tai mwyaf. Mae newidiadau lles yn effeithio ar nifer sylweddol o denantiaid tai cymdeithasol a gaiff eu cartrefu gan y cynghorau neu gymdeithasau tai. Fel rhan o'u cyfrifoldebau strategol ehangach ym maes tai, mae'n hanfodol bod pob cyngor yng Nghymru wedi paratoi cynlluniau gweithredu cynhwysfawr a chynhwysol i ddelio ag effeithiau ariannol a chymdeithasol posibl y diwygiadau. Yn y rhan hon o'r adroddiad, ystyriwn effeithiolrwydd trefniadau cydweithio'r cynghorau, eu cynlluniau i fynd i'r afael ag effaith y diwygiadau lles ac i ba raddau y maent yn rheoli, yn gwerthuso ac yn goruchwyllo perfformiad.

Mae gan bob cyngor gynlluniau i fynd i'r afael ag effaith y diwygiadau lles ond nid oes pob cyngor yn cymryd camau cynhwysfawr i liniaru'r effaith

- 2.2 Er bod gan y naw cyngor y gwnaethom ymweld â hwy gynllun i fynd i'r afael ag effaith y diwygiadau lles, gwelsom fod cadernid a chwmpas y cynlluniau hyn yn amrywio. Mae'r cynlluniau gweithredu a roddwyd ar waith gan y cynghorau yn amrywio o ddogfennau corfforaethol strategol i restrau gweithredol o 'bethau i'w gwneud'. Mae'r cynghorau cryfaf wedi datblygu cynlluniau gweithredu manwl ar y cyd â phartneriaid.
- 2.3 Roedd gan yr holl gynghorau y gwnaethom ymweld â hwy weithgor neu fwrdd i drafod ac ystyried yr effeithiau posibl a gwerthuso sut y dylent ymateb iddynt. Mae'n bwysig bod aelodaeth y fforymau hyn yn briodol er mwyn sicrhau y caiff yr ystod lawn o faterion eu trafod a dylent gynnwys yr holl sefydliadau y mae diwygiadau lles yn effeithio arnynt neu a all chwarae rôl gadarnhaol i ymdrin â'u heffaith. Gwelsom dystiolaeth o arfer da gyda rhai cynghorau'n cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid yn eu fforymau, gan gynnwys cynrychiolwyr o gyrrff allanol a chynghorwyr yn ogystal â gwasanaethau unigol o fewn y cyngor.
- 2.4 Caiff diweddariadau eu gwneud a chaiff perfformiad wrth gyflawni camau gweithredu ei fonitro drwy fforwm priodol - bwrdd prosiect neu grŵp gorchwyl a gorffen. Un enghraifft dda yw Cyngor Dinas Caerdydd, sydd hefyd wedi cynnwys nifer o gynrychiolwyr allanol yn ei grŵp gorchwyl a gorffen er mwyn sicrhau y gallant gyfrannu at y cynlluniau gweithredu a lunnir gan y Cyngor.
- 2.5 Yn yr un modd, mae Cyngor Bro Morgannwg wedi sefydlu grŵp o randdeiliaid allanol ym maes diwygio lles. Mae hwn yn grŵp amlasiantaethol ac yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Adran Gwaith a Phensiynau, y Ganolfan Cyngor ar Bopeth, undebau credyd, Cymunedau yn Gyntaf, Age Concern, y cymdeithasau tai lleol a Chanolfan Gwasanaethau Gwirfoddol y Fro. Drwy weithio drwy fforymau o'r fath, mae rhai cynghorau wedi llwyddo i ddatblygu cynlluniau gweithredu sy'n cynnwys y prif faterion y mae angen iddynt eu trin ac sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o asiantaethau a all helpu i ddiwallu anghenion lleol.

- 2.6 Gwelsom rai enghreifftiau o gynlluniau gwael i reoli effaith y diwygiadau lles. Er enghraifft, nid oes gan un Cyngor unrhyw gynllun gweithredu ffurfiol ar waith ac yn lle hynny, caiff camau gweithredu eu monitro drwy gofnodion grŵp diwygio lles y cyngor. Gwelsom fod y cynlluniau anffurfiol hyn yn anghyflawn a bod y camau arfaethedig i fynd i'r afael ag effaith y diwygiadau lles yn gyfyngedig. Ymhellach, penderfynodd y Cyngor, a nododd ei benderfyniad mewn nodyn briffio ym mis Ionawr 2014, na fyddai'n cyfarfod oni bai ei fod yn cael diweddariadau digon arwyddocaol i warantu cynnal cyfarfod. Mae hyn yn golygu nad yw'r cyngor yn gwerthuso ei waith ar ddiwygiadau lles yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn ymdrin â newidiadau wrth iddynt ddigwydd.
- 2.7 Mewn achosion eraill, gwelsom fod adrannau unigol o fewn cynghorau yn datblygu ac yn cyflawni cynlluniau gweithredu digyswllt, gwahanol. Nid oedd y rhain yn cysylltu ag un cynllun cyffredinol a chânt eu rhoi ar waith yn annibynnol ar ei gilydd gan arwain at ddyblygu gweithgarwch ac, felly, wastraffu adnoddau. Er enghraifft, mewn cyngor arall, roedd yr adran dai wedi llunio cynllun ond roedd cynllun arall wedi cael ei lunio hefyd yn yr adran Diwygio Lles. Os na cheir cynllun cynhwysfawr na blaenoriaeth gorfforaethol glir o ran diwygio lles, nid yw bob amser yn bosibl dangos bod y camau gweithredu a gymerir yn cyflawni'r canlyniad bwriadedig.
- 2.8 Nid oedd y cynlluniau hynny y gwnaethom eu gweld gan gynghorau yn ceisio blaenoriaethu bwriadau polisi Llywodraeth y DU o ran cynyddu swyddi, cynyddu symudedd yn y sector tai cymdeithasol a chynyddu cyfraddau meddiannaeth. Yn lle hynny, maent yn tueddu i ganolbwyntio mwy ar liniaru effaith ariannol a gweithredol y diwygiadau ar gyrff ac asiantaethau unigol a chânt eu seilio'n aml ar ymateb i'r cyd-destun lleol.

Mae cynghorau yn cydweithio ag asiantaethau eraill i ddiwallu anghenion tenantiaid yn eu hardal, ond mae effeithiolrwydd gwaith partneriaeth ledled Cymru yn amrywio

- 2.9 Mae pob cyngor yn cydnabod bod yn rhaid ymgysylltu'n dda yn fewnol a chydweithio'n well â phartneriaid allweddol er mwyn gallu ymateb yn effeithiol i effaith y diwygiadau lles. Mae pwysigrwydd gwaith partneriaeth wedi cynyddu wrth i wasanaethau cynghorau wynebu mwy o bwysau ac wrth i denantiaid alw am fwy o gymorth a chyngor nag erioed o'r blaen. Cydnabyddir bod cydweithio yn hollbwysig er mwyn ysgogi arferion gwaith effeithlon a chyflawni canlyniadau effeithiol.
- 2.10 Er bod yr holl gynghorau yn cydnabod bod angen iddynt ddibynnu mwy ar asiantaethau partner i ddarparu gwasanaethau, mae'r graddau y maent yn gwneud hynny yn amrywio ledled Cymru. Ymhliith yr enghreifftiau o arfer da o gydweithio effeithiol a nodwyd gennym, mae canolfan gynghori Cyngor Dinas Caerdydd, sef siop un stop sy'n darparu cyngor ariannol a gwasanaethau eraill ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr o asiantaethau partner fel yr Undeb Credyd²⁵, Shelter Cymru ac Yn Awyddus i Weithio²⁶. Gall pobl alw heibio i'r ganolfan sy'n darparu cyngor ariannol, help i gyllidebu a gweithdai ar reoli dyledion.

²⁵ Corff ariannol cydweithredol sy'n eiddo i'w aelodau ac a gaiff ei reoli'n ddemocrataidd ganddynt yw undeb credyd a'i ddiben yw darparu credyd am gyfraddau cystadleuol a gwasanaethau ariannol eraill i'w aelodau. Mae llawer o undebau credyd yn darparu gwasanaethau i gefnogi gwaith datblygu cymunedol yn lleol.

²⁶ Cydfenter a gefnogir gan Lywodraeth Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith yw 'Yn Awyddus i Weithio', sy'n helpu pobl sy'n economaidd anweithgar i ddod o hyd i waith yng Nghymru.

- 2.11 Yn yr un modd, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymgysylltu'n effeithiol ag amrywiaeth eang o asiantaethau er mwyn lliniaru effaith y diwygiadau lles. Er enghraifft, mae'r Cyngor yn casglu biliau dŵr ar ran Dŵr Cymru ac yn helpu tenantiaid i wneud cais am Gymorth Dŵr Cymru/Mesuryddion Dŵr er mwyn lleihau eu biliau dŵr. Mae'r Cyngor hefyd yn cyfeirio tenantiaid at y Ganolfan Byd Gwaith, mentrau cymorth cyflogaeth mewnol eraill y Cyngor a gwasanaethau arbenigol er mwyn cael cyngor ar sut i arbed ynni a helpu i leihau eu biliau cyfleustodau.
- 2.12 Fodd bynnag, gwnaethom ganfod bod nifer o gynghorau yn wynebu anawsterau ariannol ac ymarferol wrth geisio darparu gwasanaethau amlasiantaethol integredig a chynhwysfawr tebyg. Er enghraifft, mae Cyngor Bro Morgannwg wrthi'n cynnal astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer canolfan datrysiadau tai, ond cododd y staff a'r partneriaid y gwnaethom siarad â hwy bryderon ynglŷn â hyfywedd gwasanaeth o'r fath mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol sylweddol.
- 2.13 Mae'r anghysondebau rhwng cynghorau o ran lefel ac effeithiolrwydd eu trefniadau cydweithio â phartneriaid yn golygu na all tenantiaid mewn rhai ardaloedd o'r wlad gael cymorth a chefnogaeth ehangach i fynd i'r afael ag effaith y diwygiadau lles. Er enghraifft, er bod yr holl gynghorau yn gweithio gyda chymdeithasau tai, gwelsom dystiolaeth i ddangos bod effeithiolrwydd y gwaith hwn yn amrywio ac ni chaiff nifer fach o gymdeithasau eu hystyried na'u cynnwys wrth gyflawni cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â'r diwygiadau lles.
- 2.14 Canfu ein harolwg o gymdeithasau tai a chynghorau nad yw 19 y cant o gymdeithasau tai yn gwybod yn glir neu'n ymwybodol sut y mae'r cynghorau y maent yn gweithio gyda hwy yn bwriadu mynd i'r afael ag effaith y diwygiadau lles. Gwnaethom ganfod hefyd mai dim ond 48 y cant o gymdeithasau tai a oedd yn teimlo bod y cynghorau y maent yn gweithio gyda hwy wedi ymgysylltu â hwy i ddatblygu cynllun gweithredu er mwyn mynd i'r afael ag effaith y diwygiadau lles ar dai cymdeithasol yn eu hardal. Awgryma'r dystiolaeth hon nad yw llawer o gynghorau yn darparu datrysiadau cynhwysfawr a phellgyrhaeddol i ddiwallu anghenion pawb y mae'r diwygiadau lles wedi effeithio arnynt ac na chaiff nifer sylweddol o bartneriaid allweddol eu cynnwys yn weithredol yn y gwaith o gynllunio datrysiadau effeithiol.

Mae trefniadau hyfforddi a threfniadau i rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau ar waith ond amrywiol yw llwyddiant y gwaith hwn

- 2.15 O ganlyniad i'r cymhlethdodau cynhenid sy'n gysylltiedig â diwygio'r system les, mae gwybodaeth o ansawdd, hyfforddiant a briffiau rheolaidd i staff, partneriaid a chynghorwyr yn hanfodol. Mae hyn yn bwysig er mwyn i gynghorau weithredu mewn ffordd gyfreithlon, gwneud dewisiadau hyddysg a rhoi'r wybodaeth gywir i'r rhai sy'n gyfrifol am lunio polisiau a chraffu i'w galluogi i wneud penderfyniadau a dwyn y weithrediaeth i gyfrif.

- 2.16 Ar y cyfan, gwelsom fod cynghorau wedi perfformio'n dda o ran darparu hyfforddiant ar y newidiadau allweddol i fudd-daliadau, er bod ansawdd a chwmpas yr hyfforddiant yn amrywio. Mae'r trefniadau gorau yn ystyried yr effaith ehangach ar y gymuned ac yn ymgysylltu â chynghorwyr a staff tai, gwasanaethau cymdeithasol, cefnogi pobl a chynghori yn ogystal â staff cyllid. Er enghraifft, gwelsom fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cynnal sesiynau briffio i aelodau a staff. Roedd dros 500 o bobl yn bresennol yn y sesiwn friffio i staff, gan gynnwys penaethiaid oherwydd ystyriwyd y gallai ysgolion fod yn bwynt cyswllt pwysig i'r rhai sydd angen mwy o wybodaeth am y newidiadau. Hefyd, cynhaliodd y Cyngor gyfres o ddiwyddiadau gyda'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth a'r Adran Gwaith a Phensiynau ar y newidiadau ac aeth ati i gynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r bwrdd gwasanaethau cymdeithasol yn ei sesiynau briffio rheolaidd.
- 2.17 Yn yr un modd, gwelsom fod Cyngor Dinas Casnewydd wedi rhoi hyfforddiant i'r staff hynny y gallai pobl droi atynt am gyngor, er enghraifft, gweithwyr cymdeithasol, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu rhoi cyngor i denantiaid ar y diwygiadau lles. Hefyd, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cynnwys diweddariadau rheolaidd ar ddiwygiadau lles yn ei gylchlythyr staff corfforaethol ac yn cynnal gweithdai rheolaidd i gynghorwyr er mwyn cefnogi trefniadau llunio polisïau ac atebolwydd lleol.
- 2.18 Fodd bynnag, gwelsom hefyd fod nifer o gynghorau wedi defnyddio diffiniad cul o ddiwygio lles ac wedi canolbwyntio ar friffio staff Budd-daliadau'r Dreth Gyngor a Budd-daliadau Tai yn unig ac wedi cyfyngu ar yr hyfforddiant a ddarperir. Er enghraifft, ar adeg ein gwaith maes, roedd un Cyngor wedi cyfyngu hyfforddiant i staff cyllid allweddol yn unig. Mae hyn yn golygu bod perygl na fydd gan y rhai sy'n gyfrifol am herio cynlluniau gweithredu'r cyngor ddealltwriaeth ddigonol o'r ddeddfwriaeth ac effaith bosibl y diwygiadau lles i gyflawni'r rôl hon yn effeithiol.

Mae trefniadau llywodraethu ac atebolwydd er mwyn ymateb i ddiwygiadau lles o fewn cynghorau yn amrywio'n eang a cheir anghysondeb o ran y ffordd y mae cynghorau yn monitro ac yn gwerthuso eu llwyddiant wrth gyflawni eu cynlluniau

- 2.19 Mae trefniadau llywodraethu da yn galluogi cynghorau i wireddu eu gweledigaeth a chyflawni eu blaenoriaethau ac maent yn hollbwysig er mwyn delio â risgiau anodd a heriol. Mae trefniadau cyfathrebu cadarn, arweinyddiaeth effeithiol a llunwyr polisi hyddysg yn agweddau hanfodol ar lywodraethu da ac maent yn hollbwysig er mwyn sicrhau y caiff gwasanaethau cynghorau a'r gymuned ehangach a wasanaethir ganddynt eu hystyried yn briodol wrth wneud penderfyniadau.

- 2.20 Mae hyn yn arbennig o wir yn achos diwygiadau lles. Mae diwygiadau lles yn croestorri llawer o wasanaethau gwahanol o fewn cynghorau ac yn effeithio ar amrywiaeth eang o sefydliadau ac unigolion mewn sawl ffordd wahanol. Felly, er mwyn bod yn effeithiol, rhaid i gynghorau sicrhau bod ganddynt arweinyddiaeth glir ar ddiwygio lles ynghyd â phrosesau llywodraethu ac atebolrwydd priodol er mwyn helpu i lunio polisïau, craffu'n effeithiol a dwyn gwasanaethau a'r weithrediaeth i gyfrif.
- 2.21 O'n gwaith maes, darlun cymysg a welsom o'r ffordd y mae cynghorau yn mynd i'r afael ag effaith y diwygiadau lles. Gwelsom lefelau amrywiol o waith craffu; eglurder amrywiol ynglŷn â phwy sy'n arwain y gwaith diwygio lles; a gwelsom nad yw strwythurau cynllunio ac adrodd bob amser yn effeithiol. Mae arfer gwael yn cyfyngu ar effeithiolrwydd y broses llunio polisïau ac yn tanseilio atebolrwydd a her. Er bod yr holl gynghorau y gwnaethom ymweld â hwy wedi ymgysylltu â chynghorwyr drwy friffiau penodol neu drwy gyflwyno adroddiadau i gyfarfodydd craffu, gwelwyd nad oedd hyn bob amser yn digwydd mewn ffordd gyson neu effeithiol.
- 2.22 Gwelsom drefniadau da yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae swyddogion a chynghorwyr yn llwyr ymwybodol o'r trefniadau monitro perfformiad ym maes diwygio lles a phwy sy'n gyfrifol am y gweithgarwch amrywiol. Mae tystiolaeth o her gan gynghorwyr, drwy gyfarfodydd y Cabinet, y pwyllgor craffu ar Bolisi ac Adnoddau a seminarau sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gynghorwyr yn rheolaidd am faterion yn ymwneud â diwygio lles yn ogystal â'r cyfle i oruchwylio a herio perfformiad.
- 2.23 Fodd bynnag, mewn cynghorau eraill, ymgysylltir â chynghorwyr mewn ffordd ad-hoc ac ni cheir eglurder ynglŷn â pha mor aml y caiff gwybodaeth ei chofnodi, ei monitro, ei gwerthuso a'i herio gan gynghorwyr neu ba mor aml y dylai hynny ddigwydd. Mae arfer o'r fath yn amharu ar y gallu i wneud penderfyniadau effeithiol ac yn tanseilio prosesau craffu a herio.
- 2.24 Mae arweinyddiaeth glir ac effeithiol ar ddiwygio lles yn amrywio o gyngor i gyngor hefyd. Yn aml, nid yw'n amlwg pwy yw'r cynghorydd 'arweiniol' ac er bod y cynlluniau yn tueddu i gael eu harwain gan swyddogion yn hytrach na chynghorwyr, ceir mwy nag un swyddog 'arweiniol' yn aml. Gwelwyd yr enghraifft orau o atebolrwydd clir yng Nghyngor Dinas Caerdydd, lle mai'r Cadeirydd a'r aelod Cabinet dros lechyd, Tai a Lles a oedd yn arwain gwaith Caerdydd ym maes diwygio lles. Dangosodd cynghorwyr yn yr awdurdod eu bod yn gwbl ymroddedig ac ymrwymedig i hyrwyddo agenda'r Cyngor.
- 2.25 Gwelsom hefyd enghreifftiau lle nad oes gan gynghorau unrhyw arweinwyr penodedig, gyda chyfrifoldebau wedi'u rhannu rhwng aelodau cabinet a phenaethiaid gwasanaethau. Yn aml yn yr achosion hyn, byddai gan adrannau gwahanol o fewn y cyngor gynlluniau gweithredu ar wahân a chaiff perfformiad ei fonitro gan bwyllgorau craffu gwahanol. Mae hyn yn golygu na all rhai cynghorau lunio trosolwg strategol o'r heriau sy'n eu hwynebu na sicrhau eu bod yn ymateb iddynt mewn ffordd effeithiol neu hollgynhwysfawr.

Ni chesglir data allweddol i fesur effaith y diwygiadau lles ar hyn o bryd

- 2.26 Mae dangosyddion perfformiad allweddol yn cyfeirio at ddangosyddion ariannol ac anariannol a ddefnyddir gan gynghorau i amcangyfrif a gwerthuso eu llwyddiant wrth wneud gwelliannau a chyflawni blaenoriaethau strategol. Mae'n bwysig dewis dangosyddion priodol er mwyn mesur llwyddiant, yn enwedig wrth werthuso rhaglenni newydd a newidiadau pellgyrhaeddol i wasanaethau o ganlyniad i newid polisi cenedlaethol fel y diwygiadau lles. Un ystyriaeth bwysig i gynghorau wrth gyflawni eu cynllun diwygio lles yw sicrhau bod ganddynt fesurau addas a gaiff eu hadolygu a'u gwerthuso'n rheolaidd er mwyn galluogi'r weithrediaeth, cyrff craffu a dinasyddion i ddwyn y cyngor i gyfrif a rhoi barn ar welliannau.
- 2.27 Gwnaethom ganfod mai cymysg yw ansawdd y data a gaiff eu casglu a'u hadolygu mewn perthynas â dangosyddion perfformiad, a chymysg hefyd yw perfformiad cynghorau o ran pa mor aml y maent yn casglu data ac yn adrodd arnynt. Ceir rhai dulliau gweithredu da sydd wedi'u teilwra'n lleol, fel yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, lle mae'r cyngor wedi sefydlu nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol i werthuso'r ffordd y mae'n cyflawni ei gynllun gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys nifer yr asesiadau ariannol a gynhelir; nifer yr atgyfeiriadau at asiantaethau partner; a faint o arian budd-dal ychwanegol y llwyddir i'w sicrhau ar ran tenantiaid.
- 2.28 Fodd bynnag, nid oes llawer o gynghorau, gan gynnwys Cyngor Sir Penfro a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, wedi pennu unrhyw fesurau i'w galluogi i roi barn ar gynnydd wrth gyflawni camau gweithredu a gwerthuso eu heffaith. Yn hytrach, maent yn dibynnu ar ddangosyddion perfformiad hirsefydledig fel swm yr ôl-ddyledion rhent, y niferoedd sydd ar y rhestr aros ac amseroedd ailosod cyfartalog. Er bod dangosyddion o'r fath yn darparu rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol, nid ydynt yn rhoi dealltwriaeth ddigon manwl o wir effaith y diwygiadau lles yn lleol ac ni ellir eu defnyddio i graffu'n briodol ar gamau i gyflawni'r cynllun gweithredu.
- 2.29 Gwnaethom ganfod hefyd fod rhai cynghorau'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar adrodd ar eu rôl fel landlordiaid ac nad ydynt yn ystyried y diwygiadau lles mewn ffordd gyfannol nac yn ceisio cynnwys gwybodaeth gan gymdeithasau tai yn eu hardal. Mae hyn yn cyfyngu ar allu cyngor i gyflawni ei rôl strategol ehangach ym maes tai ac mae perygl nad oes gan gynghorau fesurau canlyniadau priodol i'w galluogi i lunio barn gywir ar lwyddiant ac effaith eu cynllun gweithredu. Gallai hyn arwain at ddiffyg gweithredu ymhlith cynghorau a methiant i nodi ac ystyried holl oblygiadau'r diwygiadau'n briodol.
- 2.30 O'n harolwg o gynghorau a chymdeithasau tai, canfuwyd y canlynol: nid yw 29 y cant o gynghorau a chymdeithasau tai yn monitro'r diffyg misol mewn incwm rhent o ganlyniad i ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr; dim ond 57 y cant o landlordiaid tai cymdeithasol sy'n casglu gwybodaeth sy'n eu galluogi i gyfrifo'r diffyg blynyddol posibl mewn rhent; ac nid yw 33 y cant yn casglu gwybodaeth am gostau casglu dyled.

- 2.31 Cododd y cynghorau y gwnaethom ymweld â hwy bryderon hefyd am y ffaith nad oes digon o wybodaeth ansoddol ar gael am faterion allweddol sy'n deillio o'r diwygiadau lles fel gorlenwi, dyledion tenantiaid a'r ffordd y mae rhannu ystafelloedd gwely a symud tŷ yn gyson yn effeithio ar addysg plant. Mae'r rhain i gyd yn ddangosyddion allweddol y gellir eu defnyddio i farnu effaith y diwygiadau lles ar eu tenantiaid a'u busnes ac maent yn fesurau pwysig er mwyn helpu i ddatblygu gwasanaethau a gwneud dewisiadau polisi yn y dyfodol. Mae perygl na chaiff rhai o oblygiadau anfwriadol ehangach y diwygiadau lles eu nodi.
- 2.32 Gwelsom hefyd enghreifftiau lle mae cynghorau yn casglu data, ond yn aml ni chaiff y data hyn eu cyflwyno i fforwm priodol, fel pwyllgor craffu, er mwyn helpu i lunio polisiau effeithiol a herio penderfyniadau blaenorol. Hefyd, mewn rhai cynghorau - yn enwedig y rhai nad ydynt yn landlordiaid - gwelsom mai ychydig o wybodaeth am berfformiad a gaiff ei chasglu a'i defnyddio i gynllunio ymatebion lleol. Er enghraifft, nid oedd un cyngor yn casglu unrhyw wybodaeth am berfformiad ar adeg ein gwaith maes, ond dywedodd y cyngor ei fod yn bwriadu mynd i'r afael â'r gwendid hwn yn y dyfodol.


Mae pob cyngor wedi nodi bod diwygiadau lles yn risg sylweddol ond nid yw'r dulliau a ddefnyddir i liniaru'r risg hon bob amser yn gynhwysfawr

- 2.33 Mae nifer o risgiau gweithredol a strategol posibl yn gysylltiedig â'r diwygiadau lles, a gaiff effaith sylweddol ar gynghorau a chymdeithasau tai. Er mwyn sicrhau bod cynghorau a'u partneriaid yn cymryd camau lliniaru effeithiol, mae'n rhaid bod ganddynt brosesau cadarn i reoli a lliniaru risgiau. Bydd angen i'r prosesau hyn fod yn gynhwysfawr, ymdrin â'r holl agweddau ar ddiwygio lles a nodi'r camau gweithredu y bwriedir eu cymryd i liniaru'r risg.
- 2.34 Gwelsom fod pob cyngor wedi nodi bod y diwygiadau lles yn risg ac wedi sefydlu mesurau rheoli ond nid yw'r rhain bob amser yn gynhwysfawr ac yn briodol. Yn yr enghreifftiau gorau a welsom, roedd y cynghorau wedi disgrifio'r effaith bosibl yn fanwl yn hytrach na nodi'n syml mai diwygiadau lles yw'r risg. Drwy rannu'r risg yn agweddau gwahanol, gellir llunio ymateb mwy penodol a sicrhau y caiff y 'perchennog' mwyaf priodol ei benodi i fod yn gyfrifol am liniaru'r risg ac, o ganlyniad, ei ddwyn i gyfrif am y risg. Er enghraifft, mae Cyngor Bro Morgannwg wedi llunio cofrestrau sy'n nodi risgiau'r diwygiadau lles i wasanaethau unigol, sy'n bwydo i mewn i gofrestr risg gorfforaethol gyffredinol ac mae'n craffu ar y cofrestrau hyn ac yn eu herio mewn ffordd fanwl a rheolaidd.

2.35 Fodd bynnag, gwelsom rai trefniadau gwannach hefyd. Er enghraifft, roedd un Cyngor ond wedi nodi bod y diwygiadau lles yn risg gyffredinol lefel uchel mewn cofrestr risg gorfforaethol, na chaiff ei hategu gan gamau lliniaru manwl. Yn yr un modd, gwelsom nifer o enghreifftiau lle na chaiff risgiau eu cydgysylltu'n gorfforaethol gan olygu bod gwasanaethau unigol yn cael eu gadael i fynd i'r afael â hwy. Mewn cyngor arall, gwelsom fod sawl gwasanaeth wedi llunio cofrestrau risg mewn perthynas â'r diwygiadau lles, sy'n cael eu rheoli'n annibynnol ar ei gilydd ac sy'n aml yn cynnwys yr un camau gweithredu. Nid yw'r trefniadau darniog hyn yn rhoi digon o sicrwydd bod yr holl gamau angenrheidiol a phriodol i liniaru risg yn cael eu cymryd ac nid ydynt yn helpu i graffu'n ddigonol ar berfformiad chwaith.

Rhan 3

Prin yw'r effaith a gaiff ymdrechion
cyngorau a chymdeithasau tai i helpu
tenantiaid i liniaru effaith y penderfyniad i
ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr




- 3.1 O ystyried eu bod o dan bwysau ariannol eu hunain a bod angen cynyddol iddynt gynorthwyo mwy na 30,000 o aelwydydd tai cymdeithasol y mae'r newidiadau i Fudd-dal Tai wedi effeithio arnynt yng Nghymru, mae cynghorau a chymdeithasau tai yn wynebu her fawr. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried i ba raddau y mae cynghorau a chymdeithasau tai wedi mynd i'r afael â'r effaith hon yn effeithiol drwy edrych ar y canlynol:
- a eu dealltwriaeth o anghenion eu tenantiaid a'u preswylwyr;
 - b yr opsiynau rheoli tai sydd ar gael i gynyddu symudedd a gwneud defnydd gwell o'r stoc bresennol;
 - c y dewisiadau a wneir i gynyddu'r cyflenwad tai ac ad-drefnu llety presennol i'w wneud yn fwy fforddiadwy; a'r
 - ch gwaith a wneir i gynyddu cyflogaeth ymhlith tenantiaid tai cymdeithasol.

Mae nifer yr aelwydydd sy'n atebol i dalu rhent uwch ar ôl i'r cymhorthdal ystafell sbâr gael ei ddiddymu wedi gostwng 14 y cant yn 2013-14 ond mae cynghorau a chymdeithasau tai yn disgwyl i'r niferoedd a gynorthwyr leihau yn y dyfodol

- 3.2 Mae gwybodaeth a gyhoeddwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dangos, yn ystod y flwyddyn gyntaf ar ôl diddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr, i'r niferoedd yr effeithiwyd arnynt gan y newid yng Nghymru ostwng 14 y cant rhwng mis Mehefin 2013 a mis Chwefror 2014, o 35,011 i 30,618 - **Arddangosyn 5**.

Arddangosyn 5 – Hawlwyr Budd-dal Tai Cymdeithasol yng Nghymru a nifer yr ystafelloedd gwely sbâr, mis Mehefin 2013 i fis Chwefror 2014

Bu gostyngiad o 14 y cant yn nifer y teuluoedd y mae'r penderfyniad i ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr wedi effeithio arnynt (rhwng mis Mehefin 2013 a mis Chwefror 2014).



Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Housing Benefit Claimant Data, Single Housing Benefit Extract (SHBE), drwy Stat-Xplore, Chwefror 2013 i Chwefror 2014.

- 3.3 Nid yw'n bosibl dweud yn gywir pam y gwelwyd y gostyngiad hwn gan nad yw cynghorau na chymdeithasau tai yn casglu data perfformiad yn benodol ar ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr. Gallai fod nifer fawr o resymau dros y gostyngiad o 14 y cant - efallai bod tenantiaid wedi dewis symud tŷ; efallai bod cartrefi tenantiaid wedi cael eu hadfeddiannu oherwydd ôl-ddyledion rhent; efallai eu bod wedi trosglwyddo i lety cymdeithasol arall sy'n bodloni'r gofynion diwygiedig o ran ystafelloedd gwely; neu efallai eu bod bellach yn gweithio ac nad ydynt yn hawlio Budd-dal Tai mwyach.
- 3.4 Awgryma ein gwaith maes a'n hymchwil mai'r prif resymau dros y gostgyniad mewn niferoedd yn ystod y flwyddyn gyntaf yw bod y rhai a oedd eisoes wedi'u cofrestru i drosglwyddo wedi symud, bod cofnodion budd-dal wedi'u diweddarau a'u cysoni'n gywir, a bod tenantiaid a oedd wedi arfer gweithio wedi ailymuno â'r farchnad swyddi. Nododd y rhan fwyaf o'r cynghorau a'r cymdeithasau tai y gwnaethom eu harolygu a'u cyfweld mai'r 30,000 o aelwydydd sy'n weddill yw'r teuluoedd hynny sydd fwyaf anodd eu cynorthwyo ac y bydd helpu'r tenantiaid hyn i reoli'r lleihad yn eu Budd-dal Tai a phheidio â cholli eu cartrefi yn her anodd yn y dyfodol.


Mae'r rhan fwyaf o landlordiaid wedi cyfathrebu'n effeithiol â'u tenantiaid ynglŷn â'r newidiadau i'w budd-daliadau ac wedi datblygu proffiliau manwl er mwyn cynllunio sut y byddant yn darparu eu gwasanaethau

- 3.5 Un o'r themâu allweddol sydd wedi codi o'n gwaith yw'r angen cynyddol i gynghorau a landlordiaid cymdeithasol feithrin cydberthnasau gwell â'u tenantiaid a deall eu hanghenion penodol. Er mwyn nodi tenantiaid y mae angen cymorth a chefnogaeth arnynt yn gynnar, rhaid adnabod tenantiaid ac, felly, gymryd camau rhagweithiol i feithrin cydberthnasau cadarnhaol â hwy. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd cyswllt personol da a sicrhau y gall tenantiaid ymdopi.
- 3.6 Wrth wraidd y broses hon, rhaid cael staff tai sydd wedi'u hyfforddi'n drylwyr ac sy'n cael eu hannog i fod yn ymwybodol o arwyddocâd gwybodaeth arbennig, a sut i ymateb yn briodol. Er mwyn rhoi'r cymorth cywir i'r bobl gywir ar yr adeg gywir mewn ffordd effeithiol a chyson, rhaid gwneud mwy na throi tenantiaid i'r cyfeiriad cywir - rhaid eu hatgyfeirio yn hytrach na dim ond rhai gwybodaeth iddynt am ble i fynd a rhaid gwneud hynny'n barhaus, nid unwaith yn unig.
- 3.7 Drwy ein gwaith maes, gwelsom fod y rhan fwyaf o landlordiaid yn canolbwyntio mwy ar ymgysylltu â thenantiaid a rheoli eu hardaloedd yn ddwys er mwyn gwella'r ffordd y maent yn casglu ac yn adolygu data allweddol ac yn ymateb i anghenion. Fodd bynnag, er mwyn gwneud hyn, bu'n rhaid i landlordiaid cymdeithasol a chynghorau aildargedu eu hadnoddau at gyswllt wyneb yn wyneb a chymorth cymunedol, gan drosglwyddo adnoddau i'r rheng flaen er mwyn galluogi staff i weithredu ar unwaith.

- 3.8 Roedd yr holl gynghorau yr ymwelwyd â hwy wedi ceisio casglu rhagor o wybodaeth am eu tenantiaid er mwyn deall effaith y diwygiadau. Mae dulliau ymgysylltu cynghorau â thenantiaid yn amrywio o ran eu natur a'u graddau; mae rhai awdurdodau wedi cyflogi swyddogion cymorth tenantiaethau ychwanegol i ymweld â thenantiaid a chasglu data drwy holiadur, tra roedd eraill wedi dibynnu ar ymateb tenantiaid i geisiadau safonedig am wybodaeth a anfonwyd drwy'r post. Roedd faint o wybodaeth a gasglwyd yn amrywio hefyd; mewn rhai cynghorau, ni wnaed mwy na chadarnhau faint o bobl a oedd yn yr aelwyd a nifer yr ystafelloedd gwely yn yr eiddo, er mwyn deall yr effaith ariannol bosibl.
- 3.9 Caiff yr enghreifftiau gorau a nodwyd gennym eu llywio gan gyswllt personol dwys, rheolaidd lle defnyddir dulliau cyfathrebu arloesol yn ogystal â thraddodiadol i gynyddu ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys hyrwyddo newidiadau ac opsiynau drwy hysbysebion ar gerbydau landlordiaid a chynghorau, gweithio gyda rhanddeiliaid eraill, fel darparwyr cyfleustodau, i ddeall a diwallu anghenion yn ogystal â darparu gwybodaeth ysgrifenedig ac electronig yn y ffordd draddodiadol. Mae cynghorau sydd â phrosesau casglu data mwy cynhwysfawr wedi gallu defnyddio'r rhain i'w helpu i ddeall eu tenantiaid yn well a darparu cyngor a chymorth mwy personol; er enghraifft, cwblhau adnodd cyllidebu, rhoi cyngor ar filiau cyfleustodau a gwneud yn siŵr bod yr holl fudd-daliadau priodol yn cael eu hawlio.

Ces i wybod ganddyn nhw i ddechrau efallai na fyddai unrhyw beth yn newid, ond yna daethon nhw i'r tŷ a sylweddoli y byddai pethau'n newid am fod gen i bedwar o blant a'n bod ni'n rhannu gofal amdany'n nhw ac am fod gennym ni orchymyn llys, felly roedd yn rhaid imi ei dalu. Rwy'n magu pedwar o blant ar fudd-dal dau blentyn. Mae'n annheg iawn yn fy marn i.


Daeth dynes o'r cyngor allan aton ni a dweud bod yn rhaid inni ei dalu, ond ddywedodd hi ddim faint na phryd, felly aethon ni i ddyled â'r cyngor achos doedden ni ddim yn gwybod. Yn y diwedd, doedd dim angen inni ei dalu hyd yn oed oherwydd cyfraith 1996, felly cafodd yr arian ei dalu'n ôl inni.



- 3.10 O'n harolwg, darlun cymysg a gafwyd o lwyddiant y gwaith hwn. Ar nodyn cadarnhaol, teimlai 100 y cant o gynghorau sy'n berchen ar dai ac yn eu rheoli, 90 y cant o gymdeithasau tai a 64 o gynghorau nad ydynt yn berchen ar stoc eu bod wedi hysbysu tenantiaid a phreswylwyr yn effeithiol am effaith y penderfyniad i ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr a chyflwyno'r cap ar fudd-daliadau yn eu hardal. Fodd bynnag, o'r tenantiaid y gwnaethom eu harolygu, dywedodd cyfran fawr - 68 y cant - nad oeddent wedi cael unrhyw gymorth gan eu landlordiaid i fynd i'r afael ag effaith y diwygiadau lles, a dywedodd 47 y cant nad oeddent wedi cael cyngor gan neb - **Arddangosyn 6**.
- 3.11 Yn yr un modd, canfu ein harolwg o denantiaid lefel isel o wybodaeth ac ymwybyddiaeth am linell gymorth 'Mae budd-daliadau yn newid'²⁷ ymhlith tenantiaid tai cymdeithasol. Dim ond 16 y cant o'r rhai a arolygwyd a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o'r gwasanaeth hwn. Roedd y gyfran uchaf yng nghanolbarth Cymru gyda chyfradd ymateb o 37 y cant a'r gyfran isaf yng Ngogledd Cymru gyda chyfradd o 11 y cant. Awgryma hyn y gellid gwneud llawer mwy i hyrwyddo'r gwasanaeth pwysig hwn yn well a gwella mynediad iddo.

Arddangosyn 6 – Ffynonellau'r cyngor a roddwyd i denantiaid ar opsiynau i ddelio â'r penderfyniad i ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr

Nid oedd bron hanner y 412 o denantiaid y gwnaethom eu harolygu sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr, wedi cael cyngor i'w galluogi i gynllunio sut i ymdopi â hynny.



Ffynhonnell: Arolwg o Denantiaid gan Swyddfa Archwilio Cymru, mis Ionawr i fis Mawrth 2014.

²⁷ Mae ymgyrch **Mae Budd-daliadau yn Newid** wedi'i sefydlu a'i hariannu gan Gartrefi Cymunedol Cymru a Chartrefi RCT. Mae'r gwasanaeth yn cyflogi cyngorwyr ariannol sy'n rhoi cyngor ar y diwygiadau lles a sut i sicrhau'r incwm mwyaf, gan nodi pa newidiadau fydd yn effeithio ar unigolion a theuluoedd a darparu atebion posibl.

Mae'r rhan fwyaf o landlordiaid wedi diwygio eu cynlluniau dyrannu fel eu bod yn rhoi blaenoriaeth i drosglwyddo'r tenantiaid hynny sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr ac er bod 14 y cant o'r tenantiaid dan sylw wedi symud dros y flwyddyn ddiwethaf, nid yw'r rhan fwyaf ohonynt wedi cofrestru i drosglwyddo

- 3.12 Mae tai cymdeithasol yn eithriadol o bwysig i'r cannoedd ar filoedd o deuluoedd sy'n byw ynddynt yng Nghymru ar hyn o bryd a'r rhai sy'n gobeithio ymgartrefu ynddynt yn y dyfodol. Drwy'r broses ddyrannu, mae tai cymdeithasol yng Nghymru wedi bod yn hollbwysig er mwyn diwallu'r angen o ran tai a darparu llety i'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Felly, mae dyrannu a gosod yn dasgau hollbwysig i gynghorau a chymdeithasau tai. O dan gynllun dyrannu, mae deddfwriaeth a chanllawiau yn cyfarwyddo cynghorau a chymdeithasau tai i roi blaenoriaeth neu ffafiaeth resymol i grwpiau penodol o bobl, gan gynnwys:
- a pobl sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd;
 - b pobl sy'n byw mewn tai gorlawn neu aflan neu sy'n byw mewn amodau anfoddhaol eraill;
 - c pobl y mae angen iddynt symud am resymau meddygol neu resymau'n ymwneud â lles; a
 - ch phobl y mae angen iddynt symud i ardal benodol yn yr awdurdod, lle byddai methiant i ddiwallu'r angen hwnnw yn achosi caledi am fod angen iddynt gael triniaeth feddygol neu roi neu dderbyn gofal, er enghraifft.
- 3.13 Fodd bynnag, un o effeithiau'r penderfyniad i gyfyngu ar daliadau Budd-dal Tai i aelwydydd o oedran gweithio sy'n tanfeddiannu eu cartref yw bod grŵp mawr o bobl wedi cael ei greu - sy'n cynnwys dros 30,000 o deuluoedd²⁸ - y gallai fod angen iddynt drosglwyddo a symud i dai llai o faint. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i gynghorau a chymdeithasau tai ddiwygio eu cynlluniau dyrannu er mwyn rhoi rhywfaint o flaenoriaeth i'r aelwydydd hyn wrth drefnu gosodiadau yn y dyfodol. Mae hefyd yn golygu bod y galw am dai llai o faint bellach yn cynyddu tra bod y galw am gartrefi mwy o faint yn lleihau.


Mae nifer y cartrefi rhent cymdeithasol sy'n dod yn wag wedi haneru dros y degawd diwethaf

- 3.14 Ym mis Mawrth 2013, roedd 223,170 o dai cymdeithasol yng Nghymru (88,239 o gartrefi yn eiddo i gynghorau a 134,931 o gartrefi yn eiddo i gymdeithasau tai²⁹). Felly, mae gwneud defnydd gwell o'r stoc dai bresennol yn opsiwn pwysig i landlordiaid ei ystyried. Fodd bynnag, ni all cynghorau a chymdeithasau tai drosglwyddo pawb y mae angen iddynt symud ar ôl i'r cymhorthdal ystafell sbâr gael ei ddiddymu, yn enwedig am fod nifer y cartrefi gwag sydd ar gael yng Nghymru wedi gostwng 52 y cant dros y degawd diwethaf, o'r lefel uchaf, sef 9,205, yn 2001-02 i 4,381 yn 2012-13 - [Arddangosyn 7](#).

²⁸ Yr Adran Gwaith a Phensiynau, [Housing Benefit Claimant Data, Single Housing Benefit Extract \(SHBE\)](#), drwy Stat-Xplore.
²⁹ StatsCymru, HOUS0501: [Amcangyfrifon o'r Stoc Anheddau 2012-13](#).

Arddangosyn 7 – Nifer y cartrefi gwag yn ôl blwyddyn a landlord 2000-01 i 2012-13

Mae nifer yr unedau eiddo gwag sydd ar gael i gynghorau a chymdeithasau tai eu gosod wedi haneru yn ystod y degawd diwethaf ond mae'n dechrau cynyddu unwaith eto.



Ffynhonnell: StatsCymru, HOUS1401: Eiddo gwag yn ôl y math o landlord 2000-01 i 2012-13.

3.15 Os rhoddir blaenoriaeth i osod cartrefi gwag i denantiaid y mae angen iddynt symud i eiddo llai o faint, byddai angen i nifer anghymesur o gartrefi llai ddod ar gael i ddiwallu'r angen penodol hwn. Hefyd, byddai angen i'r eiddo gael ei leoli yn yr ardal ddaearyddol gywir a bod yn addas i ddiwallu anghenion y teulu sy'n trosglwyddo.


Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau gosod yn rhoi blaenoriaeth i drosglwyddo tenantiaid sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr ond nid yw'r rhan fwyaf o denantiaid wedi cofrestru i symud cartref ac mae nifer fawr o landlordiaid yn bwriadu caniatáu i denantiaid newydd danfeddiannu eu cartrefi pan fyddant yn gosod eiddo gwag

3.16 Canfu ein harolwg o gynghorau a chymdeithasau tai fod 79 y cant o landlordiaid tai cymdeithasol yng Nghymru wedi rhoi blaenoriaeth i drosglwyddo tenantiaid sydd dan anfantais ar ôl colli'r cymhorthdal ystafell sbâr i lety arall, bod 11 y cant yn bwriadu gwneud y newidiadau hynny ac mai dim ond 4 y cant a ddywedodd nad oeddent yn bwriadu diwygio eu polisiau dyrannu.

3.17 Dros y degawd diwethaf, mae nifer y gosodiadau, gan gynnwys trosglwyddiadau, a wnaed gan sefydliadau tai cymdeithasol yng Nghymru wedi amrywio rhwng 18,677 o osodiadau yn 2007-08 a 21,073 yn 2009-10 - **Arddangosyn 8**.

Arddangosyn 8 – Nifer y gosodiadau yn ôl blwyddyn a grwpiau'r gofrestr tai 2005-06 i 2011-12

Mae cyfran y gosodiadau a wnaed i denantiaid sy'n trosglwyddo, aelwydydd sy'n ddigartref a phobl ar y rhestr aros am dai wedi aros yn weddol debyg dros y blynyddoedd diwethaf.



Ffynhonnell: StatsCymru, HOUS1501: Nifer yr eiddo ar osod yn ol blwyddyn ariannol a'r math o eiddo ar osod, 2005-06 i 2012-13.

- 3.18 Yn gyffredinol, mae dosbarthiad gosodiadau wedi aros yn weddol debyg gyda rhyw 20 y cant yn mynd i denantiaid sy'n trosglwyddo, 20 y cant i aelwydydd sy'n ddigartref a'r 60 y cant sy'n weddill i bobl ar y gofrestr tai. Felly, pe byddai trosglwyddiadau'n cynyddu'n uwch na'r ffigur hwn, byddai hynny'n arwain at newid sylweddol ym mholisi tai landlordiaid tai cymdeithasol a byddai'n cael effaith ar grwpiau eraill y rhoddir blaenoriaeth iddynt o ran tai. Hefyd, byddai'n rhaid i landlordiaid tai cymdeithasol hyrwyddo trosglwyddiadau ar draul blaenoriaethau cystadleuol eraill, fel aelwydydd sy'n ddigartref neu'r rhai y mae'n rhaid iddynt symud am resymau iechyd.
- 3.19 Nid yw'r rhan fwyaf o denantiaid sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr wedi trosglwyddo ac ar hyn o bryd, ceir anghysondeb rhwng maint aelwydydd a nifer y cartrefi addas sydd ar gael yn y sector rhentu cymdeithasol i hawlwr Budd-dal Tai sy'n tanfeddiannu symud iddynt. Mewn sawl ardal yng Nghymru, nid oes digon o gartrefi llai o faint i ddiwallu anghenion tenantiaid sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr. Mae'n golygu hefyd mai cyfyngedig yw'r cyflenwad o dai llai o faint sydd ar gael i ddiwallu anghenion tenantiaid nad ydynt yn byw mewn tai cymdeithasol, gan gynnwys y rhai sydd ag angen sylweddol o ran tai, fel y rhai sy'n dianc rhag trais domestig.

- 3.20 Gwnaethom ganfod hefyd nad yw'r rhan fwyaf o denantiaid am drosglwyddo. Er enghraifft, canfu ein harolwg o gynghorau mai dim ond 3,667 (26 y cant) o'r 14,063 o denantiaid a oedd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr ym mis Medi 2013 a oedd wedi cofrestru i symud. Yn yr un modd, canfu ein harolwg o denantiaid a oedd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr mai dim ond 37 y cant ohonynt a oedd wedi cytuno neu gytuno'n gryf bod angen iddynt ystyried symud; roedd 58 y cant yn anghytuno neu anghytuno'n gryf ac nid oeddent yn bwriadu symud; ac roedd 5 y cant heb benderfynu ar adeg yr arolwg.
- 3.21 Gwelsom wahaniaethau rhwng cynghorau sydd â stoc a chymdeithasau tai o ran eu penderfyniadau ynglŷn â ph'un a ddylid caniatáu i ddarparu denantiaid danfeddiannu tai yn y dyfodol. Yn eu canllawiau dyrannu, mae'r rhan fwyaf o gynghorau sy'n berchen ar stoc - 64 y cant - yn dal i ganiatáu i ymgeiswyr danfeddiannu tai, o gymharu â 23 y cant o gymdeithasau tai. Mae hyn yn golygu y gallai'r nifer y mae angen iddynt symud i eiddo llai o faint ac y mae'r penderfyniad i ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr yn effeithio arnynt gynyddu mewn rhai ardaloedd a bydd hi'n cymryd mwy o amser i ymdrin ag effaith y polisi a sicrhau bod pob tenant yn byw mewn cartref sy'n diwallu anghenion ei deulu. Mae pobl mewn sefyllfaoedd tebyg o ran tai hefyd yn cael gwasanaeth o safon wahanol yn seiliedig ar ddewisiadau a phenderfyniadau eu landlord a'r sawl y maent yn gwneud cais iddo am gymorth, nid eu hangen o ran tai.

Prin y mae cynghorau a chymdeithasau tai wedi defnyddio'r sector rhentu preifat i wella symudedd deiliadaeth o ganlyniad i'r newidiadau i Fudd-daliadau Tai ac nid yw'r rhan fwyaf o denantiaid sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr am symud i'r sector rhentu preifat

- 3.22 Mae tai rhent preifat yn chwarae rôl fwyfwy pwysig ac amlwg yn y farchnad dai. Mae'r sector rhentu preifat yn cefnogi symudedd, yn darparu hyblygrwydd ac yn dod yn ddewis amgen cynyddol bwysig i dai cymdeithasol i lawer o bobl sy'n agored i niwed na allant gael llety gan gynghorau a chymdeithasau tai.
- 3.23 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y cartrefi rhent preifat yng Nghymru wedi dyblu gan gynyddu o 88,539 yn 2001-02 i 189,610 yn 2012-13³⁰. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig gwneud newidiadau sylweddol i wella ansawdd a safon llety rhent preifat a chaiff y math hwn o ddeiliadaeth ei ystyried yn gynyddol fel opsiwn pwysig i ddiwallu'r angen o ran tai yn y dyfodol. Yn wir, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi pwerau i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswydd statudol mewn perthynas â digartrefedd drwy sicrhau llety rhent preifat i ymgeiswyr digartref³¹.


³⁰ StatsCymru, **HOUS0501: Amcangyfrifon o'r Stoc Anheddau 2001-02 i 2012-13**.

³¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, Bil Tai (Cymru): Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1, Mawrth 2014**.

- 3.24 Ystyrir hefyd fod gwneud mwy o ddefnydd o'r sector rhentu preifat yn opsiwn posibl i rai y mae'r rheolau tanfeddiannu yn effeithio arnynt, yn bennaf oherwydd bod y math hwn o ddeiliadaeth yn cynnwys cyfran gymharol uchel o lety un ystafell wely ac oherwydd y cyfyngiadau ar y cyflenwad tai cymdeithasol presennol. Yn wir, caiff symud i'r sector rhentu preifat ei nodi fel un o'r opsiynau posibl gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn ei hasesiad effaith ar danfeddiannu tai cymdeithasol ar gyfer teuluoedd sy'n colli'r cymhorthdal ystafell sbâr³².
- 3.25 Fodd bynnag, mae ein canfyddiadau'n awgrymu nad yw'r sector rhentu preifat yn ateb ymarferol mewn sawl ardal yng Nghymru. Mewn llawer o gymunedau, mae landlordiaid tai cymdeithasol yn cystadlu â landlordiaid yn y sector preifat am denantiaid ac nid ydynt yn annog tenantiaid i symud o un ddeiliadaeth i'r llall. Mewn ardaloedd eraill, gwelsom fod rhenti preifat yn llawer uwch na rhenti tai cymdeithasol ac felly mae'r eiddo y tu hwnt i gyrraedd llawer o bobl y mae angen iddynt symud i eiddo llai o faint. Hefyd, mae rhai landlordiaid preifat yn amharod i ailgartrefu tenantiaid neu enwebeion tai cymdeithasol heb ryw fath o warantwr, heb daliadau bond a heb ddefnyddio mathau llai diogel o denantiaethau.
- 3.26 Canfu ein harolwg o gynghorau a chymdeithasau tai mai cynghorau nad oedd ganddynt stoc oedd fwyaf cadarnhaol am annog mynediad i'r sector rhentu preifat a bod 73 y cant o'r rhain wedi gweithio i hyrwyddo mynediad i'r rheini y mae eu Budd-dal Tai wedi newid. Roedd 55 y cant o'r cynghorau sy'n berchen ar stoc wedi annog y defnydd o'r sector rhentu preifat ac roedd 18 y cant arall yn bwriadu gwneud hynny. Fodd bynnag, dim ond 26 y cant o gymdeithasau tai a oedd wedi gweithio gyda'u tenantiaid i annog mynediad i dai rhent preifat ac nid oedd gan y rhan fwyaf ohonynt - 61 y cant - unrhyw gynlluniau i wneud hynny - **Arddangosyn 9**.

Arddangosyn 9 – Hyrwyddo mynediad i'r sector rhentu preifat i'r rhai y mae'r penderfyniad i ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr a/neu gyflwyno'r cap ar fudd-daliadau wedi effeithio arnynt

Ceir darlun cymysg o'r ffordd y mae cynghorau a chymdeithasau tai yn hyrwyddo mynediad i'r sector rhentu preifat.



Ffynhonnell: Arolwg o Gyngorau a Chymdeithasau Tai gan Swyddfa Archwilio Cymru, mis Ionawr i fis Mawrth 2014.

32 Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Housing Benefit: Under occupation of social housing, Impact Assessment, Mehefin 2012.

- 3.27 Hefyd, nid yw llawer o denantiaid tai cymdeithasol sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr yn awyddus i gael eu hailgartrefu mewn eiddo rhent preifat. Cynhaliwyd cyfres o grwpiau ffocws gyda thenantiaid a nodwyd bod y rhan fwyaf ohonynt o'r farn nad yw'r sector rhentu preifat yn cynnig llawer o ddiogelwch o ran deiliadaeth a bod y llety o ansawdd is na thai cymdeithasol. O ystyried y sefyllfa hon, mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi dewis aros yn eu cartrefi a cheisio ymdopi â'r lleihad yn eu Budd-dal Tai.

Nid yw'r rhan fwyaf o gynghorau a chymdeithasau tai yn mynd ati i hyrwyddo cynlluniau lletya a phrin yw'r gefnogaeth ymhlith tenantiaid i dderbyn lletywyr


- 3.28 Mae'r gweinidog diwygio Lles wedi dweud droeon³³ y gallai derbyn lletywyr fod yn ateb i denantiaid tai cymdeithasol o oedran gweithio sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr. Mae llawer o drafod wedi bod ynglŷn â manteision ac anfanteision derbyn lletywyr. Ar yr ochr gadarnhaol, mae lletywyr yn debygol o wneud iawn am unrhyw ddiffyg mewn rhent a thrwy hynny alluogi tenantiaid sy'n tanfeddiannu eu llety i aros yn eu cartref.
- 3.29 Fodd bynnag, mae angen meddwl yn ofalus cyn derbyn lletywr. Mae angen i denantiaid sicrhau eu bod yn cael caniatâd eu landlord cyn derbyn lletywr gan fod llawer ohonynt yn ystyried bod derbyn lletywr heb ganiatâd ysgrifenedig yn dor-rheol. Yn aml, nid oes gan denantiaid yr hawl i dderbyn lletywyr, er enghraifft, os ydynt yn denantiaid rhagarweiniol. Bydd angen i denantiaid lofnodi cytundeb ysgrifenedig â'r lletywr, fel bod y ddwy ochr yn deall y sail dros osod yr ystafell, y cyfnodau rhybudd gofynnol, y dulliau a'r dyddiadau talu rhent, a rheolau'r tŷ. Yn bwysicach, bydd angen i denantiaid hefyd fod yn ofalus ynglŷn â gadael dieithriaid i mewn i'w cartref a sicrhau eu bod yn cynnal rhyw fath o asesiad risg mewn perthynas â'r lletywr cyn cytuno i'w adael i symud i mewn.
- 3.30 Nid yw'n ofynnol i landlordiaid helpu tenantiaid i ddod o hyd i letywyr. O'n gwaith maes, gwelsom amrywiaeth o ddulliau gweithredu o gynghorau a chymdeithasau tai sy'n dewis peidio â hyrwyddo cynlluniau lletya am eu bod yn rhy gymhleth ac am fod y risgiau posibl yn llawer trech nag unrhyw fuddiannau posibl. Serch hynny, mae nifer yn cydnabod ei bod yn ddefnyddiol rhoi gwybodaeth a chyngor i'w tenantiaid, fan lleiaf, i'w helpu i wneud penderfyniad hyddysg³⁴.
- 3.31 Canfu ein harolwg o gynghorau a chymdeithasau tai nad oedd gan y rhan fwyaf o'r sefydliadau hyn - 60 y cant ohonynt - unrhyw gynlluniau i annog cynlluniau lletya fel ffordd o ymdrin ag effaith y penderfyniad i ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr. O fewn y cyfanswm hwn, cynghorau nad oes ganddynt stoc sydd fwyaf cefnogol o gynlluniau lletya gyda 27 y cant ohonynt yn annog y fath gynlluniau o gymharu â 18 y cant o gynghorau sy'n berchen ar stoc a 23 y cant o gymdeithasau tai - **Arddangosyn 10**. O ran tenantiaid, canfu ein harolwg fod 85 y cant wedi penderfynu peidio â derbyn lletywr ac mai dim ond 12 y cant fyddai'n ystyried yr opsiwn hwn.

³³ Er enghraifft, **Inside Housing**, 20 Gorffennaf 2012.

³⁴ Er enghraifft, **Cymdeithas Tai Wales and West**.

Arddangosyn 10 – Hyrwyddo cynlluniau lletya i'r rhai y mae'r penderfyniad i ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr a/neu gyflwyno'r cap ar fudd-daliadau wedi effeithio arnynt

Nid yw'r rhan fwyaf o gynghorau a chymdeithasau tai wedi mynd ati i annog tenantiaid i dderbyn lletywyr.



Ffynhonnell: Arolwg o Gynghorau a Chymdeithasau Tai gan Swyddfa Archwilio Cymru, mis Ionawr i fis Mawrth 2014.

Mae mwy o alw am gartrefi llai o faint i ddiwallu anghenion tenantiaid sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr, ond prin fu'r cynnydd yn y cyflenwad o dai llai o faint sydd ar gael a chyfyngedig fu'r newidiadau i'r llety sydd eisoes ar gael

Ychydig o arian a fuddsoddir yn y gwaith o ddatblygu tai newydd a bydd yn cymryd amser i ddatblygu eiddo newydd

3.32 Am fod angen i fwy na 30,000 o aelwydydd yng Nghymru symud i gartrefi llai o faint, mae'r galw am dai cymdeithasol llai o faint wedi cynyddu'n sylweddol dros y 12 mis diwethaf. Dengys data a gynhyrchwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau fod 25,219 o aelwydydd, ym mis Chwefror 2014, yn byw mewn llety ag un ystafell wely sbâr a bod 5,255 yn byw mewn llety â dwy neu fwy o ystafelloedd gwely sbâr³⁵. Er bod hyn wedi arwain at gynnydd yn y galw am dai llai o faint, ni fu cynnydd yn nifer y cartrefi cymdeithasol llai o faint sy'n cael eu hadeiladu i ateb y galw cynyddol hwn.

³⁵ Yr Adran Gwaith a Phensiynau, **Housing Benefit Claimant Data, Single Housing Benefit Extract (SHBE)**, drwy Stat-Xplore, Chwefror 2014.

- 3.33 Mae prif gyllideb rhaglen y Grant Tai Cymdeithasol³⁶ wedi lleihau'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf gan syrthio o £76.4 miliwn yn 2005-06 i £44.4 miliwn yn 2013-14. Ar nodyn cadarnhaol, buddsoddodd Llywodraeth Cymru £20 miliwn ychwanegol drwy'r Grant Tai Cymdeithasol yn 2013-14 ac mae'n bwriadu buddsoddi £20 miliwn arall drwy'r Grant Tai Cymdeithasol yn 2014-15 a 2015-16 er mwyn datblygu tai llai o faint yn benodol i'r rhai sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr. Gan fod y Grant Tai Cymdeithasol yn cyfrif am 58 y cant o gyfanswm y gost o ddatblygu cartref, amcangyfrifir y bydd y £40 miliwn hwn yn arwain at adeiladu rhwng 650 a 750 o gartrefi yn dibynnu ar faint yr unedau eiddo a ddatblygir a'u lleoliad yng Nghymru³⁷.
- 3.34 Yn ogystal, mae Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn caniatáu i awdurdodau cynllunio lleol ymrwmo i rwymedigaeth neu gytundeb cynllunio cyfreithiol-gyfrwymol gyda datblygwr ynglŷn â mater cysylltiedig er mwyn cyfyngu ar neu reoleiddio gwaith i ddatblygu neu ddefnyddio'r tir. Fel arfer, mae cytundebau Adran 106 yn cynnwys darpariaethau ar gyfer tai cymdeithasol a fforddiadwy ar ddatblygiadau newydd. Mae'r adeiladwr yn darparu'r cartrefi hyn ochr yn ochr â'r cartrefi i'w gwerthu er mwyn cael cymeradwyaeth yr awdurdod lleol i'r datblygiad. Felly, mae lles cynllunio yn egwyddor bwysig y gall cynghorau ei defnyddio i sicrhau tai fforddiadwy newydd ond dim ond 23 y cant o'r cynghorau a'r cymdeithasau tai y gwnaethom eu harolygu a ddywedodd eu bod yn cynyddu eu cyflenwad o gartrefi llai o faint drwy les cynllunio.
- 3.35 Yn wir, mae rhywfaint o amharodrwydd ymhlith cynghorau a chymdeithasau tai i newid pwyslais eu rhaglen ddatblygu er mwyn datblygu mwy o gartrefi llai o faint. Yn gyffredinol, mae landlordiaid tai cymdeithasol o'r farn bod cartrefi un ystafell wely yn ateb anhyblyg ac aneffeithiol i broblemau o ran tai. Ar un pen i'r sbectrwm oedran, mae landlordiaid tai cymdeithasol o'r farn bod eiddo un ystafell wely yn gibddall gan fod aelodau'r grŵp targed yn debygol o gael plant yn y tymor byr i'r tymor canolig ac felly ni fyddant yn gallu tyfu yn y llety. Ar y pen arall, wrth i denantiaid heneiddio, mae eu hanghenion yn newid ac, yn aml, mae angen mwy o le arnynt ar gyfer cynhalwyr neu gyfarpar arbenigol. Cefnogir y farn hon gan ein harolwg o gynghorau a chymdeithasau tai a ganfu, hyd yma, mai dim ond 50 y cant o sefydliadau a oedd wedi newid eu rhaglen ddatblygu o dan y Grant Tai Cymdeithasol er mwyn datblygu tai llai o faint a bod llawer o sefydliadau tai yn amharod i adeiladu nifer fawr o eiddo un ystafell wely er mwyn diwallu anghenion y rhai sy'n gorfod symud i eiddo llai o faint.

Prin y mae'r stoc bresennol o dai cymdeithasol wedi newid ers i'r cymhorthdal ystafell sbâr gael ei ddiddymu

- 3.36 Dim ond un opsiwn o blith yr opsiynau posibl sydd ar gael i gynghorau a chymdeithasau tai yw adeiladu cartrefi newydd er mwyn mynd i'r afael ag effaith y diwygiadau lles. Opsiwn arall yw gwneud defnydd gwell o'r stoc bresennol drwy osod cartrefi gwag i denantiaid y mae angen iddynt symud i eiddo llai o faint neu fuddsoddi arian cyfalaf er mwyn ail-ddylunio eiddo.

³⁶ Grant a roddir gan Lywodraeth Cymru i gymdeithasau tai yw'r Grant Tai Cymdeithasol i'w galluogi i ddarparu tai fforddiadwy newydd i'w rhentu neu'u prynu am gost isel ac mae'n talu tua 58 y cant o'r gost o adeiladu cartref newydd gyda gweddill yr arian yn dod o ffynonellau cyllid preifat.

³⁷ **Using the Acceptable Cost Guidance produced by the Welsh Government (Acceptable Cost Guidance/On-Costs for use with SHG Funded Housing in Wales**, Llywodraeth Cymru, Awst 2012), mae cost fflat un ystafell wely anghenion cyffredinol i ddau berson yn amrywio o £76,000 mewn ardaloedd band un i £98,100 mewn ardaloedd band pump. Am dŷ â dwy ystafell wely i bedwar person, mae'r gost yn amrywio o £113,800 mewn ardaloedd band un i £162,200 mewn ardaloedd band pump.

- 3.37 O'n harolwg a'n gwaith maes, prin yw'r dystiolaeth a welsom fod landlordiaid yn ailddatblygu llety er mwyn creu cartrefi llai o faint, yn dymchwel tai na ellir eu gosod neu yn eu rhoi o'r neilltu, neu'n gwerthu eiddo gwag. Dim ond 21 y cant o gymdeithasau tai sydd wedi ail-gategoreiddio cartrefi er mwyn mynd i'r afael ag effaith y penderfyniad i ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr, roedd 14 y cant yn gwneud gwaith i leihau nifer yr ystafelloedd gwely ond nid oedd gan y rhan fwyaf ohonynt - 57 y cant - unrhyw gynlluniau i wneud unrhyw newidiadau.
- 3.38 O'r 50 o sefydliadau a ymatebodd i'n harolwg, dywedodd 77 y cant nad ydynt wedi datgomiysynu nac wedi rhoi unrhyw lety o'r neilltu a dywedodd 75 y cant nad ydynt wedi dymchwel eiddo na ellir ei osod ac nad ydynt yn rhagweld y byddant yn gwneud hynny yn y dyfodol. Gwnaethom ganfod mai dim ond 2 y cant o sefydliadau tai sydd wedi gwerthu cartrefi sy'n anodd i'w gosod ac nid oes gan y rhan fwyaf ohonynt - 72 y cant - unrhyw gynlluniau i waredu tai sy'n anodd i'w gosod ar hyn o bryd. Mae'r rhan fwyaf o landlordiaid tai cymdeithasol o'r farn y dylid aros i weld effaith lawn y diwygiadau lles cyn gwneud penderfyniadau strategol ynglŷn â sut i fynd i'r afael â'u cartrefi gwag sy'n anodd i'w gosod.
- 3.39 Gan mai prin yw'r opsiynau sydd ar gael iddynt helpu tenantiaid i symud ac am fod llawer o denantiaid yn ei chael hi'n fwyfwy anodd ymdopi â llai o incwm, mae'r holl landlordiaid cymdeithasol yn ymwybodol o bwysigrwydd rhoi cyngor ar arbed ynni a buddsoddi yn eu cartrefi er mwyn eu gwneud yn fwy ynni effeithlon. Bydd hyn yn gwella ansawdd y tai yn ogystal â mynd i'r afael â'r costau tanwydd cynyddol sy'n wynebu tenantiaid ac yn helpu'r rhai ar incwm isel i reoli eu harian ac osgoi ôl-ddyledion rhent. Fodd bynnag, o'n harolwg, canfuwyd mai dim ond 28 y cant o landlordiaid sy'n targedu gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni er mwyn cynyddu cyllidebau'r rheini sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr yn benodol, fel rhan o waith eu rhaglenni cyfalaf yn y dyfodol.

Does dim tŷ dwy ystafell wely yn y dref rwy'n byw ynddi imi symud iddo. Rwy wedi treulio 15 mlynedd yn addurno fy nhŷ a dwi ddim am adael. Rwy ond yn gallu cadw deupen llinyn ynghyd nawr am fy mod i'n cael Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn, ond dim ond am chwe mis mae'r taliadau hyn ar gael. Ar ôl hynny, efallai y bydd yn rhaid imi ystyried gadael fy ngwaith a mynd ar fudd-daliadau'n llawn amser, oherwydd bydda i'n cael mwy o arian.

Ces i wybod bod yn rhaid imi dalu a gwnaethon nhw argymhell y dylwn i symud i gartref llai o faint, ond rwy wedi bod mewn cadair olwyn ers 30 mlynedd ac mae'r tŷ hwn wedi cael ei addasu imi. Hefyd, mae gen i grŵp cymorth o 'nghwmpas i. Anfonodd y cyngor lythyr ata' i yn bygwth fy nhroi allan, er imi gael fy nghynghori i beidio â thalu dim nes bod yr apêl wedi cael ei chynnal.

Rwy'n gwybod bod angen tair ystafell wely ar bobl, rwy'n fodlon symud i gartref llai o faint ond does dim tai ar gael. Roeddwn i ar y rhestr Cyfnewid Tai cyn y dreth. Rwy wedi byw yma ers dros 16 o flynyddoedd ac mae'n amser anodd iawn imi.



Darlun cymysg sydd gennym o'r ffordd y mae cynghorau a chymdeithasau tai yn helpu tenantiaid sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr i gael gwaith llawn amser

- 3.40 Mae Llywodraeth y DU am i bobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol gyfrannu'n llawn ym mhob rhan o gymdeithas. Mae'n gwybod bod buddiannau cyflogaeth yn ehangach na'r budd ariannol a geir drwy'r cynnydd mewn incwm. Yn 2007, cyhoeddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau ei hadroddiad annibynnol: Reducing dependency, increasing opportunity: options for the future of welfare to work. Mae'r adroddiad yn pwysleisio bod cysylltiad agos rhwng anweithgarwch economaidd a thai cymdeithasol gan fod cyfraddau diweithdra ac anweithgarwch bron ddwywaith yn fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae dros draean yr holl bobl sydd heb waith ym Mhrydain Fawr yn byw mewn tai cymdeithasol ac mae dros hanner y bobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol yn ddi-waith³⁸.
- 3.41 Awgryma ymchwil gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol fod pobl o aelwydydd heb waith yn wynebu amrywiaeth o rwystrau o ran cyflogaeth³⁹. Yn ôl amcangyfrifon y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, nid oes gan dros draean yr aelwydydd heb waith unrhyw aelodau â chymwysterau; mae gan hanner yr holl oedolion sy'n byw mewn aelwydydd heb waith ryw fath o anabled hirdymor; mae dros 60 y cant o'r aelwydydd heb waith wedi bod heb waith am fwy na thair blynedd; ac mae gan dros draean yr aelwydydd heb waith gyfrifoldebau am blant a chyfrifoldebau gofal. Gyda'i gilydd, mae lefelau sgiliau isel ynghyd â sgiliau gwan ym maes chwilio am swyddi a rhwydweithiau cymdeithasol gwael yn golygu ei bod yn anodd i denantiaid tai cymdeithasol gael a chadw swyddi.
- 3.42 Yn yr un modd, mae Llywodraeth Cymru yn sylweddoli ei bod yn bwysig cynyddu cyflogaeth ymhlith tenantiaid tai cymdeithasol. Mae dod o hyd i swydd yn helpu tenantiaid i oresgyn sefyllfaoedd o allgáu ariannol; mae'n helpu i fynd i'r afael â phroblemau fel tlodi plant ac yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd tenantiaid yn mynd i ôl-ddyledion rhent. O ystyried y cyd-destun hwn, ynghyd â'r lleihad yn incwm y Budd-dal Tai, mae'n bwysig bod cymdeithasau tai a chynghorau yn cynorthwyo'r rhai sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr i gael swyddi.
- 3.43 Ar nodyn cadarnhaol, mae gan nifer o gynghorau drefniadau â'r Ganolfan Byd Gwaith i roi cyngor a chymorth cyflogaeth i denantiaid, naill ai drwy gytundeb ffurfiol sy'n nodi priodrolau'r sefydliadau neu drwy gyfeirio tenantiaid at y gwasanaethau hynny. Er enghraifft, gwelsom fod staff Cyngor Sir Penfro yn cyfarfod â staff y Ganolfan Gwaith bob chwarter a bod y Cyngor yn cyfeirio tenantiaid at y Ganolfan Byd Gwaith i gael cyngor a chymorth cyflogaeth.
- 3.44 Mae cynghorau eraill fel Cyngor Dinas Caerdydd wedi datblygu canolfannau gwybodaeth a chynghori sy'n ceisio helpu pobl i fynd yn ôl i weithio drwy roi cymorth iddynt lunio eu CV, cwblhau ceisiadau swydd a hyfforddiant ar sgiliau cyfweld. Yn yr un modd, mae Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn cynnal cymorthfeydd wythnosol lle gall aelodau o'r cyhoedd alw heibio i gael cyngor ar fudd-daliadau lles ac mae wedi recriwtio swyddog cynhwysiant ariannol.

38 Yr Adran Gwaith a Phensiynau Gwasanaethau Dogfennau Corfforaethol, **Reducing dependency, increasing opportunity: options for the future of welfare to work**, 2007

39 Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, **Helping people from workless households into work**, 2007

- 3.45 Canfu ein harolwg o gynghorau a chymdeithasau tai fod 40 y cant o gynghorau a chymdeithasau tai yn rhoi cyfle i denantiaid ddilyn cynlluniau hyfforddi er mwyn cynyddu eu rhagolygon cyflogaeth a bod 31 y cant arall yn bwriadu gwneud hynny. Dim ond 26 y cant o gynghorau a chymdeithasau tai a ddywedodd nad oeddent yn bwriadu gwneud hynny. Dywedodd 48 y cant o gynghorau a chymdeithasau tai eu bod yn targedu prentisiaethau at denantiaid a dywedodd 31 y cant arall eu bod yn bwriadu gwneud hynny. Dim ond 19 o gynghorau a chymdeithasau tai a ddywedodd nad oeddent yn bwriadu gwneud hynny a dywedodd 12 y cant nad oeddent wedi penderfynu eto.
- 3.46 Fodd bynnag, dim ond 24 y cant o gynghorau a chymdeithasau tai a oedd wedi mynd ati'n benodol i dargedu tenantiaid sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr er mwyn eu hannog i gymryd rhan mewn cynlluniau cyflogaeth rhanbarthol/cenedlaethol. Tra bod 29 y cant arall yn bwriadu gwneud hynny yn y dyfodol, dywedodd cyfran sylweddol - 40 y cant - nad oedd ganddynt unrhyw gynlluniau i wneud hynny.
- 3.47 Hefyd, nid yw'r rhan fwyaf o'r tenantiaid y gwnaethom gysylltu â hwy wedi gweld nac yn disgwyl gweld newid yn eu hamgylchiadau cyflogaeth. Yn wir, er bod llawer o'r tenantiaid y gwnaethom siarad a chyfweld â hwy yn cydnabod mai cyflogaeth yw'r opsiwn allweddol er mwyn osgoi allgáu ariannol, nid yw cyfran fawr o'r rhai sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr yn mynd ati i geisio cyflogaeth. Canfu ein harolwg o denantiaid mai dim ond 12 y cant ohonynt sydd â swyddi llawn amser neu ran-amser; mae 17 y cant yn ddi-waith ac wrthi'n chwilio am swydd; mae 8 y cant yn ddi-waith ac nid ydynt yn chwilio am swydd. Dywedodd y 63 y cant arall eu bod yn methu â chael swydd am amrywiaeth o resymau ac nad oeddent yn rhagweld y byddent yn gweithio yn y dyfodol.

Cynyddodd Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a Llywodraeth Cymru £5.1 miliwn yn 2013-14 ond mae anghysondebau a gwendidau sylweddol i'w gweld yn y ffordd y caiff y taliadau hyn eu dyrannu, eu dosbarthu, eu gweinyddu a'u defnyddio

- 3.48 Un opsiwn i hawlwr sy'n wynebu diffyg yw gwneud cais i'r awdurdod lleol am Daliad Tai yn ôl Disgresiwn (DHP). Caiff DHP ei ystyried yn gynyddol fel ffynhonnell bwysig o arian i fynd i'r afael ag effaith y penderfyniad i ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr. Er enghraifft, drwy ein harolwg o gynghorau a chymdeithasau tai, gwnaethom ganfod, ers i'r cymhorthdal ystafell sbâr gael ei ddiddymu ym mis Ebrill 2013, fod 91 y cant o gynghorau sy'n rheoli tai wedi bod yn hyrwyddo DHP ymhlith tenantiaid a bod y 9 y cant arall yn bwriadu gwneud hynny. Yn yr un modd, mae 90 y cant o gymdeithasau tai yn hyrwyddo'r Taliadau, mae 6 y cant yn bwriadu gwneud hynny a dim ond 4 y cant a ddywedodd nad ydynt yn bwriadu annog tenantiaid i wneud cais am DHP. Hefyd, dywedodd pob cyngor - 100 y cant - bod y defnydd o DHP wedi cynyddu'n sylweddol, o gymharu â 77 y cant o gymdeithasau tai.

- 3.49 Er mwyn bod yn gymwys i gael DHP, yr unig amod yw bod yn rhaid bod diffyg rhwng swm y budd-dal y gall unigolyn ei hawlio a'r rhent, ond fel arfer bydd y cyngor yn ystyried amgylchiadau arbennig sy'n cyfrannu at anawsterau ariannol. Mae DHP yn gronfa annatganoledig a weinyddir yn lleol y gellir ei defnyddio i helpu â chostau tai. Rhagnodir prif ddiben DHP yn Rheoliadau Cymorth Ariannol yn ôl Disgresiwn 2001, ond mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi disgresiwn sylweddol iawn i gynghorau. Ers hynny, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cyhoeddi canllawiau ychwanegol⁴⁰ sy'n rhoi manylion sut y dylai cynghorau weinyddu taliadau. Serch hynny, mae'r canllawiau hyn yn dal i ddarparu fframwaith eang iawn sy'n rhoi disgresiwn lleol sylweddol i gynghorau ddewis sut i weinyddu DHP.
- 3.50 Nid oes unrhyw ddyletswydd ar gynghorau i wneud DHP - fel arfer, ni chânt eu talu am byth. Er y caiff DHP ei roi er mwyn talu am gostau tai, ni chaiff y costau hyn eu diffinio yn y rheoliadau, sy'n golygu bod gan gynghorau gryn ddisgresiwn i ddehongli'r term. Yn gyffredinol, mae costau tai yn golygu rhwymedigaethau rhent ond mae'r canllawiau hefyd yn nodi y gellir eu dehongli'n ehangach i gynnwys blaensymiau rhent; blaendaliadau; neu gyfandaliadau eraill sy'n gysylltiedig ag anghenion o ran tai, fel costau symud eiddo. Fodd bynnag, am mai cronfa yn ôl disgresiwn yw hon, gall cynghorau ddewis p'un a fyddant yn dehongli 'costau tai' mewn ffordd eang neu gul.
- 3.51 Mae'r rheoliadau yn ei gwneud hi'n ofynnol i unigolion wneud cais am DHP cyn y gall cyngor ystyried gwneud taliad. Fodd bynnag, mae'r canllawiau yn nodi nad yw hyn o reidrwydd yn golygu bod yn rhaid cael ffurflen gais ysgrifenedig ac y gall cynghorau ddewis derbyn ceisiadau drwy ddulliau eraill, er enghraifft, dros y ffôn, neu'n electronig. Er y gall cynghorau benderfynu beth a gaiff ei ystyried yn gais, mae ganddynt ddyletswydd i weithredu mewn ffordd gyson. Mae hyn yn anodd iawn pan nad oes unrhyw safonau gofynnol penodedig ar waith mewn perthynas â'r broses gwneud cais. Rhaid hysbysu'r ymgeisydd yn ysgrifenedig cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol am benderfyniad cyngor i ddyfarnu neu beidio â dyfarnu DHP. Fodd bynnag, ni ddiffiniwyd amserlen ar gyfer gwneud penderfyniadau ac unwaith eto, mater i'r cynghorau yw pennu'r amserlen honno.
- 3.52 Er bod y canllawiau hyn yn rhoi cryn ddisgresiwn i gynghorau o ran y ffordd y gallant ddewis gweinyddu DHP, mae'n nodi'n glir y dylent fod yn ymwybodol bod yn rhaid iddynt wneud penderfyniadau yn unol â'r egwyddorion cyffredin ar gyfer gwneud penderfyniadau da, h.y. cyfraith weinyddol. Yn benodol, mae dyletswydd ar gynghorau i ymddwyn mewn ffordd deg, resymol a chyson. Rhaid penderfynu ar bob achos yn unigol a dylai'r cynghorau wneud penderfyniadau cyson drwy gydol y flwyddyn. Am fod DHP yn cael ei ddyfarnu yn ôl disgresiwn, nid oes hawl i apelio i Dribiwnlys Nawdd Cymdeithasol, ond mae'r canllawiau yn nodi bod hawl gan ymgeisydd i wneud cais am Adolygiad Barnwrol o benderfyniad o hyd.


40 Yr Adran Gwaith a Phensiynau, **Discretionary Housing Payments Guidance Manual – Including Local Authority Good Practice Guide**, Ebrill 2013.

Nid yw'r Adran Gwaith a Phensiynau yn dosbarthu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn ar sail angen

- 3.53 Mae maint cronfeydd DHP cynghorau yng Nghymru yn amrywio'n sylweddol. Y rheswm am hyn yw bod yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dyrannu arian ar sail fformiwla sydd, yn ei hanfod, yn golygu bod dyraniad cynghorau yn cynyddu po fwyaf o arian y maent yn ei wario ar Fudd-dal Tai. Os bydd cyngor yn penderfynu ychwanegu ei arian ei hun at ddyraniad yr Adran Gwaith a Phensiynau - gall ychwanegu hyd at ddwywaith a hanner yn fwy o arian na dyraniad yr Adran Gwaith a Phensiynau - yna caiff fwy o arian y flwyddyn ganlynol. I'r gwrthwyneb, os na fydd cyngor yn dewis gwario dyraniad yr Adran Gwaith a Phensiynau i gyd, caiff lai o arian y flwyddyn ganlynol. Felly, mae maint y dyraniad DHP yn adlewyrchu'r flaenoriaeth y mae cynghorau wedi'i rhoi i sicrhau bod DHP ar gael i'r cyhoedd, nid nifer y bobl sydd angen cymorth ariannol mewn perthynas â thai na'r amrywiaeth o gostau tai sy'n gymwys i gael cymorth ym marn y cyngor.
- 3.54 Yn ystod y ddwy flwyddyn ariannol ddiwethaf mae swm yr arian a fuddsoddwyd mewn DHP yng Nghymru wedi cynyddu 304 y cant o £2.5 miliwn yn 2012-13 i £7.6 miliwn yn 2013-14 - **Arddangosyn 11**. Daw'r rhan fwyaf o'r arian hwn oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau ond darparodd Llywodraeth Cymru £1.3 miliwn ar gyfer 2013-14 hefyd er mwyn ychwanegu at y gyllideb o £5.3 miliwn a ddyrannwyd gan yr Adran i gynghorau yng Nghymru ar gyfer DHP. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd wedi rhoi blaenoriaeth i ddyrannu arian i gynghorau mewn ardaloedd gwledig.

Arddangosyn 11 – Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yng Nghymru 2012-13 a 2013-14

Caiff dros £7 miliwn ei wario ar DHP yng Nghymru erbyn hyn a chynyddodd y gyllideb 304 y cant rhwng 2012-13 a 2013-14




Ffynhonnell: Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yng Nghymru 2012-13 a 2013-14: Effeithiau Newidiadau i'r System Lles ar y Sector Rhentu Cymdeithasol, Adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru, mis Chwefror 2014.

3.55 Mae dosbarthiad DHP yn ôl nifer yr hawlwr yn dangos mai £30.56 oedd swm cyfartalog DHP fesul hawlydd yng Nghymru yn 2013-14. Dim ond pedwar cyngor sy'n darparu DHP sy'n uwch na'r swm hwn ar hyn o bryd ac mae tri ohonynt, sef Gwynedd, Ceredigion a Phowys, yn darparu DHP sydd ddwywaith yn fwy na chyfartaledd Cymru. Mae'r cyngorau hynny sy'n darparu'r DHP isaf yn cynnwys rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, lle ceir lefelau uchel o ddiweithdra, iechyd gwael ac angen sylweddol o ran tai, fel Merthyr Tudful a Blaenau Gwent. Felly mae DHP wedi dod yn ffynhonnell gymorth fwy amlwg i denantiaid tai cymdeithasol wneud cais amdani ar ôl i'r cymhorthdal ystafell sbâr gael ei ddiddymu ac ar ôl i'r cap ar fudd-daliadau gael ei gyflwyno. Wrth gymharu dyraniadau DHP â nifer y bobl y mae'r penderfyniad i ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr a chyflwyno'r cap ar fudd-daliadau wedi effeithio arnynt, gwelwyd bod y newidiadau hyn yn berthnasol i ryw 33,406 o denantiaid tai cymdeithasol ym mis Rhagfyr 2013. Roedd dosbarthiad y niferoedd dan sylw yn amrywio o 408 yng Ngheredigion i 3,301 yng Nghaerdydd - **Arddangosyn 12**.

Arddangosyn 12 – Nifer y bobl y mae'r penderfyniad i Ddiddymu'r Cymhorthdal Ystafell Sbâr a chyflwyno'r Cap ar Fudd-daliadau wedi effeithio arnynt, fesul Cyngor - Rhagfyr 2013

Mae swm y DHP sydd gan gynghorau yn amrywio'n fawr.



Ffynhonnell: Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yng Nghymru 2012-13 a 2013-14: Effeithiau Newidiadau i'r System Les ar y Sector Rhentu Cymdeithasol, Adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru, mis Chwefror 2014.

- 3.56 Yn ôl ein dadansoddiad o lefelau gwariant DHP cynghorau o gymharu â nifer y tenantiaid tai cymdeithasol y mae'r newidiadau hyn wedi effeithio arnynt, mae gan rai o'r cynghorau sydd â'r nifer isaf o denantiaid tai cymdeithasol y mae'r cap ar fudd-daliadau a'r penderfyniad i ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr wedi effeithio arnynt, rai o'r dyraniadau DHP uchaf. Ceredigion sydd â'r nifer isaf o bobl y mae'r newidiadau hyn wedi effeithio arnynt ond mae ganddi'r gyfran gwariant uchaf ond un. Yn yr un modd, mae Powys yn y seithfed safle isaf o ran nifer a'r trydydd safle uchaf o ran cyfran DHP.
- 3.57 Yn baradocsaidd, mae gan rai o'r cynghorau sydd â'r nifer fwyaf o denantiaid tai cymdeithasol y mae'r newidiadau hyn wedi effeithio arnynt, rai o'r lefelau DHP isaf. Mae Abertawe, Rhondda Cynon Taf a Chaerffili yn yr ail, trydydd a'r pedwerydd safle uchaf, yn y drefn honno, o ran nifer y tenantiaid tai cymdeithasol y mae'r cap ar fudd-daliadau a'r penderfyniad i ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr wedi effeithio arnynt. Fodd bynnag, ar sail cyfran y gwariant o gymharu â'r niferoedd dan sylw, maent yn yr wythfed, y seithfed a'r ail safle isaf yn y drefn honno.

Mae anghysondebau a gwendidau yn y ffordd y mae cynghorau yn gweinyddu taliadau

- 3.58 Mae'n bwysig darparu gwybodaeth hygrych o ansawdd uchel am DHP er mwyn galluogi'r rhai y mae angen cymorth arnynt i gael yr adnoddau ariannol y mae ganddynt hawl i wneud cais amdanynt. Er mwyn i gynghorau gyflawni eu cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â DHP yn llwyddiannus, rhaid bod ganddynt bolisiau a phrosesau ymgeisio clir a gaiff eu cyfathrebu'n eang, sy'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion y cyhoedd. Nid yw gwasanaeth cynhwysol, sydd wedi'i gynllunio'n dda yn effeithiol os nad yw darpar ddefnyddwyr yn ymwybodol ohono neu os caiff ei ddisgrifio mewn ffordd sy'n golygu nad ydynt yn gweld ei fod yn berthnasol iddynt.
- 3.59 Canfu ein hadolygiad o'r ffordd y mae cynghorau yn rheoli DHP rai gwendidau sylweddol o ran trefniadau polisi a gwybodaeth presennol:
- Nid oedd gan 17 o'r 22 o gynghorau bolisi neu ganllaw clir ar DHP sydd ar gael ar-lein i'r cyhoedd, ac nid oedd gan 11 ohonynt ffurflen ar-lein i wneud cais am DHP. Mae'r ffaith nad oes digon o wybodaeth ar gael i gwsmeriaid na dogfennau polisi clir yn cyfyngu ar allu'r rheini sy'n ceisio cymorth i gael y cymorth y mae ganddynt hawl iddo.
 - Mewn 13 o'r 22 o gynghorau, ni chaiff y costau tai cymwys y gellir eu talu gan ddefnyddio DHP eu diffinio na'u hesbonio'n glir mewn ffurflenni cais, dogfennau polisi na thafllenni canllaw i ymgeiswyr. Yn yr un modd, nid oedd 11 o gynghorau wedi diffinio costau tai anghymwys yn glir chwaith. Heb y wybodaeth hon, mae ymgeiswyr yn ansicr a allant gael cymorth ai peidio, a allai eu darbwylllo rhag gwneud cais.

- c Er bod gan gynghorau ddisgresiwn i ddyfarnu DHP am unrhyw gyfnod (h.y., cyfnod penodol neu ddiderfyn), gwelsom fod yr amodau ar gyfer talu DHP yn amrywio'n sylweddol. Roedd y rhain yn amrywio o arian a oedd ar gael am ddiwrnod i arian a oedd ar gael am hyd at 12 mis. Mewn chwe chyngor, y cyfnod dyfarnu hwyaf posibl yw 12 mis; mewn tri chyngor, dywedir mai chwech mis yw'r cyfnod hwyaf; ac mewn dau gyngor, tri mis yw'r cyfnod hwyaf. Fodd bynnag, nid oedd 11 o gynghorau wedi nodi am ba hyd y byddai derbynwyr yn gymwys i gael DHP.
- ch Nid oedd 12 o'r 22 o gynghorau wedi nodi'r amserlen ar gyfer penderfynu ar geisiadau am DHP. Yn achos y rheini a oedd wedi cynnwys y wybodaeth hon, amrywiai'r amserlen o 10 diwrnod i fis. Mae pennu amserlenni yn bwysig i ymgeiswyr gan ei fod yn rhoi gwybodaeth hollbwysig i'w galluogi i gynllunio sut i ddefnyddio eu hadnoddau.
- d Nid oedd pedwar cyngor wedi cynnwys unrhyw wybodaeth am ba un a oeddent yn cynnig adolygiad neu apêl pe bai ymgeisydd yn anfodlon ar benderfyniad gwreiddiol y cyngor ar ei gais. O'r 18 sydd wedi sefydlu prosesau adolygu, dim ond pedwar a oedd wedi cynnwys gwybodaeth am hawl ymgeisydd i adolygiad barnwrol. Roedd cadernid y prosesau adolygu yn amrywio'n sylweddol hefyd gyda phedwar cyngor yn cynnig dwy lefel o adolygiadau a gynhelir gan swyddogion, 12 yn cynnal adolygiadau un cam a arweinir gan swyddog, ac mewn dau gyngor, câi apeliadau eu hystyried gan banel o gynghorwyr, nid swyddogion.

3.60 O gofio'r cynnydd mewn adnoddau a'r nifer fawr o bobl sydd angen cymorth ariannol, mae'n briodol i gynghorau nodi'n glir y flaenoriaeth gymharol a roddir i grwpiau gwahanol pan fyddant yn penderfynu p'un a ddylid dyrannu DHP yn eu hardal. Yn wir, mae canllawiau'r Adran Gwaith a Phensiynau yn nodi y bydd angen i gynghorau ystyried y ffordd orau o dargedu'r arian o fewn eu grwpiau â blaenoriaeth. Mae'r canllawiau yn cynnwys rhestr o gleientiaid posibl y gellid rhoi blaenoriaeth iddynt, gan gynnwys:

- a pobl ifanc sy'n gadael gofal yr awdurdod lleol;
- b teuluoedd sy'n destun ymyriadau gan y gwasanaethau cymdeithasol, er enghraifft, oedolion hynod ddibynnol, plant mewn perygl neu deuluoedd sy'n cymryd rhan mewn prosiect ymyriadau teuluol;
- c pobl y bu'n rhaid iddynt ffoi rhag trais domestig neu sydd wedi symud am eu bod yn wynebu bygythiad o drais mewn ardal arall;
- ch pan fo rhywun yn yr aelwyd yn feichiog (gan gynnwys y rhai sy'n byw mewn llety a rennir ar hyn o bryd neu sy'n destun camau lleihau tanfeddiannu);
- d pobl a arferai fod yn ddigartref sy'n cael cymorth i setlo yn y gymuned; neu

dd os oes gan yr hawlydd neu rywun yn ei aelwyd anabledd sy'n golygu bod yn rhaid iddo gael eiddo llawer mwy nag y byddai ei angen fel arfer ar gyfer maint ei aelwyd oherwydd, er enghraifft, bod ganddo gyflawr meddygol a allai ei atal rhag rhannu ystafell wely.

- 3.61 Fodd bynnag, gwelsom mai ychydig iawn o gynghorau yng Nghymru sydd wedi diffinio eu blaenoriaethau'n glir yn eu deunyddiau cyhoeddus. Mae'r gwendid hwn yn ei gwneud hi'n anodd i'r rhai sy'n ceisio cymorth, a'r asiantaethau sy'n eu cynorthwyo, i asesu p'un a yw DHP yn opsiwn hyfyw i ddiwallu eu hanghenion ariannol a'u hanghenion o ran tai yn y tymor byr. Mae'r prinder manylion presennol am flaenoriaethau lleol hefyd yn ei gwneud hi'n anodd i gynghorau sicrhau eu bod yn gwneud penderfyniadau cyson, sef un o ofynion allweddol canllawiau'r Adran Gwaith a Phensiynau.
- 3.62 Mae gwendidau deunyddiau cyhoeddus ac amrywiadau lleol mewn polisi yn golygu y gall pobl sydd ag anghenion o ran tai ac sy'n ei chael hi'n anodd talu eu rhent, gael safonau gwahanol iawn o wasanaeth oherwydd y fformiwla a ddefnyddir i ddsbarthu DHP. Hefyd, am fod gan gynghorau gryn ddisgresiwn i ddewis sut yr hoffent weinyddu eu dyraniad DHP, gall pobl sydd â'r un anghenion gael safonau gwahanol iawn o wasanaeth yn seiliedig ar ble y maent yn byw ac nid eu hamgylchiadau neu'u hanghenion.
- 3.63 Cefnogir hyn gan y tenantiaid a arolygwyd gennym gan mai dim ond 24.3 y cant a oedd wedi gwneud cais llwyddiannus am DHP ac mae'r adborth a gawsom gan denantiaid yn tynnu sylw at amrywiadau sylweddol yn ansawdd a safon y gwasanaeth a roddir i bobl.


Y llynedd, daeth rhywun i 'ngweld i er mwyn fy helpu i wneud cais am Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn. Dywedodd nad oedd angen imi dalu'r swm dyledus am fy mod i'n bendant yn gymwys i gael DHP. Cafodd fy nghais ei wrthod, ond es i ddim ar drywydd y mater ymhellach. Mae gen i nawr ddyled o £500 ac rwy'n wynebu cael fy nhroi allan.

Mae e'n wych. Llenwodd y ffurflenni ar fy rhan i a llwyddais i gael DHP tan fis Mawrth. Os oes gen i unrhyw broblemau, rwy'n ei ffonio ac mae e'n fy helpu. Mae'n rhoi gwybod imi am unrhyw bethau newydd y mae'n clywed amdany'n nhw, a allai fod o gymorth imi. Awgrymodd e y dylwn i symud i gartref llai o faint, ond does dim tai un ystafell wely ar gael imi symud iddyn nhw.

Maen nhw'n gwneud cymaint ag y gallan nhw i helpu. Fe aethon nhw drwy'r holl reolau a rheoliadau ac fe wnaethon nhw fy nghyfeirio at DHP a llwyddais i gael hwnnw am rai misoedd. Gwnaethon nhw drafod fy opsiynau i symud ond ni allan nhw wneud dim chwaith – nid nhw sydd ar fai oherwydd does dim eiddo addas ar gael.

Cynigiodd y landlord gyngor ynglŷn â'i ddiben a rhoddodd wybod imi am fy opsiynau i ddelio ag ef; fel symud tŷ. Wnaeth e ddim crybwyll y Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn.

Dim ond anfon tafleni a gwnaeth y cyngor wrthod fy nghais am DHP. Helpodd y Gymdeithas Dai ni i gael yr arian nôl ac fe gawson ni ad-daliad, ond dydyn ni ddim yn siŵr nawr a fydd yn rhaid inni ddechrau talu unwaith eto ym mis Ebrill.



Rhan 4

Dywed cynghorau a chymdeithasau tai fod yn rhaid iddynt wario mwy er mwyn delio â rhai o effeithiau'r diwygiadau lles ac y bydd y risgiau sy'n eu hwynebu yn cynyddu'n sylweddol yn sgil newidiadau yn y dyfodol



- 4.1 Cadarnhaodd y Ddeddf Diwygio Lles (Mawrth 2012) nifer o newidiadau i'r system fudd-daliadau a gaiff eu cyflwyno rhwng 2013 a 2017 a fydd, ym marn Llywodraeth y DU, yn arwain at leihau gwariant ar Fudd-dal Tai. Yn yr adran flaenorol o'r adroddiad hwn, rydym wedi nodi bod y newidiadau hyn wedi arwain at leihad sylweddol mewn budd-daliadau cysylltiedig â thai a budd-daliadau eraill i lawer o denantiaid tai cymdeithasol.
- 4.2 Yn y rhan olaf hon o'r adroddiad, ystyriwn effaith y newidiadau hyn ar amgylchedd gweithredu uniongyrchol cynghorau a chymdeithasau tai a'r pryder cynyddol bod y newidiadau hyn wedi creu costau net ychwanegol posibl i denantiaid, landlordiaid, awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd a'r sector gwirfoddol, yn hytrach na chreu arbedion.

Yn ôl landlordiaid tai cymdeithasol, mae'n rhaid iddynt fuddsoddi mwy mewn adnoddau er mwyn rheoli cartrefi gwag a chasglu rhent

- 4.3 Mae diwygiadau lles yn cael effeithiau sylweddol ar gynghorau a landlordiaid tai cymdeithasol. O'n gwaith maes, gwnaethom ganfod fod yn rhaid i lawer o gynghorau a chymdeithasau tai nawr roi mwy o wybodaeth a chynghor ar swyddi a budd-daliadau, mynd i'r afael â thlodi tanwydd ac ymateb i argyfyngau drwy gronfeydd caledi a chymorth i fanciau bwyd. Yn gynyddol, maent yn rhoi cynghor i denantiaid ar ymdopi â rhenti, taliadau'r Dreth Gyngor, a biliau bwyd ac ynni. O ganlyniad i lawer o'r newidiadau hyn, mae cynghorau a chymdeithasau tai hefyd wedi gorfod neilltuo mwy o amser ac adnoddau i wasanaethau rhent flaen ac mae'r gwaith rheoli tai craidd bellach yn fwy llafurus. Yn arbennig, mae'n rhaid i ddarparwyr tai gynnal archwiliadau mwy trylwyr i ganfod p'un a all ymgeiswyr newydd fforddio'r rhent.
- 4.4 O'n harolwg o gynghorau a chymdeithasau tai, gwnaethom ganfod bod 36 y cant o landlordiaid wedi gweld cynnydd sylweddol yn eu costau am reoli ôl-ddyledion rhent ar ôl i'r cymhorthdal ystafell sbâr gael ei ddiddymu; mae 38 y cant wedi gweld cynnydd bach mewn costau rheoli; a dywedodd 26 y cant nad ydynt wedi gweld unrhyw newid o gwbl. Hefyd, bu'n rhaid i 33 y cant recriwtio nifer sylweddol o aelodau staff newydd er mwyn rheoli effaith y penderfyniad i ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr; mae 45 y cant wedi gweld cynnydd bach mewn niferoedd staff; a dywedodd 22 y cant nad ydynt wedi recriwtio staff o ganlyniad i'r newidiadau i Fudd-dal Tai.
- 4.5 O safbwynt rheoli a gosod cartrefi gwag, canfu ein hymchwil fod 26 y cant o landlordiaid tai cymdeithasol wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y cartrefi gwag, bod 48 y cant wedi gweld cynnydd bach a bod 26 y cant heb weld unrhyw newid. I lawer o landlordiaid, fodd bynnag, mae'r ysgogwyr dros osod tai wedi newid yn sylweddol a bellach mae'n rhaid iddynt wneud mwy na diwallu'r angen am dai yn unig - mae'n rhaid iddynt sicrhau bod y llety yn fforddiadwy ac yn bodloni'r canllawiau ar feini prawf maint eiddo'r Budd-dal Tai.

- 4.6 Er mwyn sicrhau bod gosodiad yn hyfyw, mae landlordiaid cymdeithasol, felly, yn craffu'n fanylach ar sefyllfa ariannol tenantiaid newydd ac mae pryder ymhlith asiantaethau cyngor fod rhai o'r ymgeiswyr tlotaf (p'un a ydynt yn gweithio ai peidio) yn cael eu gwrthod a'u cynghori i wneud cais rhywle arall. Felly, wrth benderfynu pwy y dylid eu lletya, rhaid meddwl, nid yn unig am y rhai â'r angen mwyaf, ond hefyd y rheini sy'n peri risg isel o ran taliadau ac sy'n gallu fforddio rhentu cartref yn y tymor canolig i'r tymor hir.
- 4.7 Mae newidiadau i Fudd-daliadau Tai hefyd yn codi pryderon ymhlith darparwyr tai cymdeithasol y gallai ôl-ddyledion rhent gynyddu. Gwelsom nad oedd unrhyw landlord, o ganlyniad i'r diwygiadau lles, wedi newid y math o denantiaethau a ddefnyddir i osod tai er mwyn gwneud eiddo yn llai diogel, ond roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi diwygio eu polisïau ar gyfer rheoli ôl-ddyledion rhent ac ymdrin â hwy.
- 4.8 Mynegodd y rhan fwyaf o landlordiaid bryder hefyd fod rheoli cyfrifon rhent bellach yn dasg llawer mwy llafurus nag o'r blaen a'u bod wedi gorfod recriwtio mwy o staff y mae angen iddynt fod mewn cysylltiad personol agos ac amlach â thenantiaid. Roedd hyn wedi arwain at ddulliau newydd o weithredu a newid diwylliannol i landlordiaid wrth iddynt bwysu a mesur penderfyniadau gosod yn erbyn diwallu'r angen o ran tai ond gan ganolbwyntio mwy hefyd ar reoli incwm a lleihau dyled.
- 4.9 Mae angen sgiliau gwahanol iawn ar staff bellach wrth iddynt ganolbwyntio mwy ar waith rheoli dyled dwys, adennill rhent a chyngor ariannol. Cefnogir hyn gan ein harolwg o landlordiaid tai cymdeithasol a ganfu fod yr holl sefydliadau naill ai wedi neu'n bwriadu cyflwyno asesiad cynhwysiant ariannol i'w gynnal ar ddechrau pob tenantiaeth newydd er mwyn sicrhau bod tenantiaid yn cael yr holl fudd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt. Yn yr un modd, mae pob landlord yn annog ac yn helpu tenantiaid i ddefnyddio undebau credyd.
- 4.10 Hefyd, gwnaethom ganfod bod 43 y cant o ddarparwyr tai cymdeithasol yng Nghymru wedi adolygu eu polisïau a'u gweithdrefnau troi allan er mwyn mynd i'r afael yn gyflymach ag ôl-ddyledion rhent ymhlith y rhai sydd dan anfantais ar ôl colli'r cymhorthdal ystafell sbâr ac roedd 17 y cant arall yn bwriadu gwneud newidiadau. Dim ond 36 y cant o landlordiaid a ddywedodd nad oeddent yn bwriadu newid polisïau rheoli ôl-ddyledion rhent. Yn yr un modd, roedd 84 y cant o landlordiaid tai cymdeithasol wedi gwneud gwaith neu'n bwriadu gwneud gwaith i hyrwyddo ffyrdd mwy effeithlon a rheolaidd i denantiaid dalu eu rhent, fel taliadau debyd uniongyrchol. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod mai dim ond 88 y cant o denantiaid oedd â chyfrif sy'n eu galluogi i wneud a derbyn taliadau awtomatig, fel cyfrif banc, cyfrif undeb credyd neu gyfrif cerdyn Swyddfa'r Post, a bod cyfran sylweddol ohonynt - 21 y cant - yn dal i dalu eu rhent mewn arian parod.

Cynyddodd ôl-ddyledion rhent tenantiaid tai cymdeithasol £5.3 miliwn a chynyddodd nifer y tenantiaid ag ôl-ddyledion 23.3 y cant rhwng mis Ebrill a mis Hydref 2013

- 4.11 Canfu ein harolwg o gynghorau i ôl-ddyledion rhent gros yn yr 11 o gynghorau sydd â stoc gynyddu 19.7 y cant, o £11.117 miliwn i £13.847 miliwn, yn ystod y chwe mis cyntaf ar ôl i'r cymhorthdal ystafell sbâr gael ei ddiddymu (1 Ebrill 2013 i 30 Medi 2013). O fewn y ffigur hwn, cynyddodd ôl-ddyledion tenantiaid presennol o £6.611 miliwn i £8.693 miliwn a chynyddodd ôl-ddyledion cyn-denantiaid o £4.506 miliwn i £5.153 miliwn.
- 4.12 O ran cymdeithasau tai, gwelsom fod ôl-ddyledion rhent gros y 34 o gymdeithasau tai mwyaf wedi cynyddu 25.8 y cant o £17.383 miliwn i £21.869 miliwn. Roedd ôl-ddyledion tenantiaid presennol wedi cynyddu o £12.406 miliwn i £15.643 miliwn ac ôl-ddyledion cyn-denantiaid o £6.436 miliwn i £7.372 miliwn.
- 4.13 Bu cynnydd o 15.6 y cant hefyd yn nifer y tenantiaid cynghorau mewn ôl-ddyledion gan gynyddu o 32,507 ym mis Ebrill 2013 i 37,596 ar ddiwedd mis Medi 2013. Gwelwyd cynnydd o 22.5 y cant hefyd yn nifer cyfrifon tenantiaethau cymdeithasau tai a oedd mewn ôl-ddyledion, gan gynyddu o 42,980 i 55,508.
- 4.14 O'r 14,063 o denantiaid cynghorau a oedd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr, canfuwyd bod 51.2 y cant yn talu eu rhent yn llawn; bod 24.3 yn talu rhan o'r diffyg yn eu rhent; ac nad yw 24.5 y cant yn gwneud unrhyw gyfraniad i fynd i'r afael â'r lleihad mewn Budd-dal Tai. O safbwynt y 18,928 o denantiaid cymdeithasau tai a oedd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr, canfuwyd bod 52 y cant yn talu eu rhent yn llawn; bod 39.5 y cant yn talu rhan o'r diffyg yn eu rhent sy'n deillio o'r lleihad mewn Budd-daliadau Tai; ac nad yw 8.5 y cant yn talu dim.
- 4.15 Nododd y rhan fwyaf o landlordiaid - 74 y cant - nad oedd y penderfyniad i ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr wedi arwain at unrhyw newidiadau i'w perfformiad o ran troi allan. Dim ond 17 y cant o landlordiaid tai cymdeithasol sydd wedi cynyddu eu gweithgarwch yn y maes hwn, ond caiff hyn ei gydbwysu gan ostyngiad mewn naw y cant o landlordiaid.
- 4.16 Yn yr un modd, o ran taliadau gwasanaeth - y tâl a wneir gan bob tenant am atgyweirio a chynnal a chadw ardaloedd a rennir - ni welsom fawr ddim newid⁴¹. Dim ond saith y cant o gynghorau a chymdeithasau tai a oedd wedi lleihau taliadau gwasanaeth er mwyn gwneud rhenti yn fwy fforddiadwy ac mae 10 y cant yn bwriadu adolygu eu taliadau gwasanaeth. Fodd bynnag, nid oedd gan y rhan fwyaf o gynghorau a chymdeithasau tai - 81 y cant - unrhyw gynlluniau i newid taliadau gwasanaeth yn sgil y penderfyniad i ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr ac nid oedd dau y cant ohonynt wedi gwneud penderfyniad ar y pryd.


41 Caiff taliadau gwasanaeth eu gwneud gan breswylwyr pan fo eiddo yn cael budd o wasanaeth penodol, fel gwaith garddio ar yr ystâd, cynnal a chadw'r ystâd, goleuo neu lanhau cynteddau mewn blociau o fflatiau. Mae'r tâl gwasanaeth ar wahân i'r rhent wythnosol safonol ond, fel arfer, caiff ei gasglu a'i gynyddu tua'r un pryd â'r rhent. Mae swm y tâl fel arfer yn seiliedig ar y pris gwirioneddol y mae'r landlord yn ei dalu am y gwasanaethau, yn ogystal â thâl rheoli bach am drefnu'r contractau gwasanaeth.

Ni fu unrhyw gynnydd yn nifer y bobl y derbyniwyd eu bod yn ddigartref ond dywed 50 y cant o gynghorau fod y galw am lety dros dro yn cynyddu a dywed 41 y cant fod rhai pobl ddigartref yn byw am gyfnodau hwy mewn llety dros dro tra'u bod yn aros i gael eu hailgartrefu

4.17 O'n gwaith maes, gwelsom nad oedd y rhan fwyaf o gynghorau wedi gweld cynnydd yn nifer yr aelwydydd digartref na nifer yr aelwydydd y derbyniwyd eu bod yn ddigartref o ganlyniad i'r diwygiadau lles, ac mae'r duedd ostyngol ddiweddar o ran nifer yr aelwydydd y derbyniwyd eu bod yn ddigartref yn parhau - **Arddangosyn 13**. O'n harolwg o gynghorau a chymdeithasau tai, dim ond pump y cant o ymatebwyr a oedd wedi gweld cynnydd yn nifer yr achosion o ddigartrefedd o ganlyniad i'r penderfyniad i ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr.

Arddangosyn 13 – Aelwydydd y derbyniwyd eu bod yn ddigartref 2005-06 i 2013-14

Mae nifer yr aelwydydd y derbyniwyd eu bod yn ddigartref yng Nghymru yn parhau i leihau



Ffynhonnell: StatsCymru, HOUS0404: Aelwydydd y derbyniwyd eu bod yn ddigartref yn ôl angen blaenoriaethol a'r math o aelwyd 2003-04 i 2013-14.

- 4.18 Er bod **Arddangosyn 13** yn dangos gwelliant parhaus o ran nifer yr aelwydydd y derbyniwyd eu bod yn ddigartref, cyfeiriodd cynghorau at nifer o effeithiau sylweddol ar eu gwasanaethau o ganlyniad i'r diwygiadau lles. Roedd tua 27 y cant o gynghorau hefyd yn bwriadu cynyddu eu cyllidebau digartrefedd er mwyn delio â'r cynnydd disgwylidig mewn digartrefedd o ganlyniad i'r penderfyniad i ddi-ddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr. Roedd y rhan fwyaf o gynghorau (76 y cant) hefyd yn newid eu gwasanaethau atal digartrefedd⁴² er mwyn ateb y cynnydd disgwylidig mewn digartrefedd ymhlith y rhai sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr ac sydd wedi cael eu troi allan am ôl-ddyledion rhent.
- 4.19 Canfu ein harolwg o gynghorau a chymdeithasau tai i 41 y cant ohonynt ddweud ei bod hi'n anos symud pobl ddigartref o lety dros dro i dai cymdeithasol parhaol, yn enwedig y rhai sydd angen llety llai o faint. Mae'r cynnydd yn y galw am dai llai o faint i'r rhai sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr yn golygu bod yn rhaid i bobl ddigartref fyw mewn llety dros dro am gyfnodau hwy ar gost ychwanegol i'r cyngor. Gwnaethom ganfod hefyd fod 27 y cant o gynghorau eisoes yn cymryd camau i gynyddu'r cyflenwad llety dros dro mewn ymateb i'r cynnydd disgwylidig mewn digartrefedd a bod 23 y cant arall yn bwriadu gwneud hynny. Dim ond 32 y cant o gynghorau a ddywedodd nad oeddent yn bwriadu cynyddu eu cyflenwad o lety dros dro.
- 4.20 Mae llawer o gynghorau yn pryderu hefyd, oherwydd y pwysau ar landlordiaid i drosglwyddo tenantiaid sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr, y bydd llai o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i bobl ddigartref nag o'r blaen gan fod landlordiaid wedi ceisio rhoi blaenoriaeth i symud tenantiaid i eiddo llai o faint ar draul grwpiau eraill y mae angen tai arnynt. Mae'r dewis o lety sydd ar gael i bobl ddigartref yn dod yn fwy cyfyngedig hefyd, yn enwedig i'r rhai sydd angen tai llai o faint, oherwydd y galw ymhlith tenantiaid sy'n trosglwyddo sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr.

Bydd y cynlluniau i gyflwyno Credyd Cynhwysol a thalu budd-daliadau'n uniongyrchol i denantiaid yn cynyddu'r risgiau y bydd yn rhaid i gynghorau a chymdeithasau tai eu trin

- 4.21 Er bod cynghorau a chymdeithasau tai wedi diwygio llawer o wasanaethau ac yn parhau i gynllunio rhagor o welliannau, mae cynghorau a chymdeithasau tai o'r farn bod yr heriau sy'n gysylltiedig â Chredyd Cynhwysol a thalu budd-daliadau'n uniongyrchol i'r hawlydd yn risgiau sylweddol. O dan y Credyd Cynhwysol, a gaiff ei gyflwyno fesul cam hyd at fis Hydref 2017, bydd tenantiaid o oedran gweithio yn cael un taliad misol yn uniongyrchol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Bydd y taliad hwn yn cynnwys eu cymorth ar gyfer costau tai. Mae hyn yn wahanol iawn i'r trefniadau presennol lle caiff Budd-dal Tai llawer o denantiaid cymdeithasol ei dalu'n uniongyrchol i'w landlord a lle cânt fudd-daliadau eraill naill ai bob wythnos neu bob pythefnos.

⁴² Gwaith a wneir gan gynghorau ac asiantaethau eraill i atal rhywun rhag colli ei gartref neu ddod yn ddigartref a gall hyn gynnwys amrywiaeth eang o opsiynau - talu rhent ymlaen llaw neu ddarparu bondiau, er enghraifft.

- 4.22 Nod y newid yw symleiddio'r system Budd-dal Tai, sy'n gymhleth iawn, a rhoi mwy o gyfrifoldeb i denantiaid dros eu harian. Fodd bynnag, mae'r cynnig wedi peri pryder ymhlith darparwyr tai cymdeithasol sy'n ofni y bydd gofyn am daliadau gan denantiaid unigol, yn hytrach na'u cael yn awtomatig gan y wladwriaeth, yn arwain at fwy o ôl-ddyledion.
- 4.23 Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y caiff pensiynwyr eu heithrio o dan drefniadau'r Credyd Cynhwysol ac y bydd y rhai sy'n byw mewn tai â chymorth sydd wedi'u 'heithrio' yn cael help gyda'u costau tai ar wahân i'r Credyd Cynhwysol. Mae hyn yn golygu y bydd modd i Fudd-dal Tai y ddau grŵp hyn o denantiaid gael ei dalu'n uniongyrchol i'w landlord o hyd. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd wedi derbyn na fydd rhai pobl o oedran gweithio yn gallu rheoli taliad misol, ac felly bydd taliadau uniongyrchol i'w landlord yn briodol o hyd yn yr achosion hyn, ac mae'n bwriadu creu system fel rhan o'r Credyd Cynhwysol i dalu budd-daliadau'n uniongyrchol i'r landlord unwaith y nodir bod rhywun yn agored i niwed.
- 4.24 Mae cynghorau a chymdeithasau tai yng Nghymru o'r farn bod angen i'r categori hawlwr 'agored i niwed' a gaiff eu heithrio o dan Credyd Cynhwysol gael ei ddiffinio'n eang er mwyn cynnwys preswylwyr â phroblemau credyd a dyledion yn ogystal â'r rheini â phroblemau iechyd neu anabledd sy'n ei gwneud yn anodd iddynt reoli arian.
- 4.25 Lansiodd Llywodraeth y DU chwe phrosiect arddangos, a oedd yn weithredol rhwng mis Mehefin 2012 a mis Rhagfyr 2013, er mwyn paratoi ar gyfer y newidiadau hyn. Roedd y prosiectau'n profi sut y gallai hawlwr reoli taliadau Budd-dal Tai misol cyn i'r Credyd Cynhwysol gael ei gyflwyno. Edrychwyd hefyd ar y lefel briodol o fesurau diogelu sydd eu hangen er mwyn helpu i ddiogelu ffrydiau incwm landlordiaid pe bai tenantiaid yn methu â thalu eu rhent. Cynhaliwyd un o'r prosiectau peilot hyn yng Nghymru rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen; Tai Cymunedol Bron Afon; a Charter Housing. Canfu'r prosiect peilot yng Nghymru y canlynol⁴³:
- a Mae ymgysylltu â thenantiaid ac asesu eu hanghenion wrth iddynt drosglwyddo i daliadau uniongyrchol yn defnyddio llawer o adnoddau landlordiaid.
 - b Mae'n hanfodol rhannu data'n effeithiol â'r awdurdod budd-dal tai er mwyn i landlordiaid ymyrryd yn gynnar a rhoi cymorth amserol i denantiaid sy'n agored i niwed.
 - c Mae'n well gan denantiaid gael cymorth wyneb yn wyneb, felly mae partneriaid cymorth yn chwarae rhan hollbwysig yn y prosiect.
 - ch Mae'n rhaid i strwythurau darparu gwasanaethau a systemau TG landlordiaid newid er mwyn iddynt reoli taliadau uniongyrchol yn effeithiol.

43 Welsh Housing Quarterly, **A year of Welfare Reform – Direct Influence**, Rhifyn 94, Mawrth 2014.

- d Nid oedd cyfran fawr o denantiaid a gymerodd ran yn y prosiect peilot - 34 y cant - wedi gallu ymdopi â thaliadau uniongyrchol a bu'n rhaid newid nôl i'r drefn o dalu eu Budd-dal Tai yn uniongyrchol i'r landlord, ac roedd y landlordiaid o'r farn y byddai naw o bob deg o'r achosion hyn yn bodloni canllawiau arfaethedig yr Adran Gwaith a Phensiynau ar drefniadau talu amgen o dan y Credyd Cynhwysol.
- dd Dywedodd 25 y cant o denantiaid yr ystyrir eu bod yn dioddef o ryw fath o straen neu orbryder o ganlyniad i daliadau uniongyrchol mewn ymchwil a gynhaliwyd cyn i'r taliadau uniongyrchol gael eu cyflwyno. Roedd llawer o'r tenantiaid hynny a drosglwyddwyd yn ôl i daliadau landlord yn cynnwys achosion fel hyn.

4.26 Mae llawer o gynghorau a chymdeithasau tai wedi mynegi pryder inni y gallai costau gynyddu ar ôl cyflwyno taliadau uniongyrchol. Mae landlordiaid wedi nodi bod y rhan fwyaf o'r trafodion uniongyrchol misol a wneir yn rhai awtomataidd. O dan drefn y Budd-dal Tai presennol, caiff gwybodaeth ei rheoli yn yr un ffordd â thaliadau awtomatig, drwy gyfnewid rhestrau. Pan gaiff awdurdodau lleol eu hepgor o'r trefniant yn y dyfodol, nid yw'n glir sut y bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn cael gafael ar y data heb ychwanegu at ei chostau ei hun a chostau landlordiaid tai cymdeithasol. Os rhoddir y gorau i daliadau Budd-dal Tai uniongyrchol, bydd yn rhaid i gynghorau a chymdeithasau tai hefyd gyflogi nifer sylweddol o bobl i reoli'r broses hon. Bydd cyflwyno taliadau uniongyrchol hefyd yn cyflwyno elfen sylweddol o risg i bron dri chwarter o incwm rhent landlord. Ynghyd â'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan y prosiectau peilot, mae'r newidiadau a gyflwynir fel rhan o'r Credyd Cynhwysol ar gyfer llawer o landlordiaid tai cymdeithasol yn creu darlun annymunol o gostau gweithredol a gweinyddol cynyddol ac yn peri risgiau i hyfywedd ariannol sefydliadau.

Atodiadau

Atodiad 1 - Methodoleg



Atodiad 1 - Methodoleg

Adolygu llenyddiaeth, data ac ystadegau

Rydym wedi adolygu amrywiaeth eang o ddogfennau a chyfryngau, gan gynnwys:

- Aseidiadau effaith, polisiâu a dogfennau canllaw yr Adran Gwaith a Phensiynau.
- Polisiâu a dogfennau canllaw Llywodraeth Cymru.
- Gwybodaeth a gyhoeddwyd gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn Lloegr.
- Data a gyhoeddwyd gan Lywodraeth yr Alban.
- Ffurflenni gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i StatsCymru.
- Ymchwiliad a chanllawiau perthnasol gan y Sefydliad Tai Siartredig, Cartrefi Cymunedol Cymru, y Ffederasiwn Tai Cenedlaethol, Ymddiriedolaeth Trussell, Chwarae Teg, Kellogg's, a Sefydliad Joseph Rowntree.

Gwaith maes mewn awdurdodau lleol

Gwnaethom ymweld â naw awdurdod lleol rhwng mis Rhagfyr 2013 a mis Mawrth 2014. Ymhlith y rhai a ddewiswyd gennym, roedd cynghorau sy'n landlordiaid uniongyrchol o hyd. Ymwelwyd â'r naw awdurdod lleol canlynol.

- Cyngor Dinas Caerdydd
- Dinas a Sir Abertawe
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cyngor Sir Penfro
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Bro Morgannwg
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Yn ystod yr ymweliadau, gwnaethom gyfwrdd â'r aelodau staff canlynol: Rheolwyr Budd-dal Tai, Swyddogion Adran 151, Penaethiaid Cyllid, Penaethiaid Tai, Rheolwyr Tai, Rheolwyr Digartrefedd, Swyddogion Gwrthloddi a Rheolwyr Cefnogi Pobl.

Gwaith maes arall

Rhwng mis Rhagfyr 2013 a mis Mawrth 2014, gwnaethom hefyd gyfwrdd â staff o'r cymdeithasau tai canlynol: Cymdeithas Tai Bron Afon, Linc Cymru, Cartrefi Dinas Casnewydd, Cymoedd i'r Arfordir, a Chymdeithas Tai Wales and West.

Gwnaethom hefyd gyfwrdd â'r canlynol:

- Amanda Oliver, Cartrefi Cymunedol Cymru
- Nina Longrish, TPAS Cymru
- Tamsin Stirling, Cynghorydd Polisi Arbenigol i'r Gweinidog Tai a Chymunedau
- Karl Thomas, Pennaeth Diwygio Lles, Llywodraeth Cymru
- Geoff Marlow, Tai Llywodraeth Cymru
- Simon Protheroe, Tai Llywodraeth Cymru
- Jenny Bibbey, Shelter Cymru
- Jamie Sole, Cuts Watch Cymru
- Lindsey Kearton, Cyngor ar Bopeth Cymru
- Alicija Zalensiska, Tai Pawb
- Steve Clarke, Tenantiaid Cymru

Gwnaethom hefyd gynnal dau grŵp ffocws â chynrychiolwyr tenantiaid yn Ne a Gorllewin Cymru a drefnwyd ar ein rhan gan Denantiaid Cymru.

Arolwg o Awdurdodau Lleol

Gwnaethom gwblhau arolwg o'r holl awdurdodau lleol a chafwyd ymatebion manwl gan y 22 o awdurdodau.

Arolwg o Gymdeithasau Tai

Gwnaethom gwblhau arolwg o'r holl brif gymdeithasau tai yng Nghymru sy'n rheoli ac yn gosod tai cymdeithasol anghenion arbennig a chawsom ymateb gan y 28 o gymdeithasau tai isod, sef 82 y cant o'r rhai a arolygwyd:

- Cymdeithas Tai Bro Myrddin
- Cymdeithas Tai Bron Afon
- Tai Cadwyn
- Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd
- Cartrefi Conwy
- Cymdeithas Tai Charter
- Grŵp Tai Coastal

- Grŵp Tai Gwalia
- Cymdeithas Dai Hafod
- Linc Cymru
- Cartrefi Melin
- Cymdeithas Tai Merthyr Tudful
- Cartrefi Cymoedd Merthyr
- Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru
- Cymdeithas Tai Sir Fynwy
- Cartrefi Dinas Casnewydd
- Tai Newydd
- Cymdeithas Tai Gogledd Cymru
- Cymdeithas Tai Sir Benfro
- Grŵp Tai Pennaf
- Cymdeithas Tai Taf
- Tai Calon
- Tai Ceredigion
- Cymdeithas Tai Clwyd Elan
- Cymdeithas Tai Eryri
- Cymdeithas Tai Unedig Cymru
- Cymdeithas Tai Cymoedd i'r Arfordir
- Wales & West

Penderfynodd y chwe chymdeithas dai isod beidio â chymryd rhan yn ein hastudiaeth:

- Cartrefi Cymunedol Gwynedd
- Cymdeithas Tai Cantref
- Cartrefi Cymunedol Cynon Taf
- Cartrefi NPT
- Cartrefi RCT
- Cymdeithas Tai Rhondda

Arolwg o Denantiaid

Gwnaethom hefyd gwblhau arolwg dros y ffôn rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2014 â hapsampl o 412 o denantiaid tai cymdeithasol wedi'u gwasgaru ledled Cymru, sydd â gwahanol fathau o landlordiaid, y mae'r penderfyniad i ddiddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr a/neu gyflwyno'r cap ar fudd-daliadau wedi effeithio arnynt. Gwnaed y gwaith hwn ar y cyd â Chartrefi Cymunedol Cymru.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk